www.ecorwyddfa.co.uk

# ECO'r Wyddfa

£1

RHIF 517
Tachwedd
2023



## Dyfodol Tŷ'r Ysgol, Llanrug

Mae 'na lawer o siarad yn Llanrug ar hyn o bryd am ddarn o dir ar Ffordd Llanberis. Pan dorrwyd y coed ar dir Tŷ'r Ysgol fis Medi, mi ddechreuodd y sgwrsio ar y stryd ac ar-lein …

Cyngor Gwynedd yw perchnogion y tir dan sylw ac fe brynodd y Cyngor y tir yn 2017 "rhag ofn y byddai ei angen ar gyfer dibenion addysgol yn y dyfodol". Erbyn 2019 roedd y Cyngor wedi penderfynu nad oedd ei angen at ddibenion addysg gan nad oedd am ad-drefnu addysg yn lleol.

Bellach mae tri chwarter o dir Tŷ'r Ysgol wedi ei neilltuo er mwyn adeiladu dau dŷ fforddiadwy ar y safle ar gyfer pobl leol. Beth ydi'r flaenoriaeth felly i drigolion a phlant Llanrug - tai yntau tir i'r ysgol? Darllenwch y stori'n llawn ar dudalen 22.

## Yn y rhifyn hwn:


- Pen cigyddion y fro yn dathlu hanner cant – tud 19
- Seiclo o Waunfawr i Gaerdydd – tud 7
- Eisteddfod Bethel – tud 16
- Bragdy gorau Gwynedd a Môn – tud 7
- Dal i redeg… ym Merlin – tud 32





7



16




32

## Elin Enfys

### Chwilio am Elin Enfys

**Ble mae Elin Enfys? Dewch o hyd iddi'n cuddio mewn 8 lle yn y papur.**



www.ecorwyddfa.co.uk

ECO'r Wyddfa


**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith**
Tony Elliott
Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU.
07798 552238.
tonyelliott17@yahoo.com

**Golygydd Chwaraeon**
Y swydd uchod yn wag. Croeso i unrhyw un gysylltu efo'r Cadeirydd os fyddech efo diddordeb yn y swydd.

**Golygydd yr Ifanc**
Marged Rhys –marged_3@hotmail.com

**Ffotograffydd**
Gwyndaf Hughes
Hafan, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug.
01286 672221.
glasgoed@hotmail.com

**Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu**
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838.
hefsj@aol.com

**Trefnydd Ariannol**
Goronwy Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Gwerthiant Post**
Olwen Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Bwndelu**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Dylunydd**
Elgan Griffiths – post@elgangriffiths.com

**GOHEBWYR PENTREFI**

**Bethel**:
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Brynrefail:**
Lowri Prys Roberts
Godre'r Coed, Brynrefail.
01286 870580.
lowri-prys@supanet.com

**Caeathro:**
Lowri Ceiriog
4 Erw Wen, Caeathro.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

**Deiniolen:**
Nia Gruffudd
3 Hafod, Clwt y Bont. 01286 870394.
glyn.gruffudd@btinternet.com

**Dinorwig:**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Llanberis:**
Eifion Roberts
Swn y Gwynt, Llanberis.
01286 870740.
eifionroberts132@btinternet.com

**Llanrug:**
Ffion Orwig
Tre Ceiri, 9 Pen Cae, Llanrug
Ffôn: 07813 299727
Ebost: ffionorwig@hotmail.com

**Nant Peris:**
Kate Pritchard – 01286 870189.
econantperis@hotmail.com

**Penisarwaun:**
Swydd y gohebydd yn wag ar hyn o bryd

**Waunfawr:**
Iola Gruffydd
iolallew@hotmail.co.uk




# Panel Golygyddol

Aelodau: Beca Brown, Nesta Elliott, John Pritchard, Marged Rhys, Bethan Richardson, Catrin Roberts, Mared Roberts.

Anfonwch eich straeon, newyddion, erthyglau a lluniau ar e-bost i ecorwyddfa@gmail.com os gwelwch yn dda, neu newyddion pentref yn uniongyrchol at y Gohebwyr Pentrefi isod.

Rydym yn croesawu erthyglau hyd at 600 gair o hyd ac mae angen anfon unrhyw luniau atom fel ffeiliau ar wahân. Os hoffech drafod eich cynnwys, mae croeso i chi gysylltu â Nesta Elliott ar 07825 586658

# Rhoddion

*Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru*

£10 Er cof am Eiddwen Thomas, Llanberis, oddi wrth Eurwyn, Einir a Rhian
£25 D H Jones, Buckley er cof am ei frawd Reginald Kaityn Jones
£30 Er serchog gôf am Alwyn Peris Williams o Llanberis, oddiwrth Mam, Clare, Gareth a Osian
£50 Merched y Wawr Waunfawr

***"Yr ofn mawr yw mai cau fydd hanes yr achos yn Neiniolen".***

Beth, tybed, oedd ymateb trigolion Deiniolen yn ardal Gofalaeth Fro'r Llechen Las i'r geiriau uchod yn rhifyn Hydref o'r Eco dan newyddion Dinorwig?

Bûm yn weinidog ar yr eglwysi dan sylw, Cefnywaun, Disgwylfa, (1978-88) ac Ebeneser (1982-88) a go brin y meddyliwn yr adeg hynny y byddem yn gweld geiriau mor ysgytwol. Er yn dra gwahanol i'r dyddiau a fu yn hanes Achos Iesu Grist yn y fro roedd gwedd eitha' da ar y tri chapel ym 1978-88, gyda chynulleidfaoedd gweddol deilwng er nid yn enfawr fel ers talwm. At hynny roedd gennym nifer dda o blant a phobl ifanc, a hyfrydwch yn wir oedd cael cynnal gweithgareddau yn ystod gwyliau'r ysgol, Y Pasg ac ati; roedd y plant mor awyddus i ddysgu am Iesu a chymeriadau Y Beibl. Braint yn wir oedd cael gweinidogaethu i deuluoedd y pentref; cefais rannu profiadau hapus a thrist aelodau a rhai nad oeddent yn rhan o'r eglwysi.

Yn yr un adroddiad cyfeirir ar ymddeoliad fy olynydd y Parchedig John Pritchard ar ôl 35 mlynedd o wasanaeth ffyddlon. Gwn am ei gyfraniad gwerthfawr yn enwedig ei gyhoeddiad wythnosol, *Y Gronyn*, yr olaf ohonynt, rhifyn 1000, yn ymddangos ar y Sul olaf o Awst eleni. Yn ychwanegol cyfrannodd John i'r Eco (Un funud fach....) a'r Goleuad, wythnosolyn Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Edmygaf ei weinidogaeth brintiedig yn fawr, roedd yn ymwneud â materion cwbl amserol gyda neges yr Efengyl bob tro.

Ond daeth tro ar fyd. Bûm drwy'r pentref ychydig yn ôl, a thristwch mawr oedd gweld y capeli wedi peidio bod yn addoldai, Ebeneser, Cefnywaun, Tabernacl a Disgwylfa (wedi eu dymchwel) Libanus a Maes y Dre. Ple gynt y bu moli'r Arglwydd, y cwbl yn fud. I ble yr aeth pawb? Diolch fod drysau Eglwys Llandinorwig yn dal ar agor.

Ond na ddigalonnwn yn llwyr, y mae'na weddill ffyddlon o'r eglwysi hynny'n aros, criw bychan yn dod at ei gilydd i wrando ar Air Duw yn Nhŷ Elidir. Felly roedd hi cyn codi'r capeli, cyfarfod yn nhai ei gilydd neu yn yr awyr agored. Pwy a ŵyr na fydd Duw'n defnyddio'r gweddill ffyddlon hyn yn egin tyfiant newydd yn yr ardal ac na fu gweinidogaeth John ac eraill yn ofer.

Fel awdur yr adroddiad yn Eco'r Wyddfa rwyf innau yn mawr obeithio nad ymddeoliad y Parchedig John Pritchard fydd dechrau'r diwedd yn hanes Achos Iesu Grist yn Neiniolen, na thu hwnt o ran hynny.

Daliwch ati gyfeillion, gallwch ddweud fel un o'n cantorion cyfoes, "Er gwaethaf pawb a phopeth, r'yn ni yma o hyd."

**Trefor Lewis**
Hen Golwyn.

Annwyl Banel Golygyddol,

**FFAIR NADOLIG SEILO** – Tybed ai arwydd o fynd yn hŷn yw teimlo fod amser yn mynd yn gynt a chynt! Dyma hi'n fis Tachwedd yn barod, ac yn amser paratoi at **Ffair Nadolig Seilo** unwaith eto.

Eleni cynhelir, rhwng 2:00PM a 4:30PM Dydd Iau, 16eg Tachwedd yn Theatr Seilo, am bris rhesymol o £2 Y TOCYN – wrth y drws/ gan aelodau - (i gynnwys paned a mins pei neu fisgedi). Bydd stondinau amrywiol o bob math – yn gacennau a chynnyrch cartref o jams a chutneys blasus i waith llaw a gwau hyfryd, stondin 'Fel Newydd', cynnyrch gardd, anrhegion safonol, addurniadau Nadolig gwahanol a diddorol, yn wir, digon o gyfle am fargen ac i ddechrau neu orffen eich siopa Nadolig!

Bydd digon o hwyl i'w gael i blant o bob oed ar y stondin Tombola, gêm sgwariau, a dyfalu pwysau teisen Nadolig a phosau eraill, a'r enillwyr lwcus yn cael gwobr gwerth chweil! Mae cymdeithasu uwchben paned yn rhan o'r Ffair hefyd, wrth gwrs!

Felly, dewch yn llu eleni eto, efo llond poced o arian parod, am bnawn o hwyl! Mae aelodau gweithgar y Pwyllgor Gwaith wedi bod wrthi ers wythnosau yn paratoi ar eich cyfer. Dros y blynyddoedd, rydym wedi llwyddo i godi miloedd o bunnau at wahanol elusennau. Bydd yr elw eleni yn cael ei rannu rhwng: Ysgol Pendalar, Cronfa Llŷr, sef Cronfa Goffa Dr Llŷr Roberts a Chronfa Seilo.

Diolch,
**Edwina Morgan**

# Dyddiadau i'w cofio...

| Rhifyn | Dyddiad cau derbyn cynnwys (ail ddydd Gwener yn y mis) | Dyddiad cyhoeddi (pedwerydd dydd Gwener yn y mis) |
|---|---|---|
| Rhagfyr | 10 Tachwedd | 24 Tachwedd |
| Ionawr | 1 Rhagfyr (sylwer ei fod yn gynt) | 15 Rhagfyr (sylwer ei fod yn gynt) |
| Chwefor | 12 Ionawr 2024 | 26 Ionawr 2024 |

**Annwyl Olygyddion**
A fyddech cystal a chyhoeddi'r englyn isod yn y rhifyn nesaf o Eco'r Wyddfa os gwelwch yn dda. Fe'i rhoddwyd fel anrheg i John, (wedi ei fframio yn ddestlus gan Buddug Wyn Humphreys) gan aelodau a gwrandawyr capel Efengylaidd Tanycoed, Llanrug.

Mae rhai ohonom yn cofio John yn Weinidog yn Abersoch gyda'r Annibynwyr. Yno y dechreuodd y daith yn 1979. Bu'n ffyddlon i'w Waredwr ar hyd y beit, ac y mae cof da gan amryw am ei weinidogaeth yn Llŷn, dwi'n siwr.

Sut bynnag, 'roedd yr alwad i'w Lanberis hoff – pentref ei fagwraeth – yn ddigon i'w ddenu yno yn yr wythdegau, a'n colled yn Llŷn oedd yr ennill yn Llanbêr a'r cylch.

Fel y gwelwch, daeth y dydd, fel i bob un ohonom, i roddi'r dyddgwaith heibio; ond nid yr Efengyl chwaith. Yng Nghapel Tanycoed, diolchwn am ei gyngor doeth, ei weinidogaeth a'i hynawsedd siriol bob amser. Diolch arbennig am y cylchgrawn wythnosol arlein, **Gronyn**, a gynhyrchwyd yn ddyfal gan John dros gyfnod maith di-dor o ddwy flynedd ar hugain, heblaw am amser gwyliau;, hynny yw dros fil o rifynnau.

Gyda diolch
**Alwyn Pritchard**, Pwllheli

Ar ymddeoliad y Parchedig John Pritchard
**31/08/23**

Hir rodiaist â'th Waredwr, – yn had da,
Doist di o Dŷ'r Heuwr;
A'r Gronyn, ple i'th Grëwr
Yn ein dydd yn uchel dŵr.
**Alwyn Pritchard**



**Annwyl ddarllenwyr Eco'r Wyddfa**
Mae deiseb wedi ei chreu yn Llanrug gan rieni disgyblion Ysgol Gynradd Llanrug, i ofyn i Gyngor Gwynedd drosglwyddo tir Tŷ'r Ysgol yn gyfan gwbl i'r ysgol, yn lle codi tai ar y safle.
Os y caiff y cynllun adeiladu yma ei gymeradwyo, ni fydd cyfle BYTH eto i ehangu ar dir yr ysgol a chynnig cyfleoedd i blant y pentref i gael budd o ardal y tu allan i waliau'r dosbarth i fwynhau a dysgu yn yr awyr agored. Rydym felly yn galw ar rieni a thrigolion pentref Llanrug i gefnogi ein deiseb i rwystro'r cynllun adeiladu tai rhag mynd yn ei flaen.

Mae'r ddeiseb i'w gweld ar wefan Change.org dan y teitl 'Achub tir Ty'r Ysgol, Llanrug – Save Ty'r Ysgol Llanrug's land' – byddem yn falch iawn o'ch cefnogaeth.

Diolch yn fawr,
**Gemma Jones**

Annwyl Olygydd,
Fel mae rhai o'ch darllenwyr efallai yn gwybod, rydw i wedi creu gwefan – www.cofnodicorlannau.org – sy'n cofnodi'r corlannau unigryw sydd i'w gweld ar y Carneddau mewn lluniau a geiriau.

Yn ddiweddar, rydw i wedi dechrau adran newydd – Hanesion – lle hoffwn gasglu a chofnodi atgofion o ffermio defaid ar y Carneddau yn gyffredinol, a sut y defnyddiwyd y corlannau yn arbennig. Os oes gan unrhyw un atgofion neu wybodaeth yr hoffen nhw eu rhannu - mawr neu fach – mae croeso iddyn nhw gysylltu â mi trwy e-bost ar nigel.beidas@gmail.com. Pe bai hynny'n haws, byddwn yn hapus iawn i gyfarfod am sgwrs.

Po fwyaf o hanesion a geir, y llawnaf fydd y darlun ar y wefan o ffermio defaid ddoe a heddiw.

Rydw i'n edrych ymlaen at glywed gan y darllenwyr ac yn diolch iddyn nhw ymlaen llaw.
**Nigel Beidas**

# Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Eco'r Wyddfa

## 5ED HYDREF, 2023

**Presennol:** Nesta Elliott, Tony Elliott (Cadeirydd), Goronwy Hughes (Trysorydd) Gwyndaf Huws (Ffotograffydd), Hefin Jones (Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu), Bob Phoenix, Bethan Richardson, Dafydd Whiteside Thomas.
**Ymddiheuriadau**: Catrin Roberts, Mared Roberts, Marged Rhys
**Cofnodion**
Derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Blynyddol 10fed Tachwedd, 2022 fel rhai cywir.

**Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith**
Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Diolchodd i'r Pwyllgor Gwaith a'r Panel Golygyddol am eu gwaith drwy gydol y flwyddyn.

Nodwyd bod pryder o hyd am olyniaeth y Pwyllgor Gwaith, gan fod pob aelod o'r Pwyllgor dros 70 a bod angen cael gwaed newydd os yw'r Eco am barhau. Ategwyd bod angen aelodau newydd i'r Panel Golygyddol i ysgafnhau baich cyfrifoldeb yr aelodau gweithredol presennol. Nodwyd bod angen esbonio dyletswyddau aelodau'r Panel Golygyddol, fel bod darpar aelodau newydd yn deall beth oedd y disgwyliadau. Nodwyd bod modd rhannu dyletswyddau swyddogion y Pwyllgor Gwaith, rhag i'r cyfrifoldebau fod yn ormodol ar unrhyw unigolyn, fyddai'n fodlon ymgymryd â swydd. Mae croeso i unrhyw un sydd yn awyddus i wybod mwy am natur gwaith y Pwyllgor Gwaith neu'r Panel Golygyddol i gysylltu â'r Cadeirydd (e-bost: tonyelliott17@yahoo.com neu ffôn: 07798 552238).

Trafodwyd gwahodd disgyblion Ysgol Brynrefail i gyfrannu erthyglau at yr Eco (efallai fel rhan o'u hastudiaethau i'r Fagloriaeth). **PENDERFYNWYD** y byddai Gwyndaf yn edrych ar y maes llafur ac yn cysylltu efo'r ysgol i weld os oedd modd iddynt gyfrannu at gynnwys y papur.

Diolchwyd i'r holl Ohebwyr Pentref am eu gwaith, gan nodi bod swyddi gohebydd pentrefi Penisarwaun a Chwm-y-Glo yn parhau i fod angen eu llenwi.

**Adroddiad y Trefnydd Ariannol**
Nododd Goronwy fod sefyllfa ariannol yr Eco yn gadarn. Mae gwerthiant misol y papur tua mil o gopïau sydd yn dderbyniol, er bod y gwerthiant mewn ambell i bentref yn sylweddol is na'r hyn a ddisgwylir o ystyried maint y pentref. Mae'r incwm o hysbysebion yn iach ar hyn o bryd, diolch i gefnogaeth yr hysbysebwyr ffyddlon sydd yn cefnogi'r papur. Cytunwyd i wneud ymdrech i ddenu mwy o hysbysebion at y Nadolig.

Nodwyd hefyd bod nifer y rhoddion yn galonogol iawn, diolch i haelioni ein darllenwyr a chyfeillion yr Eco. Cafwyd rhodd hael iawn hefyd gan Gapel Bosra. Rhaid cydnabod hefyd y gefnogaeth hael a geir trwy grantiau Llywodraeth Cymru a'r pedwar cyngor cymuned, fodd bynnag nodwyd na chafwyd cyfraniad gan ddau o'r cynghorau hynny llynedd.

Mae'r Trefnydd Ariannol yn parhau i fod eisiau ymddeol. Crybwyllwyd dau enw a gwirfoddolodd Gwyndaf a Goronwy i holi'r ddau ymhellach a fyddent yn barod i ymgymryd â'r swydd, neu efallai rhannu'r dyletswyddau.

Mynegodd y Cadeirydd werthfawrogiad diffuant y Pwyllgor Gwaith i aelodau'r Panel Golygyddol am eu gwaith arbennig o gynhyrchu papur o safon mor uchel o fis i fis. Gwnaeth apêl hefyd am ragor o wirfoddolwyr i ymuno â'r Panel Golygyddol i ysgafnhau ychydig ar eu pwysau gwaith.

Diolchwyd i Elgan Griffiths, ein dylunydd galluog, ac i'n cyfeillion yn Y Lolfa am eu cydweithrediad parod. Clywir canmoliaeth uchel o sawl cyfeiriad am ddiwyg deniadol y papur.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at rôl allweddol y gohebwyr pentref fel cyswllt pwysig rhwng ein darllenwyr a'r papur. Nododd yn arbennig y ffordd y mae sawl un o'r gohebwyr yn mynd yr ail filltir i chwilio am newyddion a straeon o bob math o fewn eu cymunedau - arwydd arbennig o arfer dda! Nodwyd bod croeso i unrhyw un anfon newyddion am yr hyn sy'n digwydd yn ein cymuned, boed hynny'n bositif neu'n negyddol, i'r gohebwyr pentrefi neu'n uniongyrchol at yr Eco, er mwyn sicrhau cydbwysedd y newyddion o fewn bro'r Eco.

Diolchodd i'n dosbarthwyr ffyddlon, a hefyd i'r holl siopau sydd yn gwerthu'r Eco ar ein rhan.

Cafwyd cyfle ar ddiwedd y cyfarfod i gadarnhau'r holl swyddogion ac aelodau'r Panel Golygyddol yn eu swyddi.

***Tony Elliott***
***Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith***

## Yn ystod y mis a aeth heibio...

- **RAAC.** A daeth gair newydd i'n geirfa: Reinforced autoclaved aerated concrete, a degau os nad cannoedd o adeiladau cyhoeddus yn cael eu heffeithio, gan gynnwys ysgolion ac ysbytai. Arolygon o wahanol adeiladau yn cael eu cario allan led-led y wlad.
- **Arth**. Tripod, arth gyda dim ond tair coes yn creu llanastr mewn gerddi a pharciau yn nhref Maguella yn Florida. Ond mae'r trigolion yn ei derbyn "fel un ohonom ni" a does dim bwriad o gael gwared o'r arth.
- **20 m.y.a**. Do, fe ddaeth y cyfyngiad cyflymder newydd yn rhan o gyfraith gwlad yma yng Nghymru – llawer o blaid a llawer yn erbyn. Amser a ddengys pa mor llwyddiannus fydd.
- **Wegory**. Mae'r frechiad-colli-pwysau ar gael gan y Gwasanaeth Iechyd, ac amcangyfrifir y gall gynorthwyo hyd at 50,000 o bobl i golli pwysau. Ar hyn o bryd, dim ond yn Lloegr y mae ar gael.
- **Lampedusa**. Yr ynys ym Môr y Canoldir yn derbyn 7,000 o fudwyr o Affrica mewn dau ddiwrnod – mwy na phoblogaeth yr holl ynys.
- **Gwin**. Cynhaeaf grawnwin yr Eidal yn dioddef oherwydd ffwng sy'n goroesi sychder ac yn ffynnu ar lawogydd trwm. Mae posibilrwydd y bydd gostyngiad o 12% yng nghynnyrch y gwinllannoedd eleni.
- **Sgio.** Mae canolfannau sgio yn cau oherwydd diffyg eira. Y diweddaraf yw La Sambuy yn Ffrainc, sy'n arfer bod ar agor o Ragfyr hyd ddechrau Ebrill. Roedd yn costio £69,000 y flwyddyn i'w chynnal, ond eleni gwnaeth golled o £432,000, a hynny, a diffyg eira, a'i gorfodwyd i gau. Mae'r holl offer a ddefnyddid i gario sgiwyr i fyny'r llethrau yn cael eu datgymalu a'u gwerthu'n fetel sgrap.
- **Gorila**. Mae Delilah, y gorila hynaf ym Mhrydain wedi dathlu ei phen-blwydd yn 60 oed yn Sŵ Belfast. Yn ei hieuenctid, bu'n ymddangos yn rheolaidd ar y gyfres deledu boblogaidd 'Animal Magic' yn y 1970au.
- **Gwynt**. Mae caniatâd wedi ei roi i adeiladu fferm wynt arall yn y môr i'r gogledd o Landudno. Bydd yn cynhyrchu digon o drydan i gynnal hanner miliwn o gartrefi, a hyderir y bydd yn weithredol erbyn diwedd y ddegawd.
- **100**. Mae'r nifer o bobl sy'n byw i fod yn gant oed wedi cynyddu'n sylweddol o fewn canrif. Yn 1922 dim ond 110 o bobl cant oed oedd yng Nghymru a Lloegr. Erbyn 2021 roedd 13,924. Bydd cryn dipyn o amser y brenin yn mynd i sgwennu cardiau cyfarch!
- **Ynni Equinor ac Ithaca**. Enw'r cwmni sydd wedi cael caniatâd i ddatblygu maes olew Rosebank y tu hwnt i Ynysoedd y Shetland. Amcangyfrifir fod 300 miliwn casgen o olew yno – ond am ba bris?
- **Mercury**. Mae'r blaned yn lleihau yn ôl adroddiad yn "Nature Geoscience". Yn ôl y sêr-ddewiniaid sy'n astudio'r blaned mae'r broses wedi bod yn digwydd ers o leiaf 3 biliwn o flynyddoedd.
- **Dirwy**. Llywodraeth yr UDA yn dirwyo cwmni 'Dish Network' am beidio cael gwared â hen loeren o'r gofod. Amcangyfrifir fod dros 10,000 o loerennau yn y gofod bellach, ac y mae mwy na'u hanner o ddim defnydd ymarferol.
- **Pêl-droed**. Mae FIFA wedi cyhoeddi y bydd Cwpan y Byd yn 2030 yng ngofal gwledydd Sbaen, Portiwgal a Morocco, ond y bydd rhai o'r gemau cychwynnol yn cael eu chwarae yn yr Ariannin, Uruguay a Paraguay. Mae Cyfeillion y Ddaear a grwpiau a mudiadau amgylcheddol eraill wedi eu beirniadu yn hallt am roi blaenoriaeth i wneud elw ar draul effeithiau amgylcheddol.

## CAEATHRO

**Capel**
Ar y 5ed o Dachwedd, bydd Gwasanaeth dan arweiniad y Gweinidog, y Parchedig Nerys Griffiths, i gychwyn am 2.00PM. Bydd Cyfarfod Arweinwyr i ddilyn y Gwasanaeth hwn. Ar y 19eg o Dachwedd, bydd Gwasanaeth dan arweiniad y Parchedig Megan Williams, hefyd i gychwyn am 2.00PM.

**Mynwent y Capel**
Gyda'r tymor torri gwair yn dirwyn i ben eto, cymrwn y cyfle hwn i ddiolch i Keith Morgan am ei waith diwyd a phroffesiynnol am gadw'r fynwent mewn cyflwr twt a thaclus drwy gydol y flwyddyn. Mae amryw o unigolion yn aml yn brolio ansawdd a chyflwr y fynwent. Diolch hefyd am y rhoddion ariannol sy'n cael derbyn gan y cyhoedd i'w cyfrannu tuag at y costau o gynnal a chadw y safle – gall unrhyw un sy'n awyddus i gyfrannu wneud hynny trwy law un o Swyddogion y Capel – cadwch olwg ar yr hysbysfwrdd am fanylion y Swyddog priodol o fis i fis.

**Cydymdeimlo**
Anfonwn ein cydymdeimladau dwysaf at deulu Josephine Stanley Evans yn dilyn ei marwolaeth yn ddiweddar. Roedd Mrs Evans yn un o gyd-sylfaenwyr Garej Gwalia ac roedd ei hymroddiad a'i gwaith caled yn allweddol i lwyddiant a ffyniant y busnes hyd heddiw.

**Clwb Garddio Caeathro**
Cynhaliwyd garddwest ar y 15fed o Orffennaf yn Bodwyn, Caeathro trwy garedigrwydd Mark a Joanne Carrington. Ein nod oedd casglu arian at elusen ganser er cof am Sylvia Sellers a oedd yn aelod gwerthfawr o'r clwb. Er gwaethaf y tywydd garw, cefnogwyd y digwyddiad gan nifer dda o'r aelodau. Llwyddwyd i godi £485 a rhoddwyd yr arian i Hosbis Dewi Sant.

Cychwynnodd tymor newydd y clwb ar y 10fed o Hydref. Croesawyd yr aelodau gan y Cadeirydd Rhiannon Owen.

Ein siaradwr gwadd oedd Mel o Ganolfan Arddio Frongoch. Testun ei sgwrs oedd y tasgau gellid eu cyflawni yn yr hydref. Awgrymodd ein bod yn bwydo'r lawnt yn hytrach na defnyddio cynnyrch i ladd y mwsog. Os am blannu bylbiau yn y lawnt, dylid ystyried blodau'r grog. Bydd y dail wedi marw lawr cyn i'r tymor torri gwair gychwyn. Syniad da arall yw plannu eich bylbiau mewn potiau a'u gosod yn yr ardd ble mae gofod. Os oes rhai o'r llwyni heb flodeuo cystal eleni, gellir eu bwydo gyda hylif sy'n isel mewn nitrogen. Bydd hyn yn llesol i'r gwreiddiau a'r coesau.

Daeth Mel a nifer o blanhigion gyda hi i'r cyfarfod sy'n rhoi lliw i'r ardd yn yr hydref. O ganlyniad, bydd llawer o'r aelodau yn ymweld â Frongoch i ychwanegu at eu casgliad o blanhigion! Diolchwyd i Mel am sgwrs hynod o ddifyr gan Rhiannon Owen.

Bydd ein cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar brynhawn dydd Mawrth 14eg o Dachwedd am 1.00PM yng Nghapel Caeathro. Ein siaradwr gwadd fydd Dewi Jones, Antur Waunfawr a bydd yn siarad am wneud seidr.

Croeso i aelodau newydd ymuno â ni.

**Cyfyngu Cyflymder 20 MYA**
Efallai eich bod eisoes yn ymwybodol fod y cyfyng cyflymder cenedlaethol newydd bellach yn weithredol ar hyd lonydd y pentref – gobeithio bydd hyn yn help i greu awyrgylch ddiogel i drigolion yr ardal.

**At sylw darllenwyr Eco'r Wyddfa**
Dyma ysgrifennu atoch i'ch hysbysu o gymhorthfa a gynhelir ar y cyd rhwng y Cyng. Berwyn Parry Jones a Siân Gwenllian AS yng Nghwm-y-glo ar 10 Tachwedd 2023.

Mae cymorthfeydd yn gyfle i drafod materion lleol gyda chynrychiolwyr gwleidyddol.

Mae'n rhaid i'r sawl sy'n dymuno mynychu'r gymhorthfa gysylltu â'r swyddfa i drefnu o flaen llaw. Gallwch wneud hynny drwy anfon e-bost at sian.gwenllian@senedd.cymru neu drwy ffonio 01286 672076.

Cofion,
**Siân Gwenllian**

Plaid Cymru
Party of Wales

## NANT PERIS

**Eglwys St. Peris, Nant Peris**
Gwasanaethau mis Tachwedd:
5ed Tachwedd, 9:30AM - Boreol Weddi
12fed Tachwedd, 10.00AM - Gwasanaeth Sul y Cofio yn Eglwys St Padarn, Llanberis;
4.00PM - Gwasanaeth Teulu
19eg Tachwedd, 9:30AM - Boreol Weddi
26ain Tachwedd, 9:30AM - Cymun Bendigaid
Hefyd cynhelir un ai gwasanaeth Cymun Bendigaid neu'r Foreol Weddi bob bore Mawrth am 11.00AM.

# DEINIOLEN

**Newyddion Cynghorydd Deiniolen**
Bydd Sul y Cofio yn cael ei gynnal ar 12fed Tachwedd am 9.15 AM yn y lle arferol gyda'r Parchedig John Pritchard yn arwain.

Diolch i Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd am gwblhau gwaith yn Clwt-y-bont, a diolch i Adra am dorri coed ger Bro Deiniol yn ddiweddar.

**Gwasanaethau'r Sul**
Dyma drefn oedfaon Cefn y Waun ac Ebeneser am weddill y flwyddyn. Gwasanaethau i'w cynnal yn Nhŷ Elidir. Dalier sylw ar y gwahanol amserau.
29 Hydref: Parch Geraint Lloyd Evans, Ynys Môn – 5.00 PM.
5 Tachwedd: Parch Nerys Griffith, Caernarfon – 3.30 PM
12 Tachwedd: Miss Eleri Jones, Bangor – 3.30 PM
19 Tachwedd: Mr John Roberts, Llanfairpwll – 3.30 PM
26 Tachwedd: Oedfa.
3 Rhagfyr: Gwasanaeth o garolau yng ngofal Mr Gareth Jones a Mrs Nan Jones. Bydd paned o de a mins pei ar ddiwedd y gwasanaeth. Croeso cynnes i bawb.
10 Rhagfyr: Dr Huw Tegid Roberts, Llangefni – 3.30PM
17 a 24 Rhagfyr: Dim oedfa.

**Profedigaeth**
Estynnwn pob cydymdeimlad at deulu'r diweddar Lona (Baum) LEWIS, Gorllwyn, 36 Rhydfadog, Deiniolen a hunodd yn dawel ar 28 Medi 2023, yn 78 mlwydd oed.

Priod annwyl y diweddar Alun (Mabon); mam amhrisiadwy Sandra, Dylan a Gwyn a mam-yng-nghyfraith a ffrind i Dilwyn a Sioned; nain ofalus a doniol Alaw, Anna, Osian, Sion ac Erin a hen nain falch i Tomos-Alun, chwaer annwyl Gwynfor a chwaer-yng-nghyfraith Goronwy. Bydd colled enfawr ar ei hôl.

Yn dawel yn Hospis Dewi Sant, Llandudno bu farw Caradog Thomas o 2 Bron Helen, Clwt-y-Bont, Deiniolen yn 73 mlwydd oed.

Mab y diweddar Richard a Maggie Thomas; brawd annwyl Gwilym a'r ddiweddar Helen; brawd-yng-nghyfraith ac ewythr hoff a ffrind da i lawer. Colled drist i'w deulu a'i ffrindiau oll.

Yn dawel yng nghwmni ei deulu yn Ysbyty Gwynedd, Bangor ac o Niagaria, Deiniolen, bu farw Martin Worth yn 82 mlwydd oed. Gŵr ffyddlon Rosina, a thad a thad-yng-nghyfraith gwerthfawr Colin a Rhian, a Dave a Karen. Taid balch Iestyn a'i briod Sara, Osian a'i gymar Nastya, Einion a'i gymar Elin, ac Elin. Brawd gofalgar Muriel a brawd-yng-nghyfraith ac ewythr hoff.

Yn ddiweddar bu farw Nansi Jones neu Ellis gynt o Abergele. Roedd yn enedigol o Weirglodd Goch, Penisarwaun ac mi fu yn athrawes yn Ysgol Deiniolen am nifer o flynyddoedd. Yn ddiweddarach mi briododd y Parch. Isaac Jones gweinidog Capel Cefn y Waen gan fyw yng Nglanffrwd wedi hynny cyn symud i Firmingham ac yna setlo yn Abergele. Cofion at y teulu yn arbennig felly'r plant Eleri, Llion ac Euros.

**University Challenge**
Siawns mai am y tro cyntaf erioed y clywyd enw Deiniolen ar raglen University Challenge yn ddiweddar, ond dim fel rhan o gwestiwn. Roedd Prys Hughes, Coed Mawr yn rhan o dîm Prifysgol Strathclyde ac fe gyhoeddodd yn falch mai un o Ddeiniolen, Gwynedd oedd o. Yn anffodus collodd y tîm ond da iawn Prys am fynd mor bell a rhoi enw Deiniolen ar y map.

**Cylch Meithrin**
Braf iawn yw gweld fod y Cylch Meithrin wedi ail agor a dymunir pob lwc i'r arweinydd newydd, Elin Jones a phawb arall sydd yn cynorthwyo.

**Gweithgareddau**
Mae hi wedi bod yn haf prysur yn y pentref gyda nifer o weithgareddau wedi eu cynnal dros y cyfnod. Cynhaliwyd clwb brecwast bob dydd Llun yng Nghaffi Eb, noson cyri a cwis eto yng Nghaffi Eb, sêl cist car ar iard yr ysgol, noson meic agored yn y Wellington a phaned a sgwrs yng Nghaffi Eb. Diolch i griwiau prysur Gŵyl Deiniolen a Pwyllgor y Pentra am drefnu a chynnal y cwbl. Da iawn hefyd oedd gweld cyfleon i rannu gwisgoedd ysgol cyn dechrau'r tymor newydd.

**Pêl-droed**
Mae sesiynau ymarfer clwb pêl-droed ieuenctid Deiniolen wedi cychwyn ar Gae Bwthyn, gweler fanylion llawn ar dudalen Grŵp Cymunedol Deiniolen ar facebook ond hyd yn hyn maent fel a ganlyn, nos Lun oedran dan 5 rhwng 5.30 a 6.30pm; nos Fercher oedran dan 10 rhwng 6.00 a 7.30pm; nos Iau oedran dan 8 rhwng 5.30 a 6.30pm; nos Iau oedran 12 rhwng 5.30 a 7.00pm.











www.ecorwyddfa.co.uk
ECO'r Wyddfa



**Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?**

Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838
hefsj@aol.com

# Ysgol Waunfawr



**Newyddion o’r Ysgol gan Gadeirydd Y Cyngor Ysgol: Elis Griffiths Blwyddyn 6**
Helo! Elis ydw i a fi ydy Cadeirydd y Cyngor ysgol am eleni. Dwi’n 10 oed ac yr hynaf o dri o blant sy’n mynychu Ysgol Waunfawr.

Yr wyf yn hapus a balch o gael bod yn gadeirydd ac mae gen i syniadau cyffrous ar gyfer gwaith y Cyngor Ysgol eleni, er enghraifft, codi arian ar gyfer elusennau, cael llyfrau llafar i’r ysgol, gwirfoddoli yn y gymuned a llawer o bethau eraill.

Y tymor hwn yr ydym yn astudio cyfnod y 60au - tybed a oes unrhyw un ohonoch yn ddigon hen i gofio’r cyfnod ac yn fodlon dod i’r ysgol i roi sgwrs i ni?

Bydd Ffair Nadolig yn cael ei chynnal yn yr ysgol ar 6ed Rhagfyr, 2023. Os oes gan rywun ddiddordeb archebu stondin, cysylltwch.

Yn y lluniau yma gallwch weld rai o ddigwyddiadau'r tymor yma hyd yn hyn :



Taith gerdded y dosbarth Mynydd Mawr yn chwilio am arwyddion yr Hydref.





Glan Llyn Dosbarth Mynydd Grug

**Taith Glan Llyn gan Dicw Davies Blwyddyn 3**
Wythnos dwytha ar ddydd Gwener, es i Lan Llyn ar fws. Mi wnes i fwynhau'r olygfa. Pan gyrhaeddom ni, dangosodd Chris lle i roi ein bagiau. Wedyn, mi wnaeth dau ddyn arall o’r enw Cian ac Iwan ddangos i ni lle i wisgo dillad ar gyfer y llyn. Cefais ddillad arbennig.

Wedyn mi wnaeth Cian ac Iwan Estyn yr offer a fflôt.

Nesaf, aethom yn y canŵ ac roedd yn gyffrous. Pan oedd Mr Jones yn mynd ar y cwch yr oeddwn yn meddwl ei fod am suddo. Cwch modur oedd yn ein tynnu ni a cawsom roi mwd ar ein wynebau ond doeddwn i ddim yn hoffi'r mwd ar fy ngwyneb.

Nesaf, aethom i gael cinio a'r cinio oedd sglodion, cyw-iâr a rap ac i bwdin cawsom iogwrt. Wedyn es i ddringo a bron mynd i’r top ond roedd un yn anodd.

Y peth olaf a wnaethom oedd saethyddiaeth ond nes i ddim hitio'r balŵn ond cefais hwyl. Ar y ffordd adref eisteddais hefo Macsen ac mi gawsom hwyl.

Cefais ddiwrnod i’r brenin yng Nglan Llyn a dwi’n edrych ymlaen mynd eto.



**Rhaglen Hwyluswyr Ifanc: Sioe Mewn Cymeriad 12fed Rhagfyr 2023, Canolfan Waunfawr**
Mae disgyblion blwyddyn 6, Ysgol Waunfawr yn brysur y tymor yma yn trefnu i gwmni theatr Mewn Cymeriad i ddod i berfformio eu sioe Nadolig ‘Nadolig Ddoe a Heddiw’ yng Nghanolfan Waunfawr. Bydd y sioe yn cael ei chynnal ar nos Fawrth, Rhagfyr 12 am 6:30 yn y prynhawn.

“Mae’r sioe yma yn hwyliog a chyffrous ac yn addas i’r teulu cyfan” meddai Cadi, 10 oed. “Ni sy’n trefnu popeth - o benderfynu ar brisiau tocynnau, mesur y neuadd a gwneud posteri i ddangos pobl i’w seddi” meddai Lea, 10 oed. “Mae tocynnau ar gael o’r ysgol a rydym ni’n gobeithio gawn ni gefnogaeth dda” meddai Elis, 10 oed.

Am fwy o fanylion ffoniwch yr ysgol ar 01286 65045.



**Teulu Anturus Tangelynen**
Doedd Arthur a Josie Tangelynen erioed wedi bod yng Nghaerdydd, felly dyna benderfynu mynd yno yn ystod gwyliau'r af eleni. Does dim byd yn anarferol am hynny meddech chi, dim ond eu bod wedi mynd yno yr holl ffordd ar gefn beics. A dim ond 10 oed oedd Arthur yn cychwyn y daith a Josie ddim ond yn 5 oed! Yn ychwanegol at hynny, roeddent yn cario pebyll, sachau cysgu, offer coginio a bwyd ar eu beics gan wersylla pob nos ar y ffordd.

Roedd y rhwydwaith beicio cenedlaethol yn eu galluogi i ddilyn llwybrau yr holl ffordd o'u cartref yn Waunfawr i Gaerdydd (llwybr rhif 8 ydi o os ydach chi ffansi mentro!) ac roedd yn golygu beicio 220 o filltiroedd gan ddringo 4,320 metr i gyd. Mi gymrodd naw diwrnod iddynt gwblhau'r daith, gan wersylla pob nos ond un, pan gafwyd cysgu dros nos mewn tafarn yng nghanolbarth Cymru, gan bod y tywydd yn wael iawn, a bod Arthur yn cael ei benblwydd yn 11 oed!

Yn ôl Emer, mam Arthur a Josie, chafwyd dim cwyno o gwbl gan y plant er iddynt godi am 6.00 pob bore, coginio uwd, pacio'r babell, beicio am wyth awr yna codi'r babell eto, coginio swper cyn cysgu.

Wedi cyrraedd Caerdydd, yr uchafbwyntiau oedd ymweld â'r Amgueddfa Genedlaethol a Stadiwm y Principality – ac ymweld â siop Lush i brynu bath bom haeddianol iawn i Josie!

Mae Giles ac Emer, Arthur a Josie yn gobeithio bod eu taith yn dangos be' sy'n bosibl ei gyflawni drwy ddefnyddio rhwydwaith beics cenedlaethol, cael gwyliau teuluol rhad, a phrofiad bythgofiadwy.

Llongyfarchiadau i chi i gyd, a gobeithio bydd eich stori yn ysbrydoli eraill. Os ydych am gael stori'r daith yn llawn, ewch i dudalen Facebook Elliott's Bike Wales.




**Genedigaethau**
Llongyfarchiadau mawr i Meurig a Llio, Cwrt Cae Glas ar enedigaeth eu plentyn cyntaf, sef Casi Llewelyn.

Llongyfarchiadau hefyd i Tomos ac Ela ar enedigaeth eu merch fach Beca Tomos, chwaer fach i Elis Tomos.

Mae Terry a Lorna Parry wedi dod yn daid a nain ddwy waith ymhen ychydig o wythnosau – pob hwyl i pawb ohonoch ar y magu.

Yn anffodus mae Beca wedi gorfod treulio amser yn yr ysbyty ac rydym yn anfon ein cofion cynhesaf atoch fel teulu, ac yn gobeithio bydd Beca yn gwella ac yn dod adref atoch yn fuan iawn.

**Cywiriad**
Nid yn Gwel y Mynydd mae Miri Sion yn byw wrth gwrs ond yn Tŷ Pen, Llys y Waun. Ymddiheuriadau am awgrymu dy fod wedi symud tŷ Miri!

**Brysiwch wella**
Cofion cynnes at Grace Dawson, Tref Eilian, sydd ddim wedi bod yn dda yn ddiweddar. Gobeithio byddwch yn teimlo'n well yn fuan – mae pawb yn Panad a Sgwrs yn gweld eich colli.

Mae John Gwynedd, Nant wedi cael damwain go hegar wedi disgyn oddi ar ysgol wrth beintio'r tŷ – anlwcus iawn John! Gobeithio byddi'n ôl ar dy draed yn fuan iawn.

Mae Meira Turner hefyd wedi bod yn sâl ac rydym yn anfon cofion cynnes atoch chithau Meira.

**Diolchiadau**
Dymuna deulu y diweddar Ann Thomas, Treforfan ddiolch yn fawr i bawb am y cardiau cydymdeimlo a'r arian roddwyd er cof am Ann. Bydd yr arian yn cael ei rannu rhwng syrjeri Waunfawr a Chymdeithas Parkinsons.

**Tafarn Snowdonia Parc**
Llongyfarchiadau i Carmen a holl staff y dafarn am ennill gwobr CAMRA Gwynedd a Môn 2023 am y Bragdy gorau. Nid dyma'r tro cyntaf i'r dafarn ennill y wobr yma, ac yn amlwg maent yn cael hwyl fawr ar y bragu. Da iawn chi.



ADVANCED AVW VEHICLE WORKSHOP
Arbenigwyr mewn ceir VW
Audi, Seast, Skoda a Porche
Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975
Which? Trusted trader
01286 673559
BOSCH Service
Parth 2, Stad Ddiwidiannol Cibyn, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk

CEIR CYMRU
Diolch am gefnogaeth
ein cwsmeriaid yn Eryri
dros 25 mlynedd
Gareth.w.jones@hotmail.co.uk
www.ceircymru.com
Bethel (B4366) Caernarfon Gwynedd LL55 1UN
01248-671770/670451

# Ysgol Brynrefail



**Prifysgol y Plant ac ymweliad Siân Gwenllian**
Ar fore Gwener, Hydref y 13eg daeth yr Aelod Cynulliad lleol i'r ysgol i ddysgu mwy gan ein disgyblion am brosiect Prifysgol y Plant. Eleni rydym yn treialu'r prosiect hwn gyda disgyblion un dosbarth cofrestru ym mlwyddyn 8 a'u hathrawon Beca Owen ac Elain Morris-Roberts. Pwrpas y prosiect yw rhoi cyfleoedd i ddisgyblion wneud sawl gweithgaredd allgyrsiol yn ystod y flwyddyn gan lenwi pasbort pwrpasol wrth wneud y gweithgareddau hyn i brofi eu hymdrechion. Os bydd y disgyblion yn cyflawni sawl gweithgaredd byddant yn graddio ar ddiwedd y flwyddyn i Brifysgol y Plant ac yn mynychu seremoni raddio arbennig ar eu cyfer.

Roedd Siân Gwenllian yn awyddus iawn i ddysgu am beth mae'r plant wedi bod yn gwneud fel rhan o'r prosiect hyd yma eleni mewn sesiwn holi ac ateb arbennig. Yn dilyn hynny, cafodd y disgyblion gyfle i'w holi hi am ei gwaith, gwleidyddiaeth yng Nghymru a phynciau pwysig iddyn nhw yn lleol ac yn genedlaethol. Roedd ganddynt ddigonedd o gwestiynau i'w holi iddi! Mwynhaodd pawb y cyfle i rannu gwybodaeth trwy'r sesiynau holi ac ateb a diolch i Siân Gwenllian am ddod i'r ysgol i gyfarfod y disgyblion.

**Prif ddisgyblion 2023-24**
Llongyfarchiadau i bum disgybl o flwyddyn 13 sydd wedi eu hethol yn brif ddisgyblion Ysgol Brynrefail eleni. Pleidleisiodd eu cyd-ddisgyblion yn y chweched dosbarth drostyn nhw yn dilyn sesiwn hysting lle cawsant gyfle i egluro eu syniadau nhw ar gyfer yr ysgol a sut fuasent yn cyflawni eu rolau fel prif ddisgyblion. Y pump o'r dde i'r chwith yn y llun yw:

Aron Jones, Anest Jones, Eli Williams, Buddug Jones, Celt Jones.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Cyngor Ysgol dan eu harweinyddiaeth yn ddiweddar a byddant yn cymryd rhan amlwg yng ngwaith yr ysgol dros y flwyddyn sydd i ddod.








**Bore Coffi Macmillan**
Ar Hydref y 6ed, bu disgyblion blwyddyn 11 Agored Cymru a disgyblion y chweched dosbarth yn brysur iawn yn codi arian at elusen Cefnogaeth Canser Macmillan. Bu criw blwyddyn 11 wrthi yn pobi ac yn addurno'r cynnyrch ben bore cyn gwerthu'r cwbl i ddisgyblion yr ysgol yn ystod amser egwyl. Yn y cyfamser bu criw'r chweched wrthi'n gwerthu cacennau a gweini paneidiau i staff yr ysgol yn y neuadd.

Gwelwyd ymdrech wych gan y disgyblion a swm parchus iawn o £300 yn mynd tuag at yr elusen. Da iawn nhw!



**Diwrnod Iechyd a Lles**
Cafwyd Diwrnod Iechyd a Lles llwyddiannus yn Ysgol Brynrefail ar ddydd Gwener, Medi'r 29ain eleni. Mae'r diwrnod yn gyfle pwysig i ddisgyblion gael profiadau gwahanol i'w chwe gwers arferol a chael amser i roi eu sylw ar un gweithgaredd sy'n bwysig i'w cynnydd, eu lles a'u datblygiad nhw.

Cafodd myfyrwyr Blwyddyn 13 amser i ganolbwyntio a gweithio ar eu hymchwiliadau unigol sy'n cyfri am 50% o'u gradd Bac. Mae llwyddo yn yr ymchwil yma'n allweddol bwysig iddynt gan ei fod yn gyfle i ddatblygu sgiliau gweithio'n annibynnol a datrys broblemau - sgiliau allweddol i allu llwyddo yn y byd go iawn. Gwirfoddolodd rhai ohonynt hefyd mewn gweithdy adolygu i ddisgyblion Blwyddyn 11 gan rannu eu syniadau nhw am y ffyrdd gorau o adolygu. Roedd y Gweithdy Adolygu yma'n bwysig iawn i ddisgyblion Blwyddyn 11 sydd gyda blwyddyn arholiadau terfynol anodd iawn o'u blaenau. Trefnwyd cyfle iddynt ddysgu mwy am sut i adolygu, am sut i fwyta'n iach ac am sut i fwynhau ac ymlacio drwy wneud gweithgareddau fel neidio ar gastell neidio, yoga, lliwio meddylgar a chreu 'loom bands'. Thema diwrnod Blwyddyn 10 oedd 'Gyrfaoedd' a threfnwyd diwrnod prysur a defnyddiol iddynt gan gyd-lynydd gyrfaoedd yr ysgol a chwmni Gyrfa Cymru. Roedd yn gyfle iddynt oedi gyda'u gwaith ysgol am ychydig a meddwl am beth maen nhw eisiau ei wneud yn y dyfodol. Mae





**Pencampwr Beicio Mynydd**
Ar ddiwedd Medi bu Osian Morris 10S yn llwyddiannus iawn mewn cystadleuaeth Beicio Mynydd. Enillodd y ras olaf yn y gyfres o’r *British Nationals Downhill Series* yn Antur ‘Stiniog. Llwyddodd hefyd i ddod yn drydydd yn gyfan gwbl dros y gyfres i gyd.

Mae Osian wedi cael blwyddyn gyntaf o rasio gwerth chweil gan ennill safle ar y podiwm mewn 12 ras allan o 13!!

Rydym yn falch iawn ohono, ei ymdrech a’i ddatblygiad mewn beicio mynydd.








digon o luniau i chi eu gweld ar gyfri Facebook yr ysgol.

Bu Blwyddyn 9 yn mwynhau diwrnod o weithgareddau STEM a Blwyddyn 8 yn brysur yn gwneud gweithgareddau fel gweithdy cerdd, gweithdy drama, cyfle i ddawnsio gyda chwmni Hudoliaeth ac actio yn Ffrangeg.

Gweithdy Byd-Eang oedd thema diwrnod disgyblion Blwyddyn 7 a chawsant ddiwrnod llawn hwyl dan arweiniad myfyrwyr Blwyddyn 12. Buon nhw’n ddysgu am bethau fel sut i gadw’n iach, sut i edrych ar ôl yr amgylchedd a pha mor bwysig ydy trin pawb yn gyfartal ac yn deg drwy wneud gweithgareddau bywiog a difyr a oedd wedi eu creu a’u trefnu gan fyfyrwyr Bl.12 fel rhan o’r gwaith Bac.



## BRYNREFAIL

**Babi newydd**
Llongyfarchiadau i Bethan a Dyfrig o Langefni ar enedigaeth eu mab, Ioan Ynyr Williams. Ŵyr i Carys a Dafydd, Meini Gleision a gor-ŵyr i Iona Williams, Llwydiarth, Waunfawr. Nai i Sioned a Catrin a chefnder bach i Greta a Nedw.



**Sefydliad y Merched**
I gloi gweithgareddau’r haf bu rhai aelodau o'r gangen yn brysur am nifer o wythnosau yn paratoi ar gyfer cystadleuaeth yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru. Thema Cystadleuaeth Cwpan y Rhosynnau eleni oedd "Popeth disglair a hardd." Bu gweithio dygn i greu darluniad o'r thema ac mae'r gangen i'w llongyfarch am eu hymdrech arbennig i ennill y bumed safle drwy Gymru gyfan.

Yn ystod mis Medi cafwyd taith hanesyddol trwy dref Caernarfon dan arweiniad Gareth Roberts. Gwerthfawrogwyd yn fawr yr hanesion diddorol dros ben ynghlwm â llawer o safleoedd arbennig yn y dref a hynny er ei bod wedi tywallt y glaw gydol y daith a phawb yn socian!

Noson flasu dan arweiniad y llywydd Pat Jones a gafwyd yng nghyfarfod mis Medi o'r gangen. Gwahoddwyd yr aelodau i flasu cynnyrch o dair archfarchnad i'w cymharu - siocled, bisgedi *digestive*, creision a sudd oren. Noson ddiddorol a buddiol dros ben.





# Chwilota

**Erthyglau hanes lleol, Bro Eco'r Wyddfa.**

chwilota.wordpress.com

## Y Gastell Gron a Murddyn Iago

Mae un o'r cofnodion ysgrifenedig cynharaf sydd gennym am ein hardal yn dyddio'n ôl i 1352, a'r hyn sy'n cael ei alw yn 'Record of Carnarvon'. Ynddo mae'n rhestru eiddo teuluol a elwir yn dir gwelyog, yn cofnodi eu perchnogion a'r rhent neu'r dreth yn ddyledus ganddynt i'r brenin. Mae'r tiroedd teuluol hyn yn perthyn i drefgorddau, sef unedau gweinyddol, bychan a oedd wedi eu lleoli o fewn plwyf eglwysig. O fewn trefgordd Y Rug yr oedd eglwys plwyf Llanrug. Ond rhwng Y Rug a Chastellmai (ardal Caeathro a Rhos Bach yn ddiweddarach) roedd trefgordd fechan arall, sef Llanfair Prysgol, oedd yn rhan ynysig o blwyf eglwysig Llanfair-is-gaer. Prin yw'r wybodaeth sydd gennym am y rhai oedd yn byw yno.

Yr oedd chwe gwely neu dir teuluol yn Llanfair Prysgol, a'r rheiny'n deillio o ddau benteulu: Lleision a Maredudd. Roedd tir Lleision wedi ei rannu rhwng ei dri mab – Iorwerth, Hywel a Llywelyn. Roedd tir Maredudd hefyd wedi ei rannu rhwng tri mab – Gronw, Gruffydd a Llywarch. Bu Llywarch ap Maredudd farw'n ddi-etifedd a throsglwyddwyd ei eiddo i'r brenin. Nid oedd Gronw a Gruffydd yn talu treth ar eu heiddo, a hynny drwy ganiatâd *"diweddar dywysog Cymru, Llywelyn ap Iorwerth."* Deuai holl drethi Llanfair Prysgol felly o eiddo meibion Lleision, sef 29 swllt y flwyddyn, llai na hanner y dreth a dalai tirfeddianwyr Y Rug. O'r tiroedd hyn y sefydlwyd rhai o ffermydd yr ardal, gan gynnwys Prysgol, y fwyaf a'r bwysicaf, a ddaeth i feddiant Williamsiaid gwreiddiol Y Faenol, a hynny erbyn yr unfed ganrif ar bymtheg. Ar ymylon eithaf fferm Prysgol yr oedd dau gae: Cae'r Garth a Chae Hoedyn, ac yn ddiweddarach y ffurfiwyd hwy'n ffermydd unigol.

Ar y tir a ddaeth yn fferm Cae Hoedyn y mae'r enwau Castell Gron a Murddyn Iago yn dod i'r amlwg gyntaf, a hynny'n agos iawn at Pant Ifan. Yma mae'n debyg roedd y terfyn gwreiddiol rhwng trefgorddau Llanfair Prysgol a'r Rug, oherwydd perthyn i drefgordd Y Rug yr oedd Pant Ifan, neu Pant Iddan fel y gelwir y fferm yn y cofnodion cynnar. Mae'n ymddangos nad oedd yn lle diogel iawn i fyw ynddo yn y cyfnodau cynnar hyn. Yng nghofnodion y Sesiwn Chwarter am 1551 cawn wybod fod Pant Iddan Vawr yn Rug ym meddiant rhywun o'r enw Rhys ap Harri, ac iddo gael ei erlyn allan o'r eiddo gan Morgan ap Ieuan ap David ap Gwilym a'i wraig Lowri ferch Moris, y ddau o Ddinorwig (nid y pentref presennol).



O neidio mewn amser, cawn fwy o wybodaeth yn yr Arolwg a wnaethpwyd o eiddo'r Faenol ym mlwyddyn y tair caib, sef 1777. Ac yn yr Arolwg hwnnw y deuwn ar draws un rhan o destun y golofn hon. Y mae Cae Hoedyn yn parhau i'w restru fel rhan o fferm Prysgol. *Y Gastell Gron* yw'r enw ar y cae crwn ei siâp ar godiad tir y tu cefn i dŷ Cae Hoedyn a gyferbyn a ffermdy Pant Ifan. Mae'r enw ei hun yn od. Gwrywaidd yw 'castell' (y castell hwn) a byddid yn disgwyl disgrifiad y safle a'r cae fel Y Castell Crwn. Drigain mlynedd yn ddiweddarach, ar Fap Degwm plwyf Llanrug, a Chae Hoedyn bellach yn fferm ar wahân i'r Prysgol, yr enw ar y cae yw *Castell grwn*. Yn ôl yr arolwg a wnaed o safleoedd hynafol a hanesyddol yn y 1950au mae *Castell Gron* a'i safle yn cael ei ddisgrifio fel *"early defensive enclosure near Pant Ifan, on a small knoll at 450 feet commanding a clear view over the surroundings except on the west. Enclosure is roughly circular, about 150 feet in diameter. It has been almost obliterated by cultivation and no old masonry is visible."* Mae Map O.S 1914 yn dangos fod newidiadau wedi digwydd o leiaf hanner can mlynedd ynghynt, ac y mae'r cae crwn a'r tri cae a'i hamgylchynai i gyd wedi diflannu nes ffurfio un cae mawr. Mae'n bosib fod yr enwau hefyd wedi diflannu.

Ble felly roedd Murddyn Iago? O amgylch y *"small knoll"* (sef Castell Gron) roedd tri o gaeau eraill. Yn Arolwg Y Faenol yn 1777, ni roddir enw ar un ohonynt, ond enwau'r lleill yw Cae Hoyden a Pencaehoyden. Ond Cae Hoyden hefyd yw'r enw ar y tir ble lleolir tŷ a gardd y fferm – a hynny led tri chae i ffwrdd o'r Castell Gron. Erbyn Map Degwm Llanrug, tua chwedeg mlynedd yn ddiweddarach, mae'r cae a elwir Cae Hoyden wedi ei enwi yn Cae Murddyn Iago. Mae cae Pencaehoyden wedi ei alw yn Cae Big, er mai hanner crwn yw ei siâp, ond un blaen pigog iddo.

O ble felly y daeth yr enw Murddyn Iago – nad oedd sôn am na murddun nac adfeilion nac am ei berchennog neu ei denant yn 1777? Tybed a oedd y tŷ gwreiddiol wedi ei leoli yng nghysgod y Gastell Gron; yr amddiffynfa gynnar, ond i dŷ mwy sylweddol gael ei adeiladu mewn safle mwy cysgodol yn ddiweddarach? Ac i gymhlethu pethau fwy-fwy, ar gyrion y tri chae a enwir uchod mae cae arall a elwir yn Gaerwen yn ôl rhai cofnodion ond Cae'rwaen mewn cofnod arall. Ai'r 'castell' oedd y gaer wen? Yntau enw cyffredin am weundir sydd yma, oherwydd dyna a fyddai yma mor bell yn ôl a 1777? Ond dyfalu yn unig yw hynny, a dim ond ffyliaid sy'n ceisio egluro enwau lleoedd.

Tybed a fyddai arolwg archeolegol yn rhoi rhywfaint o atebion i ni?




**Mae'r mapiau yn dangos siâp ac enwau'r caeau yn 1777, 1841 ac 1914. (Rhif 1 yw Castell Gron/Grwn)**

**Y Teulu Gregory**

Ddiwrnod wedi i mi anfon y golofn i'r golygyddion y mis diwethaf daeth mwy o wybodaeth am deulu Daniel Gregory a fu'n cadw'r New Inn yn Llanberis, ond a fu'n esgeulus o wneud gwaith atgyweirio ar Bont Gerniach a'i ddwyn o flaen y Llys. Fel yr adroddwyd y mis diwethaf, bu Mary, gweddw Daniel Gregory farw ym Mangor. Ond beth am weddill y teulu – na wyddwn i ddim amdanynt?

Daeth yr ateb gan Robert Williams o'r Waunfawr a oedd yn cofio'r enw 'Gregory' yn cael ei drafod ar yr aelwyd pan oedd yn blentyn. Dau ymwelydd a'r cartref fyddai Bob Saer (cefnder i dad Robert) a Gwyn Jones, Saron, ffrind arall. Dyma'r rhai fyddai'n trafod yr enw – *"efo Gregory dechreuodd o"* oedd un o'r dywediadau. Roedd Robert dan yr argraff mai adeiladwr lleol oedd y Gregory hwn, ac mewn chwilfrydedd aeth i chwilio am ei hanes rhyw dair blynedd yn ôl.

Yng Nghyfrifiad 1939 daeth ar draws yr enw Thomas H. Gregory yn adeiladwr a chontractwr yn byw yn Lôn Ddewi, Caernarfon. Roedd mab iddo, George, yn dilyn yr un alwedigaeth. Dyddiad geni Thomas Gregory oedd 21ain o Awst 1880. O chwilio Cyfrifiad 1881 a Thomas yn saith mis oed, darganfod mai enw ei dad oedd George Gregory – "master painter and plumber" – genedigol o Lanbeblig. Chwilio wedyn yng Nghyfrifiad 1861 a chael fod y George hwn yn fab i George Gregory arall –"painter and glazier" – y tro hwn yn enedigol o Lanberis! Ai hwn oedd mab Daniel a Mary Gregory a fedyddiwyd yn Eglwys y Plwyf yn 1806.

Felly, roedd un o ddisgynyddion Daniel, oedd yn esgeuluso ei waith ar Bont Gerniach yn gyfrifol am ofalu am eiddo cyhoeddus ganrif a hanner yn ddiweddarach!

Llawer o ddiolch am olrhain hanes un gangen o deulu Gregory ac am anfon yr holl ddogfennaeth i brofi'r cysylltiadau.

Os oes gennych unrhyw ymholiad neu unrhyw bwt o wybodaeth am gynnwys y golofn, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon LL55 4BA neu ffoniwch 01286 673515 neu e-bostiwch dafydd.wthomas@btinternet.com

# Dyddiadur y gath ddŵad/ Bobliadur - Rhan 19



Dyma hanes gath fawr goch, a ddaeth, dros ddwy flynedd yn ôl, i fyw ar lethrau Eryri. Doedd o ddim wedi dewis dod yno i fyw ond, doedd ei fywyd hyd hynny, ddim wir wedi bod yn beth fyddai unrhyw gath gall wedi ei ddewis.

Ydach chi wedi clywed y dywediad Saesneg 'scaredy-cat' ? Yn y Gymraeg, dywedwn fod rywun ofn ei gysgod ei hun, ond erbyn meddwl un o hoff gemau Bob ydy rhedeg ar ôl cysgodion! Un peth sy'n dychryn cathod fodd bynnag yw sŵn, yn enwedig sŵn swnllyd ac annisgwyl.

Os nad yw cathod wedi arfer efo peiriannau swnllyd pan maent yn gathod bach, gallent fod yn ofni'r peiriant golchi, sychwr gwallt ac yn achos Bob yr hŵfer! Dydyn nhw chwaith ddim yn hoffi sŵn argraffwr na sŵn y peiriant torri gwair. Gall taran fawr neu glecian tân gwyllt beri dychryn i blant a phobl mewn oed. Dychmygwch pa mor ddychrynllyd gall y rhain fod i gath, sy'n berchen synnwyr clyw hynod sensitif a dim syniad o beth yw storm na pham bod pethau swnllyd yn cael eu tanio ar Noson Guto Ffowc.

Felly gyda Noson Tân Gwyllt yn brysur agosáu, cadwch eich cath yn ddiogel yn y tŷ. Os ydy'r gath yn nerfus neu'n ofnus sicrhewch le iddi guddio, gall bocs cardfwrdd neu ddau fod yn ddefnyddiol os ydy am wneud hynny. Tynnwch y llenni, ac os ydach chi'n galon feddal fel fi, gwnewch yn siŵr bod sŵn y radio neu'r teledu yn boddi'r rhan fwyaf o'r synau y tu allan.

Dyma Bob felly yn parhau efo'i stori :

"Pethau rhyfedd ydy'r deu-droediaid yma. Maen nhw ofn y pethau rhyfeddaf. Mi fydd y ddeu-droed fach yn gweiddi bob tro mae hi'n dod ar draws y creaduriaid bach wyth-goes, yn enwedig os ydy o'n un go nobl. Dwi'n eitha' mwynhau mynd ar eu holau nhw, er mi synnach chi pa mor gyflym gallan nhw symud. Debyg bod cael dwywaith gymaint o goesau na fi rwbath i neud efo hynny. Dydyn nhw fawr o hwyl ar ôl cael eu dal chwaith ac mae'r coesau hirion yn sych ac yn dueddol o sticio'n fy ngwddw i. Mae yna lot o bethau i'w dal yr adeg yma o'r flwyddyn, y pethau bach pluog wrth gwrs ond hefyd mae yna ddail yn disgyn o'r coed a'r gwynt yn eu chwythu i bobman! Dwi'n gwbod mod i'n gath fawr aeddfed, ond dwi dal yn hoffi eu hela nhw. A wyddoch chi beth, mae'r ddeud-droed fach hefyd yn hoffi crensian ei ffordd drwy'r dail. Weithiau mae'n eu taflu i'r awyr i weld lle fyddan nhw'n glanio. Debyg bod ni'n dau yn wirion hen. Dydy'r deu-droed mawr ddim mor hoff o'r dail, mae o'n eu sugno i fyny efo rwbath debyg i'r peiriant yn y tŷ sydd yn llyncu llwch a fydd yn fy nychryn i gymaint nes byddai'n mynd i guddio tu ôl i'r soffa. Dwi'n gwbod na wneith o ddim fy sugno i mewn i grombil y peiriant, ond, mae yna dro cyntaf i bob dim…

Dydw i ddim ofn lot o bethau… Pethau swnllyd a deu-droediaid sy'n symud yn sydyn neu'n gweiddi! Un peth arall sy'n codi ofn arna'i ers pan dwi'n gath fach - pigwyr streipïog, (gwenyn meirch fydd y deud-droediaid yn eu galw nhw). Pan oeddwn i'n fach roeddwn i'n ymarfer hela popeth oedd yn hedfan, ond roedd mam wedi fy rhybuddio i beidio â chyffwrdd yn y pigwyr streipïog. Un diwrnod wnes i anghofio a dal un ar y llawr a'i wasgu… Awww!! Roedd fy mhawen fach i yn brifo, brifo mwy nag unrhyw beth arall. Wnaeth mam ei folchi i mi ac mi ddaeth yn well ymhen ychydig, ond mi ddysgais i adael llonydd i'r pigwyr streipïog o hynny ymlaen.



Cofiwch chi, mae pethau annisgwyl yn digwydd weithiau. Roeddwn i yn yr ardd ddoe, rhwng cawodydd, yn gweld beth oedd yn dal i dyfu a tsiecio os oedd yna lygod yn dal i guddio yn y waliau cerrig. Yna, heb fath o rybudd, disgynnodd pelen gron, wyrdd a phigog ar fy mhen i! Aw! Miii-aaaw! I wneud pethau'n waeth roedd y deu-droediaid allan hefyd ac mi oedd y ddau'n chwerthin! Wir yr! Chwerthin! A finnau wedi cael fy mrifo.

"Paid â phoeni Bob," meddai'r un leiaf, " dim ond concyr oedd o. Wneith o ddim byd i ti."

Digon hawdd iddi hi chwerthin a deud ffasiwn beth! Doedd 'y concyr' ddim wedi gwthio ei bigau poenus i mewn i'w phen hi nag oedd. Es i drwodd i'r tŷ, lle rhag i rwbath arall lanio ar fy mhen, i achub fy urddas a chael fy ngwynt ataf.

Pan wnes i ddeffro, roedd un ohonyn nhw wedi cynnau'r tân yn y bocs du sgwâr a chlywais sŵn sy'n fêl i glustiau unrhyw gath, sŵn fforc ar fy mhowlen fwyd. Amseru perffaith, mae cysgu bob tro'n gwneud i mi deimlo'n llwglyd. Efallai y cawn nhw faddeuant felly am chwerthin am fy mhen. Dwi'n cerdded yn hamddenol braf at fy mhowlen a chladdu fy ngheg yn y danteithion blasus. Amser gorau'r dydd, sef amser bwyd. Fyddai ddim yn hir yn gorffen y tameidiau cig a grefi ac wedyn mi fentra i allan, ond i ochr arall yr ardd, digon pell oddi wrth y goeden concyrs… Cofiwch dim ond naw bywyd sydd gan gath.

Mae rwbath yn crensian o dan fy nannedd. Asgwrn? Na! Gwaeth na hynny! Heb i mi sylwi roedd pigwr streipïog wedi glanio ar fy mwyd. Weles i mohono fo! Brensiach y cathod! Dwi erioed wedi teimlo ffasiwn boen. Roedd o'n brifo gymaint wnes i boeri'r bwyd allan a rhedeg i ffwrdd oddi wrth y bowlen rhag ofn iddo fy mhigo fi eto!

"Ti'n iawn Bob?" holodd y ddeu-droed fach, gan ofyn i'r llall, "Sbia, dydy o ddim wedi byta ei swpar! Be sy' tybad?"

" Edrach fatha'i fod o wedi bod yn sâl,"meddai'r ddeud-droed mawr, "Be sy' dŵad? Bob ti'n iawn?"

Welson nhw ddim mo'r pigwr streipïog yn fy mhowlen, ar ôl iddo fflio mewn i'r gegin. Allwn i ddim eu hateb nhw (a dydyn nhw ddim yn dallt iaith cathod beth bynnag) roedd fy ngheg i ar dân ac fel bod rhywun wedi sticio pinnau ynddo fo. Roliais fy hun i belen dynn a cheisio cael fy ngwynt. Bali peth! Dwi'n cofio pa mor boenus oedd pigiad ar fy mhawen pan oeddwn i'n gath fach a dwi dal yn cadw'n glir ohonyn nhw ar ôl hynny.

Ges i lot o sylw'r noson honno, er nad oedan nhw'n deall beth oedd wedi digwydd. Maen nhw'n meddwl mod i wedi cythru i fy mwyd yn rhy sydyn ac wedi tagu. Allwn i ddim hyd yn oed gael ambell i fisgedan o'r bowlen fach las, roedd fy ngheg yn brifo gormod i gnoi, er bod fy mol fel petai llewod yn rhuo ynddo isio bwyd.

Rhwng poen ar dop fy mhen gan y concyr a phigiad y peth streipïog dydy ddim wedi bod yn ddiwrnod rhy dda. Ond fel byddai mam yn deud, mi fydd hi'n well yn y bora, ond mi fyddai'n gwneud yn siŵr na fydd dim byd ond cig yn fy mhowlen bora fory. A thrwy bob dim, dwi'n hoffi byw efo'r deu-droediaid digri yma."

# Ysgol Penisarwaun

**Croeso**
Bellach mae'r disgyblion newydd sydd wedi cychwyn fis Medi wedi setlo i mewn yn dda i fywyd yr ysgol ac yn mwynhau eu hunain. Pleser yw eu croesawu yma.





**Mewn Cymeriad** – Thema'r Adran Iau y tymor hwn yw "Dewder, Dycnwch a Dyfalbarhad" ac fel rhan o'r thema honno rydym yn edrych ar hanes yr Ifaciwis yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Cafwyd cyflwyniad rhyngweithiol arbennig iawn gan gwmni 'Mewn Cymeriad' a oedd yn adrodd am galedi'r cyfnod drwy gyfrwng stori Glenys a oedd yn gweithio mewn siop yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Cafwyd cipolwg effeithiol iawn o fywyd yn ystod y cyfnod hwnnw.





**Gweithdai addysgol**
Yn ystod y mis a aeth heibio bu'r disgyblion yn mwynhau cymryd rhan mewn amrywiol weithdai ymarferol:



**Cyngor Ysgol**
Mae'r Cyngor Ysgol Newydd wedi ei sefydlu am y flwyddyn. Croeso i'r holl gynrychiolwyr sydd wedi eu hethol i fod ar y cyngor ac edrychwn ymlaen am flwyddyn gynhyrchiol a llwyddiannus.

**Technocamps** – Y tro yma bu'r Cyfnod Sylfaen yn adeiladu gyda Lego. Unwaith eto roedd pawb wedi mwynhau dysgu yn ystod y gweithdy addysgol hwn.

Gwaith codio cyfrifiadurol aeth â bryd yr Adran Iau, ac unwaith eto cafodd pawb hwyl yn datblygu eu sgiliau cyfrifiadurol ymhellach. Edrychwn ymlaen at ddatblygu'r gwaith ymhellach yn ystod y flwyddyn.

**XPlore** – Cafwyd sesiynnau llwyddiannus iawn gan Xplore lle bu disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cael gweithdai am y gofod. Cawsant fynd mewn i babell bwrpasol wedi ei chodi yn neuadd yr ysgol i astudio'r gofod! Roedd pawb wedi mwynhau'r profiad yn arw.

Bu disgyblion yr Adran Iau yn brysur yn codi pontydd ac yn dysgu am rymoedd.



**Arddangos Medalau Cyndeidiau**
Diolch i Elis am ddod a medalau ei hen daid i'r ysgol er mwyn i ni gael eu gweld. Maent wedi eu harddangos yn daclus mewn ffrâm. Roedd pawb yn gwerthfawrogi eu gweld.

**Sialens ddarllen yr Haf**
Llongyfarchiadau i'r chwiorydd Mali, Lili a Nel a dderbyniodd fedalau gan y Llyfrgell yn ddiweddar wedi iddynt fod yn rhan o'r Cynllun Darllen Cenedlaethol "Ar eich Marciau, Darllenwch!" a gynhaliwyd gan Lyfrgelloedd Gwynedd dros yr haf. Da iawn chi genod!





**Eglwys Santes Helen**
Diolch i aelodau'r Eglwys am eu croeso yn ddiweddar. Cafodd disgyblion y Cyfnod Sylfaen ymweld â'r Eglwys yn ddiweddar i arddangos eu gwaith ac addurno ardal ger un o'r ffenestri lliw ar gyfer y Cynhaeaf. Casglwyd eitemau ganddynt ar gyfer Y Banc Bwyd y mae'r Eglwys yn ei gefnogi. Diolch yn fawr i'r rhieni am eu holl gyfraniadau. Cafwyd nifer fawr o eitemau.

# Ysgol Bethel





**Sbardun i'r themâu Gofod**
Er mwyn cychwyn pob thema, mae'r disgyblion yn profi sbardun er mwyn ysbrydoli diddordeb a chodi cwestiynau. Defnyddiwyd *Xplore*, fel arbenigwyr yn y maes, a drwy ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf aethpwyd â disgyblion yr ysgol i'r gofod am awr. Bellach, mae disgyblion blwyddyn 3, 4 a 5 yn mwynhau datblygu amrywiaeth o sgiliau drwy'r themâu.

**Diwrnod iechyd meddwl**
Mae anelu i gael iechyd meddwl iach wastad yn flaenoriaeth gan yr ysgol ac felly ar ddiwrnod Iechyd Meddwl Cymru cynhaliwyd gweithgareddau oedd yn hybu byw bywyd iach.

**Gwerthu cynnyrch yr ardd**
Bu’r disgyblion dros y tymor diwethaf yn plannu a thyfu amryw o lysiau a ffrwythau yng ngardd yr ysgol. Penderfynodd disgyblion blwyddyn 5 eu bod eisiau gwneud shwtni a’i werthu i’r rhieni. Gydag ychydig o help gan y gymuned, coginiwyd shwtni organig hynod flasus a oedd wedi gwerthu allan yn syth.

**Ymweliad Huw Ynyr o Opera Cenedlaethol Cymru**
Bu Huw Ynyr o Opera Cenedlaethol Cymru yn cynnal gweithdai opera i bob grŵp oedran yn yr ysgol. Roedd y disgyblion wrth eu boddau yn dysgu mwy am yr arddull ac yn cael eu diddanu gan ddawn actio a chanu operatig Huw. Dipyn o brofiad.





# PENISARWAUN

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Alwyn a Delyth Penygaer ar enedigaeth gor-ŵyr. Ganwyd Henri Arthur yn fab bach i Ilan ac Elliw, brawd i Ifan a ŵyr annwyl i Rhian a Rhys. Dymuniadau gorau i bawb.

Llongyferchir Liz ac Eric ar ddathlu eu priodas aur yn ddiweddar, gan pawb yn y pentref.

**Eglwys Santes Helen**
Cynhaliwyd Gŵyl Caneuon Teulu ar ddydd Sul, 24ain Medi.

Cafwyd cyfraniad arbennig gan Gôr Meibion Dyffryn Peris a gefnogodd ganu pawb arall mor frwdfrydig hefyd. Dilynwyd yr achlysur gyda lluniaeth ysgafn.

Rydym yn ddiolchgar i bawb am gymryd rhan ac am wneud y noson mor llwyddiannus, er gwaethaf y tywydd garw. Mesur o lwyddiant y noson yw’r cais a ddaeth i law i gynnal noson fel hon eto’r flwyddyn nesaf. Felly, gwyliwch y gofod hwn.

**Cydymdeimlad**
Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ar 12fed o Fedi bu farw Elwyn Jones, 6 Llys y Gwynt (Llanberis gynt). Cymar caredig Gwen a brawd hoff Meirwn a’r diweddar Eurwyn, colled fawr i’w gymar, ei deulu a’i ffrindiau. Dymunir ddiolch am y cardiau cydymdeimlad, galwadau ffôn ac ymweliadau. Diolch am y rhoddion hael tuag at feddygfa Llanberis.

Ar y 5ed o Hydref, yn dawel yn Ysbyty Gwynedd yng nghwmni ei deulu cariadus bu farw Dave - David Paterson, 1 Bryn Tirion. Gŵr annwyl Ann, tad gofalgar Berwyn ac Andrea, tad yng nghyfraith Clare a Tudur, taid balch Enid, Tirion, Gruffudd, Esme a Llywelyn. Gyda diolch am y rhoddion, er cof, tuag at Ward Alaw a Chanolfan Dydd Alaw.

**Gwernhelen**
Ar ôl 26 mlynedd hapus ‘da ni yn symud o Benisarwaun mis yma, ac yn dymuno diolch i bawb yn y pentref am y croeso pan symudodd Anna a Tudur i hen dŷ’r ysgol yn 1997, ac am y sylfaen mae’r gymuned glos, llawn gweithgareddau, wedi ei roi i Magi a Moi. Rydym yn gobeithio bydd y teulu bach newydd sydd yn symud i’n cartref mor hapus ag ydan ni wedi bod, ac yn siŵr y bydda nhw yn cael yr un croeso gennych chi.

**Pwyllgor Neuadd Cymuned**
Tynnwyd Clwb Cant Hydref, a’r enillwyr yw:

1af Myfanwy Parry, Tawelfa
2ail Myfi Hughes, Winllan

Atgoffir ein haelodau ffyddlon ei bod hi’n amser adnewyddu’r Aelodaeth o £12 o Fedi i Fedi. Croesewir aelodau newydd er budd y gost o redeg y Neuadd Gymuned.

**Marathon Eryri**
Cynhelir marathon Eryri ar ddydd Sadwrn 28ain Hydref ym Mhen y Pas, a byddwn yn wirioneddol falch o wirfoddolwyr ifanc i helpu’r ffyddloniaid hŷn am ryw dair awr o 9AM tan 12PM. Mae’r weithgaredd hon yn hwb aruthrol i’r gost o redeg y Neuadd Gymuned.

Ein gweithgaredd nesaf fydd pnawn i ddathlu’r Nadolig, ar y cyd â phlant yr ysgol, ym mis Rhagfyr.

Anfonir ein cofion anwylaf at Myfanwy, Dilys, Tegid, Leslie a Wil a phawb yn y pentref.




**Dathlu'r Diolchgarwch**
A chynnyrch pob tymor a gwlad bron i'w gael yn Tesco bellach rownd y rîl, cwtogwyd ar ddathliadau traddodiadol yr Ŵyl yn ein haddoldai ers sawl blwyddyn bellach. Ond, braf cofnodi fod cyswllt o hyd i'w gael. Cynhaliwyd gwasanaeth diolchgarwch yn Eglwys Llanddeiniolen ar Sul cyntaf yr Hydref. Yn y Cysegr, arweiniwyd ein diolch ar yr ail Sul gan blant yr Ysgol Sul. Diolch iddynt, a'u hathrawon, am eu cyfraniad. Braf cofnodi fod y rhif yn cynyddu, ac atgoffa fod gwahoddiad i unrhyw blentyn ymuno am 10.00AM ar fore Sul. Roedd y syniad o gyd-dynnu, cydweithio a chyd-ddibyniaeth yn ein cylch 'diolch' yn treiddio trwy'r oedfa. Yn wir cawsom sawl enghraifft o hyn yn ein bro yn ddiweddar.

Yr achos oedd yn elwa o'r oedfa oedd Banc Bwyd Arfon. Cafwyd sawl cyfraniad, ac hefyd yn atodol gyfraniad ariannol o gasgliad rhydd.

**Oedfaon Tachwedd**
Bethel: 19/11 – Parch. R.E. Hughes; 26/11 – Richard Morris Jones.
Cysegr: 5/11 – Parch. Cledwyn Williams; 12/11 – Parch. R.O. Jones; 19/11 – Gweinidog; 26/11 – Arwel Williams.
Saron: 5,12,19 /11 – Trefniant 26/11 – Dr.Ian Morris.

**Cydymdeimlad**
Yn fuan wedi colli ei annwyl wraig Muriel, trist cofnodi marwolaeth Robert (Bob) Jones, 35 Bro Rhos gynt. Yn y cyfnod diweddar yma roedd dan ofal Cartref Cerrig yr Afon. Gŵr hwyliog oedd Bob, parod ei sgwrs a'i gymwynas. Ers ei ddyddiau gwaith cynnar roedd ganddo nifer ffyddlon o ffrindiau. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Sheila, Gwenno, Emlyn a'u teuluoedd.

Yng ngholli Bob, gwireddwyd un o hen goelion yr oes a fu. Ganwyd merch fach, Lily Del, i Dewi a'i bartner Jess draw ar Lannau Merswy. Croeso i'r byd Lily, a llongyfarchiadau i 'taid a nain' Alun a Sheila.

Dymuna'r teulu ddiolch i bawb o bell ac agos, yn deulu a ffrindiau am y llu o eiriau a chymwynas yn eu colled.

**Penblwydd 'arbennig'**
Ie, dyna gyrhaeddodd Rita Williams, Elan, Stâd Tan-y-Cae ganol y mis. Mae teulu Bethel a theulu Dolwyddelan, fel ninnau, wedi gwerthfawrogi cyfraniad Rita i sawl agwedd o fywyd y pentref. Diolch, a phenblwydd hapus 'Anti Rita'.

Dau ddiwrnod yn gynharach roedd Gwynfor Morris, Treflys yn cyrraedd yr un garreg filltir. Wrth ei longyfarch yntau, gyrrwn ein dymuniadau gorau iddo am wellhad buan gan ei fod wedi treulio'r cyfnod o gwmpas ei benblwydd yn Ysbyty Gwynedd.

**Dymuniadau Gorau**
Dymunwn wellhad buan i Valmai Owen, sydd wedi dychwelyd gartref wedi llawdriniaeth ddiweddar.

**Llongyfarchiadau**
Fel mae Aled Hughes yn ddweud ar ei raglen radio foreuol, braf ydy croesawu 'par o draed bach Cymreig arall i'r hen fyd 'ma.' Braf felly croesawu mab bach i Sion Garth a'i wraig Rachel. Yn naturiol felly, llongyfarchiau i 'nain a taid' Anita ac Emyr, Dryslwyn. Croeso i'r byd Caio Garth.

Yr un dymuniad i Beti, merch fach Aled Hefin a Casi draw yn y Felinheli. Goets bach arall i nain Jen, Stad y Ddôl fynd a'r wyres fach am dro.

**Ambell Syniad**
Ydych chi wedi dechrau paratoi eich rhestr anrhegion Nadolig eto? Mae arwyddion wedi ymddangos mewn sawl siop bellach. Roedd un cyfrannydd ar y radio yn ddiweddar wrthi'n trafod effaith y 'costau byw' ar ei threfniadau anrhegion Nadolig hi eleni. Torri lawr ar y gwario oedd ei phenderfyniad, ond eto gwneud yn siwr ei bod yn dal i roddi anrhegion. Y dymuniad tu ôl i'r rhoddi yw'r gwir anrheg yn aml. Bydd llawer yn falch o dderbyn cerdyn neu alwad ffôn. Yr hyn a ysgogodd y pwtyn yma oedd ymweliad â Chaffi'r Bedol yn ddiweddar. Tynnwyd fy sylw at y sillffoedd oedd yn cynnwys eitemau wedi eu creu gan unigolion lleol o'r pentref. Brethyn cartref go iawn. Dyma'r mentergarwch sydd angen ei ddatblygu yn arw yn y Gymru gyfoes. Troi 'Menter a Busnes' yn fwy na slogan. Ymysg y danteithion roedd cardiau, blodau ar ffurf torchau a dewis da o emwaith. Galwch draw i'w gweld, ac efallai cael cyfle i gefnogi menter unigolion lleol.





**Cysgodfa**
Erbyn hyn mae'r gysgodfan bws wedi ei gosod yn yr arhosfan ar waelod y pentref. Hwn fydd y trydydd cysgodfan i'w osod ar y safle. Diolch i'r Cyngor Cymuned am ei ariannu – ac mae yn uned gostus. Fel y dywedir bob tro, gobeithio caiff ei barchu a'i adael i wneud ei briod waith.

**Cynefino**
A ydych wedi cynefino a'r cwtogi gyrru i 20 m.y.a. erbyn hyn? Rwy'n gofyn gyda chymaint o allanfeydd / mewnfeydd sydd i'r brif ffordd led led y pentref, a ddylsid fod wedi cwtogi y cyflymdra i 20 m.y.a. ar hyd y brif ffordd drwy'r pentref ac nid ym mharth yr ysgol yn unig? Un elfen fydd yn siwr o blesio – os cedwir at y canllawiau – yw fod y ffordd o'r lôn fawr draw am y neuadd, a'r ffordd heibio capel Bethel i Dre Gôf bellach yn 20 m.y.a. swyddogol.

**Clwb Bowlio Dan – Do**
Derbyniwyd yr wybodaeth ganlynol ar ran y Pwyllgor:

'Yn anffodus ni ellir derbyn aelodau newydd ar hyn o bryd gan fod y rhestr aelodaeth yn llawn. Fodd bynnag, os oes gan unrhyw un ddiddordeb cael eu cynnwys ar restr wrth gefn mae croeso iddynt wneud cais i'r ysgrifennydd Idris Rees.'

**Merched y Wawr**
Oherwydd y dyddiad casglu cynnar ar gyfer y rhifyn diwethaf, fe gyflwynir adroddiadau o ddau gyfarfod cyntaf y tymor newydd yn y rhifyn yma.

*Cyfarfod Agoriadol*
Ein gwesteion oedd y grwp cerddorol Y Brodyr Magee o ardal Caergybi. Dyma 5 brawd hynod dalentog. Paul, Sean a Daniel ddaeth i'n diddanu gan fod James a Mathew i ffwrdd ar y noson. Llywiwyd y noson yn hamddenol braf gan Paul, sy'n athro yn Ysgol Bodedern. Rhwng y caneuon cawsom tipyn o hanes y teulu. Mae'r ddau frawd arall yn ddisgyblion ym Modedern, a'u lleisiau a'u cyfeiliant ar y bocs a'r gitâr fâs wedi creu noson i'w chofio. Roedd y caneuon yn gymysgedd o'u creadigaeth hwy ac hefyd rhai o ganeuon Meic Stevens, Alun 'Sbardyn' Hughes a Dewi Pws. Cawsom ychydig o'u cefndir gan Jen wrth eu cyflwyno.

Maent wedi perfformio mewn sawl gig, ar y radio a theledu ac wedi recordio sawl cân. Cyrhaeddasant y 4 olaf yng nghystadleuaeth Brwydr y Bandiau Gwerin yr Eisteddfod Genedlaethol a BBC Radio Cymru 2023. Mae gobaith rhyddhau albwm yn y

dyfodol agos. Yn Nhachwedd byddent yn teithio i'r Iwerddon gyda'r grŵp Pedair. Maent eisoes wedi perfformio yng Nghymru, Yr Alban, Iwerddon, Lloegr a Chanada. Braf felly eu cael ym Methel.

Croesawyd ni – gan gynnwys aelodau newydd – gan Jen ein Llywydd. Fel arfer caed tipyn o newyddion pentref. Llongyfarch Nora ac Eryl ar gyrraedd penblwyddi 'arbennig'. Croesawu Mary Evans yn ôl wedi cyfnod yn yr ysbyty, a diolch am fenthyg y llestri ar gyfer y baned. Daeth Jen yn nain ddwywaith yn ystod yr haf: mab Hamish Llewelyn i Ceri a Sam, a merch fach i Aled a Casi. Gwelwyd Owain Sion, mab Mair Williams ar Newyddion S4C yn trafod cost meddyginiaethau, yn ei rôl fel Prif Fferyllydd Bwrdd Iechyd Hywel Dda.

Bu nifer o aelodau yn brysur draw yn Moduan. Anne a Gwyneth yn ein cynrychioli yn y Cyflwyniad ar y thema Llwybrau, Eryl mewn côr ar bnawn Mercher, Gwenan a Meira mewn côr gwerin, a Gwenan hefyd yn aelod yng Nghôr y Gymanfa. Ar y dydd Sul roedd Anne, Gwyneth a Mair Price yn dosbarthu'r paneidiau ym mhabell MYW, tra fod Gwenan, Meira, Mair Price, Rhian a Jen ar ddyletswydd ddydd Mawrth. Un o'r 'cwsmeriaid' oedd neb llai na Maggi Noggi! Llongyfarchiadau i Llinos, merch Lynwen ar gael ei derbyn i'r Orsedd. Mae Carwyn ei brawd yn aelod o Bwyllgor Llefaru Canolog yr Eisteddfod. Roedd yn y stiwdio deledu gyda Nia Roberts yn rhoi ei farn ar gystadleuaeth llefaru Llwyd o'r Bryn. Roedd Huw, mab Alys, yn un o'r beirniaid cerdd, ac fe ennillodd Gwen Jâms gystadleuaeth ysgrifennu tair cerdd ar gyfer plant.

Diolch i Meira, Mair Read a Rhian am y gwaith graenus ar greu dau banel o faint penodol ar y thema Llwybrau ar gyfer arddanghosfa MYW Llŷn ac Arfon ym mhabell MYW. Byddent yn cael eu fframio a gobeithio eu harddangos yng Nghaffi'r Bedol.

Diolch i'r Pwyllgor am drefnu paned a gwledd o gacennau ar ein cyfer. Roedd y Brodyr yn hynod falch o'r croeso danteithiol. Enillwyd y raffl gan Bet, Deilwen ac Eirlys Sharpe.

*Yr Ail Gyfarfod*

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan ein llywydd Jennifer Roberts a braf oedd gweld cynifer wedi mynychu'r noson.

Yn ystod y mis diwetha bu sawl achos i longyfarch tair o'n haelodau ar ddod yn neiniau unwaith eto. Cafodd Anita ŵyr bach – Caio Garth, mab i Sion a Rachel. Cafodd Jen wyres fach – Beti, merch i Aled a Casi, a Wendy ŵyr bach - mab i Nora ac Alec.

Dymunwyd wellhad buan i Falmai sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Hysbyswyd yr aelodau o ddigwyddiadau y tymor i ddod:

Cystadleuaeth creu cerdyn Nadolig mewn unrhyw gyfrwng ar gyfer Nadolig 2024.

Cystadleuaeth cerdd neu farddoniaeth wreiddiol i'w rhoi yn y cerdyn.

Cardiau a'r cerddi i gyrraedd y Ganolfan Genedlaethol erbyn 10fed Rhagfyr.

Yn ystod y mis yma mynychodd rhai o'n swyddogion gyfarfod Rhanbarth Arfon.

Rydym fel cangen yn llongyfarch Anne Elis fel Llywydd Rhanbarth Arfon am gyfnod o ddwy flynedd. Wrth drosglwyddo'r awenau dywedodd y cyn Lywydd Glenda Jones fod y Rhanbarth mewn dwylo da. Yn dilyn ymddiswyddiad Janet Roberts fel ysgrifennydd y Rhanbarth, cytunodd Jennifer Roberts ymgymryd â'r swydd drwy gyfnod Anne fel Llywydd.

Ein Llywydd Cenedlaethol





## CLWB BRO BETHEL

Dydd Mawrth cyntaf y mis gwahoddwyd pawb – gan gynnwys un aelod newydd - i'r cyfarfod yn Festri'r Cysegr gan Mary Wyn Jones ein Llywydd. Llongyfarchwyd Richard Lloyd Jones ar ennill cadair Eisteddfod y Tymbl.

Roedd ein siaradwr gwadd, Mair Price, Caernarfon, yn wyneb cyfarwydd i'r mwyafrif o'r aelodau. Bu Mair yn byw yn y pentref am 30 mlynedd ond ers symud i Gaernarfon mae'n dal i gefnogi mudiadau'r pentref.

Testun ei sgwrs oedd Darllen Dotiau, sef y system o ddarllen ac ysgrifennu dotiau uchel ar femrwn ar gyfer y deillion – sef y system Braille.

Mae hanes Braille yn mynd yn ôl i'r 1800au cynnar. Dyfeisiodd dyn o'r enw Charles Barbier, milwr ym myddin Ffrainc, system o 'ysgrifennu nos' fel y gallai'r milwyr gyfathrebu'n ddiogel yn ystod y nos. Cyn hyn defnyddiwyd lampau i ddarllen ar ôl iddi dywyllu, ond roedd y gelyn yn gallu gweld y golau ac o ganlyniad collwyd llawer o ddynion.

Ganwyd Louis Braille ym mhentref Coupvray, Ffrainc yn 1809 yr hynaf o 7 o blant. Gweithiwr lledr oedd tad Louis a defnyddiai fynawyd i dorri tyllau yn y lledr. Collodd Louis ei olwg pan drawodd ei hun yn ddamweiniol gyda'r mynawyd.

Roedd y Coleg y Deillion cyntaf wedi ei sefydlu 10 milltir o gartref Louis a bu yno'n ddisgybl. Yn 15 oed, addasodd Louis system 'ysgrifennu nos' Charles Barbier mewn ymdrech i greu system gyfathrebu ysgrifenedig effeithlon ar gyfer y deillion.

Magwyd Mair ar fferm Ty'n y Braich, Dinas Mawddwy. Yr oedd tri o frodyr ei thad yn ddall – Gruffudd aeth ymlaen i fod yn ficer, William



cyfieithydd mewn Braille, a Lewis oedd yn gweithio ym maes technoleg gwybodaeth.

Roedd William yn gweithio o gartref yn paratoi llyfrau Braille. Cawsom weld y peiriant ddefnyddiodd i baratoi'r gwaith, a chawsom gyfle i weithio allan rifau tudalennau wedi eu hysgrifennu mewn Braille.

Gorffenwyd y sgwrs drwy wylio rhan o ffilm o raglen wnaethpwyd gan y BBC yn dangos y tri brawd wrth eu gwaith dyddiol.

Diolchwyd i Mair am sgwrs hynod o ddifyr gan Anne Elis. Nia Griffith a Liz Watkin oedd yn gyfrifol am y baned.

bellach yw Geunor Roberts, a'r elusen mae hi wedi ddewis i'w gefnogi yw Ambiwlans Awyr Cymru. Rydym yn cael ein hannog i gasglu sgarffiau a chadwyni ar gyfer eu gwerthu yn nigwyddiadau rhanbarthol a chenedlaethol MYW. Gofynnwyd i ni gasglu rhai erbyn y Ffair Aeaf, 27/28ain Tachwedd ac i barhau i'w casglu drwy gydol y flwyddyn.

Cracyr Dolig – Bydd pob rhanbarth yn gwneud eitem ar Zoom ar nos Fawrth 19eg Rhagfyr. Mae Rhanbarth Arfon wedi gofyn i Cecile Roberts o Fethel sgwrsio am draddodiadau Nadoligaidd gwlad Ffrainc, felly gobeithio y bydd amryw ohonom yn gallu bod ar Zoom i wrando arni.

Cwis Hwyl – Cynhelir y Cwis Hwyl ar Nos Wener, 10fed Tachwedd yma yn Neuadd Bethel. Dosbarthwyd ffurflen i'r aelodau rhoi eu henwau i lawr i greu tîm. Bydd 4 ym mhob tîm a gall bob cangen gael mwy nag un tîm. Bydd y Gangen yn talu am bawb fydd yn cymryd rhan (£1).
Mae'r Pwyllgor wedi gwirfoddoli i wneud paned a theisennau ar y noson. Y gost fydd £5 am luniaeth a raffl a bydd Cangen Bethel yn cadw yr arian yma.

Mae'r gangen yn cynnal gweithgaredd i godi arian ac mae dyddiadur wedi cael ei anfon o gwmpas. Gellir prynu dyddiad am £1 a gofynnir i'r aelodau werthu 10 dyddiad i'w ffrindiau a'u teuluoedd os yn bosib. Y gwobr yw taleb £25 M&S.

Cinio Nadolig – dosbarthwyd ffurflen i bawb ddewis bwydlen ar gyfer y cinio Nadolig a gynhelir eleni yn Bistro'r Felin. Gofynnwyd i bawb ddychwelyd eu ffurflenni a'r arian parod erbyn Tachwedd yr 8fed.

Pleser mawr oedd estyn croeso i Twm Elias i'n plith. Mae'n llais ac yn wyneb cyfarwydd ar y cyfryngau Cymraeg. Mae'n naturiaethwr, darlithydd ac awdur nifer o lyfrau byd natur. Mae'n arbenigwr ar hanes amaethyddiaeth, llên gwerin ac arwyddion tywydd. Mae hefyd yn gyfrannwr rheoliaidd i raglen 'Galwad Cynnar' ar foreuau Sadwrn ar Radio Cymru.

Testun ei sgwrs mis yma oedd 'O'r Swyn i'r Stethosgop'. Roedd yn sgwrs hynod o ddifyr yn sôn am gredoau cyntefig am iechyd ac afiechydon. Bu'n sôn am lysiau a phlanhigion llesol a welwn o'n cwmpas bob dydd a'u defnydd hyd y dydd heddiw. Cafwyd hanes nifer o feddygon cynnar a'u triniaethau gan gynnwys Meddygon Myddfai a'u tebyg a sut y datblygwyd meddygaeth a thriniaethau i lawr y canrifoedd. Rhaid dweud ein bod wedi ein cyfareddu gyda'i gyflwyniad yn ei ffordd ddihafal ei hun a'r cynnwys diddorol dros ben!

*Dyddiadau i'w Nodi*
Gobeithiaf restru y gwahanol weithgareddau Nadoligaidd yn yr ardal yn y rhifyn nesaf, felly gadewch i mi wybod mewn da bryd er mwyn eu cynnwys. Dyma gyfeirio at ambell ddigwyddiad ddiwedd Hydref/Tachwedd.

Mae wythnos Calan Gaeaf ( 27/10 i 1/11 ) yn cyd-redeg â gwyliau hanner-tymor yr ysgolion. Ar gyfer yr wythnos mae criw Caffi'r Bedol am gynnal sawl gweithgaredd yn y caffi wedi ei anelu at y plant. Yn ogystal â'r gweithgareddau, gemau a chystadlaethau ceir Helfa Bwmpen. Mwy o fanylion o'r Caffi.

Ar ddydd Sadwrn 28ain Hydref bydd Gweithdy Creu Torchen Hydref rhwng 3.00PM – 5.00PM yn y caffi. Codir pris o £30 sy'n cynnwys y dysgu a'r cynhwysion.

Ar y cyd rhwng Ysgol Bethel a Chaffi'r Bedol mae'r noson boblogaidd BINGO BONCYRS BUSTACH yn ei hôl. Y dyddiad yw nos Wener, 24ain Tachwedd yn Neuadd yr Ysgol Gynradd am 7.30PM. Cost y tocyn yw £15. Bydd bar a lluniaeth ysgafn ar gael ar y noson.

**Eisteddfod Bethel**
Cafwyd eisteddfod lwyddianus eto eleni, gyda chynulleidfa niferus yn sesiynau y p'nawn a'r nos. Y beirniaid - oedd yn canmol y safon - oedd Karen Owen (Llenyddiaeth a Llefaru), Tudur Eames (Cerddoriaeth) a Rhys Lloyd Jones (Celf ac Arlunio). Yn y lluniau gwelir y buddugol yn y cystadlaethau llenyddol i oedran cynradd (Harri Allen, Bl. 6, Ysgol Bethel), Uwchradd (Lydia Thomas (Bl.11, Ysgol Brynrefail), a Llenor Bl.7-9 Efa Roberts. Gobeithir cael adroddiad llawn gyda chanlyniadau, a'r prif weithiau llenyddol ac ambell lun yn rhifyn mis nesaf o'r Eco. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bob un a gyfranodd mewn unrhyw ffordd i lwyddiant yr Eisteddfod.





**TREFNIADAU RHIFYN RHAGFYR**
Bydd angen i'r cyfraniadau ar gyfer y rhifyn ddaw allan ym mis Rhagfyr fod i mewn erbyn **10fed TACHWEDD.** Yn amlwg, os ydych am dynnu sylw at ddigwyddiadau, neu rannu cyfarchion ar gyfer y Nadolig danfonwch ata'i cyn gynted â phosibl.



FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth
FFRAMIO LLUNIAU
www.fframia.com



BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol -
Ffoniwch (01248) 361044
D. P. OWENS RHIWLAS


Tyddyn Teg
Bwyd - Tir - Pobl
LLYSIAU LLEOL FFRES
Ymunwch â'n cynllun llysiau!
Dewch i'n siop!
- Rydym bob amser gyda llysiau blasus a ffres o'n caeau a'n twneli polythen.
- Rydym wedi ein lleoli ym Methel ar y ffordd tuag at Llanrug.

Cyslltwch â ni: **07599 813777**
info@tyddynteg.com
Neu ewch i'n gwefan: **www.tyddynteg.com**

# LLANBERIS

**Cais am Newyddion**
Os oes unrhyw unigolyn neu gymdeithas yn dymuno cyflwyno eitem o newyddion, llun, neu erthygl i'r Eco, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â mi drwy ffôn, e-bost neu alwad personol, gyda'r cyfeiriadau sydd o dan Newyddion Llanberis ar dudalen 2 yr Eco. Diolch yn fawr. Mae nifer o glybiau crefft a grwpiau gwirfoddoli yn y pentref, yn eu mysg mae'r canlynol:

**Grŵp Crosio a Gwau Llanberis**
Rydym yn cwrdd yn y Ganolfan Gymunedol bob nos Lun o 6.00PM tan 7.30PM. Cost £1. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol!

**Clwb Gwnïo** -yn y Ganolfan ar brynhawn dydd Iau, 2.00PM - 4.00PM. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol!

**Pentref Taclus Llanberis**
Mae'r grŵp yn hel sbwriel pob bore Sul trwy'r haf, hyd at ddiwedd Hydref, ac wedyn yn fisol trwy'r gaeaf. Mae'r grŵp yn cychwyn am 10.00AM o Siop Menter Fachwen ar y Stryd Fawr, ac yn gorffen yno am 12.00PM. Croeso cynnes i bawb ymuno â ni ac mae pob offer ar gael i hel y sbwriel! Gweler y trefniadau pob dydd Sadwrn ar dudalen y grŵp ar Facebook.

**Gair o Ddiolch**
Dymuna Eurwyn, Einir a Rhian ddiolch yn fawr iawn am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli Eiddwen, gwraig, mam a nain gariadus arbennig iawn.

Diolch o galon am y rhoddion hael, er cof am Eiddwen, i Awyr Las a Chŵn Tywys Gwynedd.

**Capel Coch**
Oedfaon Tachwedd, Rhagfyr ac Ionawr:
5ed Tachwedd, 2.00PM, Edward Morris Jones
12fed Tachwedd, 2.00PM, Parchg. Trefor Lewis
19eg Tachwedd, 10.00AM, Canon Idris Thomas
26ain Tachwedd, 5.00PM, Parchg. Euron Hughes

3ydd Rhagfyr, 2.00PM, Parchg. Dafydd Coetmor Williams
10fed Rhagfyr, 10.00AM, Gwasanaeth Naw Llith a Charol
17eg Rhagfyr, 10.30AM, Oedfa Deulu – Nadolig
24ain Rhagfyr, 10.00AM, Oedfa, ac yna Paned a Sgwrs
31ain Rhagfyr, 10.00AM, Oedfa

7fed Ionawr, 10.00AM, Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn
14eg Ionawr, 2.00PM, Parchg. Ddr. Elwyn Richards
21ain Ionawr, 10.00AM, Oedfa
28ain Ionawr, 10.00AM, Parchg. Dafydd Coetmor Williams

**Eglwys Sant Padarn**
Mae arddangosfa o waith Isaac Hughes, ffotograffydd cynnar Llanberis a oedd yn tynnu portreadau o bentrefwyr a chwarelwyr y cyfnod, i'w weld yn yr Eglwys rhwng 10:30 a 2.00 o'r gloch o ddydd Llun i ddydd Gwener.

**Eglwys Sant Padarn**
Gwasanaethau mis Tachwedd:
5ed Tachwedd, 11.00AM - Cymun Bendigaid
12fed Tachwedd, 10.00AM - Gwasanaeth Sul y Cofio cyn symud ymlaen i'r Gofgolofn am y Gwasanaeth Coffa a gosod y torchau
19eg Tachwedd, 11.00AM - Cymun Bendigaid
26ain Tachwedd, 8.00AM - Cymun Bendigaid; 11.00AM - Gwasanaeth Teulu

Enillwyr Clwb 100 mis Medi :-
1) Elin Mai Jones 2) Owain Rees Jones
3) Ann Roberts

**Eglwys St. Peris, Nant Peris**
Gwasanaethau mis Tachwedd:
5ed Tachwedd, 9.30AM - Boreol Weddi
12fed Tachwedd, 10.00AM - Gwasanaeth Sul y Cofio yn Eglwys St Padarn, Llanberis;
4.00PM - Gwasanaeth Teulu
19eg Tachwedd, 9.30AM - Boreol Weddi
26ain Tachwedd, 9.30AM - Cymun Bendigaid
Hefyd cynhelir unai gwasanaeth Cymun Bendigaid neu'r Foreol Weddi bob bore Mawrth am 11.00AM.





SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru
Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando
Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos
0808 164 0123
Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

DODREFN A LLORIAU
PERKINS
●●● 01286 673535 ●●●
www.perkinsfurniture.co.uk
16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AG




# LLANRUG



Yr aelodau yn edrych yn grand iawn

**Merched y Wawr**

*Cyfarfod mis Medi*

Estynnwyd croeso cynnes ar y 12fed Medi i nifer dda iawn o aelodau i gyfarfod cyntaf y tymor, gan ein Llywydd Bethanne. Cychwynnwyd y noson gyda Chân y Mudiad, gyda Megan yn cyfeilio. Cafwyd munud o dawelwch i ddangos ein cydymdeimlad dyfnaf o golli Menna, un o hoelion wyth y pentref, gyda'i llu o ddiddordebau, a fu'n llywydd sawl tro i'n cangen. Bu'n wirfoddolwr gwerthfawr i Glwb Cinio Hafan Elan, yn gofrestrydd proffesiynol efo'r Cyngor Sir ac yn aelod amhrisiadwy o Gôr Clychau'r Grug, gyda'i llais unigryw. Byddwn yn diolch am gael ei hadnabod a chael trysori ei henw am byth. Ein cofion at y teulu yn eu hiraeth am fam, nain a hen nain arbennig iawn.

Llongyferchir Julie ar ddod yn nain i Enfys Grug, a Haf ar ddod yn nain i Twm o Gaerdydd.

Llongyferchir Idwal a Bethanne ar eu Priodas Aur a llongyfarchiadau i Idwal, eto eleni, ar ennill ym Moduan ar gyfansoddi Dawns Werin.

Llongyfarchiadau hefyd i Ann Thomas ar gyrraedd oedran arbennig.

Braf cael llongyfarch aelod o'r gangen, Anwen, ar ennill 'Sash Huw Ffash' mae'n rhaid ei fod wedi gwirioni efo'r gôt felen fendigedig.

Derbyniwyd Mantolen Cyllid 2022-23 gan Pat. Diolchir i bawb wnaeth gyfrannu, gwirfoddoli a chymryd rhan i wneud Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd yn llwyddiant ysgubol .

Gŵr gwadd y noson oedd Arwyn Roberts, un sy'n 'nabod pawb a phawb yn ei 'nabod o ac yn gefnder i Heulwn – aelod o'r gangen. Mae'n wyneb cyfarwydd ledled Cymru o ganlyniad i ddegawdau o droedio meysydd Eisteddfodau'r Urdd,




'Arwyn Herald gyda'i lyfr *Drwy Lygad y Camera*'

Y Genedlaethol a'r Sioe Fawr yn tynnu lluniau i'r Herald. Bu'n dyst i newidiadau mawr yn y diwydiant papur newydd a thechnegau ffotograffiaeth a chael profiadau unigryw. Cyfarfu a sêr rhyngwladol fel Steve Davie, Anthony Hoplein a rhai o'r teulu brenhinol. Peryglodd ei fywyd ar do fan ar drywydd stori. Bu'n dyst i ddathliadau a thrychinebau, protestio a joio! Cafodd ei urddo i Orsedd y Beirdd er Anrhydedd yn 2005 dan yr enw 'Arwyn Herald'. Mae ei lyfrau 'Hunangofiant Arwyn Herald', 'Pobl Arwyn Herald' a 'Drwy lygad y Camera' yn sôn am ei ddeugain mlynedd fel ffotograffydd craff. Bu'n bleser o'r mwyaf gael treulio orig ddifyr ein ei gwmni, noson ddifyr tu hwnt.

Diolch i Mair, Iris, Olwena a Linda am ofalu am y baned a'r Raffl.

Edrychir ymlaen am y 'Sioe Ffasiwn' – dillad o siopau Elusen ar 10fed Hydref am 7.30PM

*Cyfarfod mis Hydref*

Croesawodd Bethanne pawb i'r noson 'Sioe Ffasiwn'. Cychwynnwyd y noson gyda Chân y Mudiad, gyda Megan yn cyfeilio.

Llongyfarchwyd Gwenda ar gyrraedd pen-blwydd arbennig.

Anfonir ei dymuniadau gorau i Gwyndaf, gŵr Mair, wedi damwain i'w law.

Deellir fod rhai o'n haelodau yn sâl ac anfonwn ein cofion gorau atynt gyda dymuniadau am adferiad buan. Ein dymuniadau gorau i Anne Elis, Bethel (Llywydd y Rhanbarth), Jen Roberts, Alison Carden, Meirwen, Pat a Bethanne.

Dyddiad cau Cystadleuaeth Cerdyn Nadolig 2024 yw 10fed Rhagfyr.

Bydd dau dîm o'r gangen yn cymryd rhan yn y 'Cwis Hwyl' yn Neuadd Bethel, ar 10fed o Dachwedd. Pob lwc iddynt.

Diolchir i Avril am holi ar gyfer ein Cinio Nadolig yn 'Y Wal' yng Nghaernarfon. Diolch i'r aelodau sydd wedi talu'r blaendal o £15 (arian parod, mewn amlen, efo'ch enw a dewis o'r fwydlen, os gwelwch yn dda). Bydd angen gweddill yr arian parod o £17.95 ar nos Fawrth 14eg Tachwedd i Anwen.

Yn absenoldeb ein Is Lywydd, Mair, cyflwynydd arbennig y Sioe Ffasiwn oedd Heulwen. Nid ffasiwn Llundain, Paris nag Efrog Newydd oedd yma yn sefydliad Coffa Llanrug ond pob model wedi prynu ei gwisg o Siopau elusen a phob un wedi gwario oddeutu £10. Tasg aelodau'r gangen erbyn diwedd y sioe oedd penderfynu pwy oedd wedi cael y fargen orau.

Y gyntaf i ymddangos oedd Eryl gyda'i chot flewog ddu a 'sgidiau llwyd o siop Hosbis Dewi Sant, Dolgellau am £8 - chwaethus iawn.

Pat ddaeth ymlaen wedyn, yn gwisgo cot ddu a gwyn, blows ddu a gwyn ac ar ei phen band gwallt du a gwyn wedi'i wneud gan Pat ei hun. Prynwyd y dillad o Tŷ Gobaith am £11.

Julie oedd y nesaf, yn gwisgo siaced glas tywyll, siwmper wau werdd olau gyda llawes hir wedi'i chrychu yn effeithiol dros ben, ac am ei gwddf cadwyn blodyn arian gwyrdd. Prynwyd yn Siop y Groes Goch yng Nghaernarfon am gyfanswm o £12.

Siaced llewys tri chwarter gan Masai oedd gan Eirian gyda ffrog o *Wallis* yn gweddu'n berffaith efo'r siaced. Yn siop elusen Tŷ Gobaith, roedd yna sêl a gwariodd £10 ar un dilledyn a chael y llall am ddim!

Bethanne oedd y fodel hyderus nesaf. Gwisgai ffrog ddu efo les arni gan *Fenn Wright and Manson* a brynwyd yn *Age* Cymru, Bontnewydd am £7. Cafodd fag arian *Carvela* o siop Ambiwlans Awyr yng Nghaernarfon am £3 ac esgidiau arian Umbold o'r Siop Anifeiliaid ar dop Stryd y Llyn am £2. Cyfanswm o £12.

Yn gwisgo top lliwgar wedi'i brynu yn Siop Elusen, *Sense* am £2 oedd Jenny, ac roedd yn ei ffitio i'r dim.

Dim syndod bod 'Huw Fash' wedi gwirioni efo steil ddeniadol



Heulwen - yn llywio'r noson



Bethanne yn gwisgo ffrog ddu, esgidiau a bag lliw arian

Anwen ym Moduan, y tro hwn roedd hi'n gwisgo sgert frown ledr a gafodd yn Hosbis Dewi San am £5. Aeth ati i ail greu'r sgert a gwisgai flows M&S o Tŷ Gobaith am £3 a sgarff hyfryd am £1.50. Gwariodd £9.50 - y fargen orau eto meddai!

Galwyd y modelau yn ôl, er mwyn i'r gynulleidfa roi cymeradwyaeth iddynt ac i ddyfarnu pwy gafodd y fargen orau.

Dymunir diolch i Heulwen am ei gwaith arbennig fel Cyflwynydd ac wrth gwrs i'r modelau.

Bu'n dasg anodd dod i benderfyniad, ond gan fod ein Llywydd wedi mwynhau modelu a llwyddo i brynu gwisg gyflawn, dyfarnwyd Bethanne yn fuddugol a chafodd gadw'r wobr o flodyn tŷ a ddaeth fel teilyngdod iddi hi ei hun. Noson ddifyr iawn.

Diolch i Ann Lloyd ac Eirianwen am ofalu am y baned. Diolch hefyd i Goronwy am osod y cadeiriau a'r llwybr i'r modelau gael dangos eu bargeinion gwych.

Edrychir ymlaen at groesawu Dei Tomos atom ar y 14eg o Dachwedd i sôn am y Nant a'r Betws.

**Dosbarth Yoga**

Cynhelir dosbarth Yoga yn Festri Capel y Rhos bob bore Iau rhwng 11.00 am a 12.00 pm. Dewch â mat, blanced, clustog a diod o ddŵr efo chi. Pris y sesiwn yn £10. Am fwy o wybodaeth, ffoniwch Leisa – 07775 995 013.

**Prosiect Pum Mil - Datgelu'r Cwt Band ar ei newydd wedd**

Bydd y newidiadau gafodd eu gwneud i Gwt Band Llanrug, diolch i Prosiect Pum Mil, yn cael eu datgelu fis yma.

Ar nos Sul, 19eg Tachwedd, gallwch weld Trystan ac Emma a'r tîm yn helpu aelodau'r Seindorf a'r gymuned i wneud gwelliannau i'r adeilad ymarfer.

Mae'r amser i'w gadarnhau, ond am 8 o'r gloch y mae'r cyfresi blaenorol wedi eu darlledu.

Mae'r band wedi cryfhau a gwella ers bron a dod i ben yn sgil Covid, ac mae croeso i unrhyw un gysylltu gyda'r seindorf hŷn neu'r ieuenctid drwy eu tudalen Facebook, ebostio aled_rhys@hotmail.co.uk neu drwy gael sgwrs gydag unrhyw aelod.

**Gwellhad buan**

Rydym yn anfon ein dymuniadau gorau am wellhad buan iawn i Gwyndaf Hughes, Hafan, sydd wedi derbyn triniaeth ar ei law yn Ysbyty Whiston yn gynharach yn y mis, yn dilyn damwain yn ei gartref. Cofion cynnes atoch chi Gwyndaf.

**Profedigaeth**

Danfonwn gydymdeimlad dwysaf i deulu y diweddar Robert John Jones (John Gwyddal), gynt o Bryn Rhug, Pontrug a fu farw'n dawel yng Nghartref Gofal Meddyg, Cricieth ar y 12fed o Fedi yn 85 mlwydd oed. Gŵr i Sylvia, a thad Mike, Liz, Bob a Becky, tad-yng-nghyfraith, taid, hen daid, brawd ac ewythr. Colled fawr i'w deulu a'i ffrindiau oll.

**Capel y Rhos**

Gyda'r gweinidog Y Barch. Nerys Anne Griffiths yn gweinyddu, cynhaliwyd dwy briodas yn ystod mis Medi. Ar 16eg o Fedi, priodwyd Abbi ac Alex Lynes, ac ar 23ain Fedi bu priodas Sioned Vaughan Jones a John Dylan Thomas. Dymunwn bob bendith a hapusrwydd i'r ddau gwpwl ar ddechrau eu bywyd priodasol.

**Oedfaon mis Tachwedd**

5ed Tachwedd – Y Barch. Nerys Griffiths ein Gweinidog
12fed Tachwedd – Ms Dorothy Williams
19eg Tachwedd – Ms Eleri Jones
26ain Tachwedd – Y Gweinidog

**Hafan Elan**

Yn ystod y mis diwethaf cafwyd trip i Galeri Caernarfon. Ar ôl cinio gwerth chweil yn y caffi, treuliwyd orig bleserus iawn yng nghwmni Dylan a Neil. Trefnwyd cinio unwaith yn rhagor yng Nghaffi Coed y Brenin, Bethesda cyn mynd ymlaen i Fron Goch. Roedd paned a chacen yn dderbyniol iawn yno cyn troi am adref.

Caffi Cymunedol – Bellach mae Beverley y Warden yn paratoi prydau blasus iawn yn y Ganolfan bob dydd Llun rhwng 11.00 y bore a 12.30 pm. Mae'r prisiau yn rhesymol iawn. Dewch draw i gael sgwrs a gwledd!

**Diolch**

Mae Olwen a Linda yn diolch o galon i bawb wnaeth gyfrannu tuag at Fore Coffi Macmillan, a gynhaliwyd ddiwedd mis Medi yn y Sefydliad Coffa. Fe gasglwyd £523.30 tuag at yr elusen. Mawr ddiolch am bob cyfraniad ag i bawb fu'n helpu ar y diwrnod.

## Newyddion GwyrddNi

Mae mudiad GwyrddNi yn falch iawn o gyhoeddi y bydd yn cael ei ariannu gan Gronfa Gymunedol y Loteri am 4 mlynedd eto i gefnogi cymunedau i gyflenwi eu Cynlluniau Gweithredu Hinsawdd Gymunedol.

**Fforwm Cymunedol Dyffryn Peris**

13eg Tachwedd, 6.00PM - 8.30PM, Y Festri, Llanberis. Roedd y Cynulliad Hinsawdd Gymunedol a ddaeth i ben fis Chwefror 2023 eisiau parhau â gofod Fforwm Cymunedol. Bydd yn fan i rannu diweddariadau, gwybodaeth a digwyddiadau lleol a lle i adeiladu cysylltiadau cymunedol. Bydd GwyrddNi yn trefnu gofod bob yn ail fis i'r gymuned ddod at ei gilydd fel hyn ond bydd cyfle i drafod sut fydd y cyfarfodydd yn cael eu rhedeg, ystyried amrywio lleoliad a thrio pethau newydd. Cysylltwch â Lowri gyda'ch syniadau!

# Pen cigyddion y fro yn dathlu'r hanner cant

Hanner can mlynedd yn ôl prynwyd London House, Llanrug gan y diweddar Wavell Roberts, cigydd oedd yn cadw siop yn Y Foelas. Gweddnewidiwyd yr hen siop – prin fod neb bellach yn ei chofio fel siop ddillad a oedd wedi cau ers blynyddoedd cyn i Wavell ei phrynu. Pan ymddeolodd Wavell yn 2006, prynwyd y siop gan Bryn ac Angela Williams. Doedd Bryn ddim yn newydd i'r busnes. Bu'n 'helpu allan' yn y siop er pan yn dair ar ddeg oed, ac wedi ei drwytho'n llwyr yn y busnes trin cig. Roedd Wavell yn hysbysebu'n rheolaidd yn yr 'Eco' fel *"Pen cigydd y fro"*, a pharhaodd Bryn y traddodiad. Yn 2006 aeth yr hysbyseb yn *"Ben cigyddion y fro"*, a'r perchnogion newydd *"yn parhau'r traddodiad gwych"*. Mae'r traddodiad gwych hwnnw'n parhau heddiw, ac yn denu cwsmeriaid, nid yn unig o Lanrug ond o'r holl bentrefi cyfagos – a thu hwnt.



Bellach, mae pump yn cael eu cyflogi yn y busnes, ac angen 'cario allan' i wahanol westai a sefydliadau mor bell a Phorthmadog i un cyfeiriad a Biwmares i gyfeiriad arall. Mae'n olygfa ddigon cyffredin gweld nifer helaeth o ymwelwyr yn prynu stoc dda o'r gwahanol amrywiaeth o gigoedd a nwyddau cyn dychwelyd adref. Mae'r gegin yng nghefn y siop yr un mor brysur hefyd, oherwydd yno mae'r rholiau sosej, y pasteiod a'r gwahanol saladau yn cael eu paratoi. Enillwyd sawl gwobr dros y blynyddoedd am y cynnyrch cartref hwn.

Dyma'r unig siop cigydd o fewn y fro bellach, ble bu un neu fwy ymhob pentref bron ers talwm. O sylweddoli mai dim ond un siop cigydd sydd yng Nghaernarfon bellach, a dim un ym Mangor, mae llwyddiant y siop bentref hon yn arwyddocaol. Bydded i drigolion bro'r 'Eco' barhau i'w chefnogi a mwynhau'r arlwy arbennig sydd ar gael yno. Ymlaen am yr hanner can mlynedd nesaf.

# Rhai ffeithiau diddorol am y corff dynol

Mae'r corff dynol yn gampwaith cymhleth ac ysbrydoledig. O'i alluoedd rhyfeddol i'w gwyrcs dirgel, nid yw byth yn peidio â rhyfeddu.
**Triliynau o Gelloedd**: Mae'r corff dynol yn cynnwys tua 37.2 triliwn o gelloedd, pob un â swyddogaeth benodol, gan gydweithio'n gytûn i'n cadw ni'n fyw ac yn iach.
**Y microbiôm**: Mae yna'r un faint o ficrobau yn byw yn ac ar ein corff ag sydd yna o gelloedd corff. Microbau fel bacteria, ffyngau, firysau a sawl math arall. Maen nhw ym mhobman, nid yn unig yn y perfedd ond ar eich croen, yn eich llygaid, ysgyfaint, croth, pledren a sawl lle arall, ac maen nhw'n ein cadw'n iach.
**Adfywio'r Iau**: Yr iau yw'r unig organ yn y corff sy'n gallu ei adfywio ei hun. Hyd yn oed os yw 75% ohono'n cael ei ddileu, gall y gyfran sy'n weddill dyfu yn ôl i'w maint gwreiddiol.
**Pwysau'r croen**: Eich croen yw organ fwyaf y corff, sy'n cyfrif am tua 16% o bwysau'ch corff. Mae'n gweithredu fel rhwystr i amddiffyn eich organau mewnol a'ch systemau rhag y byd allanol.
**Olion bysedd unigryw**: Mae olion eich bysedd yn hollol unigryw. Nid oes gan ddau berson yr un patrwm, gan eu gwneud yn offeryn gwerthfawr ar gyfer gwyddoniaeth fforensig ac adnabod personol.
**Cywirdeb golwg**: Gall y llygad dynol wahaniaethu tua 10 miliwn o liwiau gwahanol ac mae mor sensitif fel y gall ganfod un ffoton o olau mewn ystafell dywyll.
**Llif gwaed cyson**: Mae eich calon yn pwmpio tua 2,000 galwyn (7,570 litr) o waed trwy'ch corff bob dydd, gan gyflenwi ocsigen a maetholion i gelloedd wrth dynnu gwastraff.
**Microbiôm y perfedd**: Mae'r corff dynol yn cynnal triliynau o ficro-organebau yn y system dreulio, a elwir gyda'i gilydd yn ficrobiom perfedd. Maent yn chwarae rhan hanfodol mewn treuliad, metaboledd, a hyd yn oed yn effeithio ar eich hwyliau a'ch iechyd cyffredinol.
**Esgyrn: Adnewyddu'n gyson**: Nid yw'r sgerbwd dynol yn statig. Mae'n cael ei ailfodelu'n barhaus, gyda hen feinwe esgyrn yn cael ei ddisodli gan feinwe esgyrn newydd. Mae'r broses hon yn hanfodol ar gyfer iechyd esgyrn.
**Pŵer ymennydd a niwronau**: Mae'r ymennydd dynol yn cynnwys tua 86 biliwn o niwronau, sy'n gallu trosglwyddo gwybodaeth ar gyflymder o hyd at 268 milltir yr awr (431 cilomedr yr awr).
**System imiwnedd anhygoel**: Mae'r system imiwnedd yn fecanwaith amddiffyn aruthrol. Gall wahaniaethu rhwng goresgynwyr tramor di-rif a'n hamddiffyn rhag nifer o glefydau. Ac eto, weithiau gall ymosod ar gelloedd y corff ei hun trwy gamgymeriad, gan arwain at gyflyrau hunanimiwn.
**Ymestyn DNA**: Pe baech chi'n dad-coilio ac yn ymestyn yr holl DNA yn eich corff, byddai'n cyrraedd y lleuad ac yn ôl fwy na 6,000 o weithiau!
**Mecanwaith Gwridio:** Mae gallu'r corff i wridio oherwydd rhyddhau adrenalin, sy'n achosi i bibellau gwaed yn yr wyneb ehangu, gan gynhyrchu gwedd binc.
**Blasbwyntiau**: Mae gennych tua 10,000 flasbwyntiau ar eich tafod, ond mae ganddyn nhw hyd oes gyfyngedig o tua 10 i 14 diwrnod. Mae rhai newydd yn disodli'r hen rai yn gyson. Ond wyddoch chi fod rhai yn eich pen ôl hefyd!
**Blinc**: Ar gyfartaledd, mae person yn blincio ei lygaid tua 15-20 gwaith y funud, sy'n cyfateb i dros 1,200,000 blinc y flwyddyn.
**Cryfder Esgyrn**: Owns am owns, mae esgyrn dynol yn gryfach na dur. Gall modfedd ciwbig o asgwrn gefnogi llwyth o 19,000 pwys, sydd yn fras iawn fel pwysau pum car cymedrol eu maint.
**Cyfnewidfa Ocsigen yr Ysgyfaint:** Bob dydd, mae eich ysgyfaint yn hwyluso cyfnewid ocsigen o'r aer rydych chi'n ei anadlu i'ch llif gwaed, sy'n gyfanswm o tua 9,000 litr o aer.
**Pŵer cyhyrau:** Mae eich cyhyrau'n bwerus ac yn effeithlon. Y galon ddynol yw'r cyhyrau mwyaf gweithgar sy'n pwmpio tua 2,000 galwyn o waed bob dydd. Mae'r cyhyrau cnoi ymhlith y cyhyrau cryfaf gyda grym aruthrol.
**Arogl unigryw**: Yn union fel y mae olion bysedd yn unigryw, felly hefyd ein arogleuon. Mae gan bob person arogl unigryw y gellir ei adnabod gan gŵn, sydd â synnwyr arogli hynod o effeithiol.
**Atgyrch Blincio** (*Blink Reflex*): Yr atgyrch cyflymaf yn y corff yw'r atgyrch blinc. Pan ddaw gwrthrych yn rhy agos at eich llygad, gall eich amrannau gau mewn dim ond 1/10fed o eiliad i amddiffyn y llygaid.

Mae'r ffeithiau hyn yn ein hatgoffa o gymhlethdod ac unigrywiaeth ein cyrff ac yn dyst i ryfeddodau natur.








## DINORWIG

**Oedfaon y Sul**
Mae rhestr o'r oedfaon hyd ddiwedd y flwyddyn yn Nhy Elidir wedi eu cynnwys dan newyddion Deiniolen.

**Diolchgarwch**
Tywydd digon anwadal a gafwyd eleni ac ambell i gynhaeaf gwlyb. Rhaid cyfaddef na fu fawr o drefn ar yr ardd. Ond cynhaliwyd ein Gwasanaeth Diolchgarwch yn Nhy Elidir, Deiniolen ar ddydd Sul y 15fed o Hydref. Derbyniwyd rhoddion yn y gwasanaeth tuag at y Banc Bwyd yng Nghaernarfon; trefn sydd wedi ei dilyn yma ers rhai blynyddoedd bellach. Gyda diolch i'r rhai a gyfrannodd mewn nwyddau neu'n ariannol.

**Atgofion**
Yn rhifyn diwethaf yr 'Eco' y darllenais am farwolaeth Rhiannon Fear, Llanrug, a daeth ag atgofion melys i mi o'r amser y byddai Rhiannon a'i chwaer, Olwen yn dod yma'n blant i gartref nain a taid yn y Fron Deg, a ninnau, blant Dinorwig yn chwarae efo nhw. Daeth llu o atgofion am y dyddiau hynny (gan gynnwys Jac, y ci – nad oeddwn yn or-hoff ohono). Fy nghydymdeimlad atoch fel teulu yn eich profedigaeth.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion cynhesaf at Hannah, Tŷ'r Ysgol – brysia adra – a hefyd at Alison, y Foel sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar. I bawb arall sydd wedi dioddef o wahanol anhwylderau; brysiwch wella.

**Newid Aelwyd**
Deallaf fod Iona, Maes Eilian, wedi symud o'r ardal. Bydd Sioned a'r plantos yn teimlo dy golli. Pob dymuniad da yn dy gartref newydd.

## CEUNANT

**Croeso Adre**
Croeso mawr adre o'r ysbyty i Graham Land - mae'n dda dy weld yn cryfhau.

**Profedigaeth**
Danfonwn gydymdeimlad llwyraf i deulu y ddiweddar Beryl Joan Hughes (Sister Hughes, Bryn Seiont), o Tan y Ffordd, Ceunant a fu farw yn sydyn yn Ysbyty Gwynedd ar y 25ain o Fedi yn 89 mlwydd oed. Gwraig annwyl Terry, a modryb arbennig i Sian, Gareth, Claire, Peta, Fiona, Patrick a'r diweddar Dominic. Rydym yn meddwl amdanoch yn eich colled.

## Cymru Gudd trwy lun a stori



Yn ei lyfr newydd, Cymru Gudd, mae'r ffotograffydd tirluniau Dylan Arnold yn dod â lluniau trawiadol o adfeilion Cymreig yn fyw trwy rannu hanes yr adeiladau, a'r teuluoedd oedd yn byw ynddynt.

Mae'r llyfr yn cynnwys lluniau o adeiladau segur ac adfeilion anghofiedig yng ngogledd Cymru – o ogledd Ynys Môn i lawr i Fachynlleth a draw am Ddyffryn Conwy.

Ceir amryw o luniau a hanesion difyr o ardal Llanberis, gan gynnwys y bwthyn ble magwyd Goronwy Lewis – Tan y Garret, Dinorwig ac adfail Cae Newydd yng Ngwaun Cwm Brwynog.




Mae ynddo hefyd hanes Tan y Marchlyn yn Neiniolen. Carys Owen, gafodd ei magu yn y tŷ, oedd y person cyntaf i Dylan ei chyfweld a dyna sut y plannwyd yr hedyn ar gyfer y gyfrol. Roedd gan Carys lawer o atgofion tyner i'w rhannu am ei chartref.

Meddai Dylan, "Carys oedd y catalydd ar gyfer y prosiect – mi ges i sgwrsys difyr iawn efo hi am ei chartref, ei theulu a'u ffordd o fyw.

"Ar ôl hynny, mi ges i flas ar yr ymchwilio a'r cyfweld, gan hel straeon er mwyn dod â'r lluniau'n fyw. Mi wnaeth fy mhroject gyrraedd pwynt wedyn ble roedd yn gorff sylweddol o waith, digon i greu llyfr difyr o safon.

"Mae'r llyfr yn llawn straeon gan bobl ac yn cynnwys bywgraffiadau amryw o gymeriadau'r ardal. Beth sy'n ei wneud yn unigryw yw fod llawer o'r lleoliadau ansathredig a'u hanesion yn ymddangos mewn print am y tro cyntaf."

Yn wreiddiol, tynnu lluniau tirwedd Eryri oedd o ddiddordeb i Dylan. Ond yn raddol, dechreuodd gael digon o dynnu lluniau lleoliadau poblogaidd oedd wedi eu gweld nifer o weithiau o'r blaen.

Ychwanegodd, "Dechreuais deimlo fod ôl troed cannoedd o ffotograffwyr eraill wedi bod yn y lleoliad o'm blaen, ac ambell waith, roeddwn i'n dal tirlun efo murddun yn y cefndir. Yn raddol, daeth y murddunod dirgel hyn yn fwy amlwg yn fy lluniau ac o fwy o ddiddordeb i mi na'r tirwedd ei hun.

"Mi oedd fy nychymyg yn cael ei danio wrth feddwl beth fyddai'r waliau yn ei ddweud tasan nhw'n gallu siarad. A'r wefr fwyaf yn ystod y prosiect yma oedd bod yr hyn a ddigwyddodd go iawn rhwng pedair wal yr adfeilion lawer mwy diddorol, dirdynnol a rhyfeddol na'r straeon y gallwn i fod wedi eu dychmygu."

Mae'r gyfrol hon yn ddilyniant i arddangosfa o'r un enw gan Dylan Arnold yn Storiel, Bangor nol yn 2019.

Bydd y gyfrol ar gael mewn siopau llyfrau lleol ac o wefan Y Lolfa o ganol Tachwedd. Pris y gyfrol yw £14.99.

# Un funud fach ...

## UN FUNUD FACH YN DDIGON

Mae'n amhosibl dweud beth fydd y sefyllfa yn Gaza ac Israel erbyn i chi na neb arall ddarllen y geiriau hyn, â minnau'n eu sgwennu o leiaf deng niwrnod cyn eu cyhoeddi. Pwy a ŵyr beth a ddigwydd mewn un diwrnod, heb sôn am ddeg? Erbyn hyn, o weld y cyfan a ddigwyddodd dros y deng niwrnod diwethaf ers i Hamas ymosod ar Israel, pwy a ŵyr beth a ddigwydd mewn un funud fach?

Ydi, mae'r cyfan yn ymddangos mor fregus â hynny. Un funud fach fydd ddigon i roi'r gorchymyn i anfon milwyr traed byddin Israel i Gaza. Ac os – neu fel sy'n fwy tebygol – pan ddigwydd hynny, un funud fach fyddai ddigon i Iran gadarnhau ei chefnogaeth i Hamas a gwireddu ei bygythiad i 'ehangu ffiniau'r rhyfela'. Ond un funud fach hefyd fyddai ddigon i orchymyn i'r cymorth dyngarol y mae'n rhaid i bobl Gaza wrtho gael croesi'r ffin â'r Aifft yn Rafah. A meiddiaf ddweud mai un funud fach fyddai ddigon i arweinwyr Hamas a llywodraeth Israel benderfynu, y naill a'r llall fel ei gilydd, rhoi heibio'r ymladd a'r lladd a chytuno i geisio trafod – rywsut, rywfodd, rywle, rywbryd – yr holl anghyfiawnderau a'r holl raniadau ac ofnau sy'n deillio ohonynt, yn y gobaith o atal rhagor o dywallt gwaed, sicrhau cyfiawnder a chymod, a gwireddu gobeithion miliynau o bobl y rhan hon o'r byd am heddwch gwirioneddol a pharhaol.

Heddiw, fodd bynnag, ofni rydw i na ddaw'r funud fach olaf y soniais amdani am fisoedd a blynyddoedd, os daw o gwbl. Nid wyf am un funud yn eiddigeddus o'r gwleidyddion a'r gwladweinyddion sy'n ceisio ymateb i'r amgylchiadau dychrynllyd presennol. Mae'n rhaid i mi gyfaddef hefyd – er gwaethaf fy ngofid am ddioddefaint pobl Israel a Gaza – nad wyf yn eiddigeddus chwaith o'r bobl dda ac arwrol sy'n ceisio eu cynorthwyo ar lawr gwlad dan amodau na fedraf fi ddechrau dychmygu eu herchyllltra na'u gorffwylltra. Ac afraid dweud wrth gwrs nad wyf am un eiliad yn eiddigeddus o neb o drigolion Israel na Gaza na'r tiroedd a'r gwledydd cyfagos.

Ac am fy mod yn arswydo rhag agosrwydd ac anochelrwydd ambell funud fach ac yn anobeithio ynghylch pellter ac annhebygolrwydd ambell un arall, gweddïo wnaf y bydd yr Hollalluog Dduw yn ei drugaredd yn rhoi i'r gwladweinyddion ddoethineb a gallu a goleuni; i bob mudiad a gweithiwr dyngarol nerth a thosturi ac amddiffyniad; i bobl Israel a Gaza ddiogelwch a chyfiawnder a heddwch; ac i'w harweinwyr hwythau ras i gydnabod ynfydrwydd yr holl gasáu a'r holl ladd. Ofnir mai cymod a heddwch ydi'r peth olaf y mae'r arweinwyr hynny'n ei ddeisyfu; ond gweddïwn y bydd yr hyn sydd heddiw'n ymddangos yn amhosibl yn cael ei gyflawni. A daliwn i weddïo hyn, a mwy a gwell, bob dydd o sylweddoli mai trasiedi pethau ydi na ddigwydd hyn oll mewn un funud fach.

[Awr neu ddwy wedi i mi orffen yr erthygl hon ganol dydd, Hydref 17, cadarnhawyd yr ofn a fynegir ynddi gan y newyddion am yr un funud fach y syrthiodd taflegryn ar ysbyty yn Gaza gan ladd dros 500 o bobl. Mae'r newydd dychrynllyd hwnnw'n cadarnhau hefyd anogaeth yr erthygl i ni barhau mewn gweddi dros y rhan arbennig hon o'r byd.]

**JOHN PRITCHARD**

# Dyfodol Tŷ’r Ysgol, Llanrug

Mae ’na lawer o siarad yn Llanrug ar hyn o bryd am ddarn o dir ar Ffordd Llanberis. Pan dorrwyd y coed ar dir Tŷ’r Ysgol fis Medi, mi ddechreuodd y sgwrsio ar y stryd ac ar-lein …

Mae’r tir yn ffinio gydag Ysgol Gynradd Llanrug. Mae’r Ysgol wedi ei chartrefu mewn adeilad o’r 1920au, ar safle concrit, gyda chae chwaraeon yr ochr draw i’r lôn ar Ffordd Glanffynnon. Gyda nifer y disgyblion wedi cynyddu o fwy nag un traean mewn ugain mlynedd wrth i Llanrug dyfu, tir Tŷ’r Ysgol yw’r unig gyfle i’r Ysgol ymestyn a chael gofod addas ar gyfer addysg yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae ’na dipyn o siarad a holi felly ymysg trigolion Llanrug.

Roedd llawer yn y pentref yn gwybod bod Cyngor Gwynedd wedi prynu’r tir, ac roedden nhw’n meddwl mai at ddiben yr Ysgol a’r pentref y gwnaed hynny. Ac er bod hen geisiadau cynllunio amlinellol i godi dau dŷ ar y safle, daeth hi’n dipyn o sioc er hynny i weld cynlluniau newydd ar gyfer tai yng ngardd Tŷ’r Ysgol. Tai fforddiadwy helaeth gydag amod lleol fyddai’r rhain mewn pentref lle mae galw mawr am gartrefi fforddiadwy i’w deuluoedd.

Mae rhieni lleol a chymdogion Ysgol Llanrug yn bryderus iawn, fodd bynnag, ac wedi llunio deiseb yn galw ar Gyngor Gwynedd i ddatblygu’r tir i gyd at ddiben yr Ysgol ac isadeiledd y pentref – y cyfle olaf am byth i wneud hynny. Mae Ysgol Llanrug hefyd yn awyddus iawn i dderbyn y tir er mwyn cael gofod dysgu tu allan gwyrdd, hwb dysgu a chymunedol yn yr hen dŷ a gofod parcio i liniaru’r problemau traffig dyrys a pheryglus o amgylch yr Ysgol.

Mae problemau draeniad difrifol yn yr ardal hefyd gyda rhai tai yn Stad Glanffynnon yn cael eu gorlifo mewn glaw trwm a’r Ysgol yn cael ei heffeithio hefyd. Mae pryder mawr mai gwaethygu wnaiff y broblem gyda mwy o dai a diffyg cynllunio.

Mae Llanrug ymysg yr ychydig gymunedau ar ôl yn y byd gyda dros 70% o’r boblogaeth yn siarad Cymraeg – prin 40 sydd ar ôl i gyd bellach. Mae 86% o drigolion Llanrug yn siarad Cymraeg, y pentref gyda’r ganran uchaf, ac mae 92.1% yn siarad Cymraeg ar Ffordd yr Orsaf – y stryd Gymreiciaf yn y bydysawd. Felly, mae Llanrug yn drysor sydd angen ei warchod i’r ddynoliaeth a’r ddaear! Ond sut mae gwneud hynny orau?

Sut mae datrys problem tir Tŷ’r Ysgol?

**Cefndir**

Mae Tŷ’r Ysgol Llanrug a’i ardd helaeth yn eiddo i Gyngor Gwynedd ers 2017. Fe brynwyd y tir gan y Cyngor “rhag ofn y byddai ei angen ar gyfer dibenion addysgol yn y dyfodol”. Flwyddyn cyn ei werthu, cyflwynodd y perchnogion blaenorol gais cynllunio amlinellol llwyddiannus i godi dau dŷ moethus yn yr ardd. Doedd dim cynllun pendant nag arian ar gyfer unrhyw waith gan y Cyngor wrth brynu’r tir, ond dadleuodd y diweddar Gynghorydd Charles Wyn Jones yn llwyddiannus mai hwn fyddai’r cyfle olaf i ddatblygu Ysgol Gynradd Llanrug a chyfarch y problemau gydag isadeiledd y safle, oherwydd ei leoliad yng nghanol y pentref.

Mae llawer iawn wedi digwydd yn y bum mlynedd a mwy ers 2017, gan gynnwys pandemig byd-eang a chyflwyno Cwricwlwm newydd i Gymru. Yng nghyd-destun y darn yma o dir yng nghanol Llanrug, penderfynodd Cyngor Gwynedd yn 2019 nad oedd ei angen at ddibenion addysg gan nad oedd am ad-drefnu addysg yn lleol. Yn anffodus, wnaethon nhw ddim holi barn yr Ysgol am ei anghenion ac isadeiledd cyn penderfynu hyn – nac yn wir eu hysbysu o’r penderfyniad!

Yng Nghyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd ar 16 Chwefror 2021, yn y bwlch wedi marwolaeth Charles Jones a chyn ethol Beca Brown yn gynghorydd Llanrug ac ar gynffon ail don fawr Covid, trosglwyddwyd tri chwarter tir Tŷ’r Ysgol i Adran Tai ac Eiddo Cyngor Gwynedd – roedd hyn yn cynnwys Tŷ’r Ysgol ei hun a’r ddau blot. Roedd y Cyngor wedi benthyg arian o’i reserfau corfforaethol i brynu’r tir, ac felly ad-dalwyd £150,000.

Hefyd, yn sgil grant moderneiddio a enillodd y Cyngor, roedd Ysgol Llanrug am dderbyn rhan o ardd gefn Tŷ’r Ysgol (492.336m²) er mwyn “ymestyn y gofod chwarae cyfnod sylfaen” dan y cynllun hwn.

Nid bwriad y Cyngor oedd rhoi’r ddau blot tŷ ar y farchnad agored; yn hytrach daethant yn rhan o gynlluniau tai fforddiadwy i bobl leol. Trodd y tai moethus yn dai fforddiadwy - er bod y cynlluniau yn edrych yr un peth yn union!

Aeth y gwaith moderneiddio yn ei flaen yn Ysgol Llanrug yn haf 2022 gan greu gofod storio y tu hwnt i bileri yn y neuadd, creu ystafell athrawon newydd, mwy o gyfleusterau a choridor ychwanegol.

Dyma pryd y deallodd yr Ysgol mewn gwirionedd bod rhan fawr o dir Tŷ’r Ysgol bellach yn perthyn i Adran Tai ac Eiddo Cyngor Gwynedd ac nid yr Adran Addysg.

**Y Broblem**

Erbyn yr hydref yma, wedi i’r coed oedd yn cuddio’r safle gael eu torri, mae’r Ysgol, rhieni a llawer yn y pentref yn pryderu fod y cyfle olaf i ddatblygu safle Ysgol Llanrug i gwrdd ag anghenion addysg yn cael ei golli. Hefyd, gan nad yw Cyngor Gwynedd wedi cynnal unrhyw ymchwil nac arolwg i anghenion yr Ysgol rŵan ac at y dyfodol, na chwaith wedi ystyried isadeiledd yr Ysgol a’r pentref yn ehangach cyn mynd ati i godi tai ar y safle, mae teimlad o anniddigrwydd.

Ar y llaw arall, mae’r ddau dŷ sydd wedi eu cynllunio ar y safle am fod yn dai fforddiadwy ac ar gyfer pobl leol. Mae galw mawr am dai yn lleol i deuluoedd o’r pentref a chynlluniau blaengar gan y Cyngor, fel Tai Teg, wedi eu creu i daclo’r broblem enbyd hon.

Mae arian yn brin mewn awdurdodau lleol bob amser ond mae’r cyfnod hwn a’r pryder am y cynni sydd i ddod yn ddifrifol iawn. Mae’r tir yn perthyn i’r Cyngor; ac felly, ar un olwg dyma ateb fforddiadwy sy’n cyflawni sawl nod.

Wrth gwrs, mae Cynllun Datblygu Lleol y Sir am gael ei adolygu’n fuan iawn. Mae Llanrug bron â chyrraedd capasiti tai y cynllun presennol, a gellid dadlau nad ydi caeau a thir yn brin ac y byddai modd codi tai fforddiadwy i bobol leol mewn sawl lle arall yn y pentref yn lle tir Tŷ’r Ysgol.

Dyma yw’r her y mae Cynghorydd Llanrug, Beca Brown, yn ceisio ei datrys ar hyn o bryd – hoffwn i ddim bod yn ei sgidiau




**Cynlluniau y ddau dŷ fforddadwy ar safle Tŷ’r Ysgol, plots mor llydan a chwech o dai Glanffynnon. Ar y chwith yn y gwaelod mae’r tir y bydd Ysgol Llanrug yn ei dderbyn bellach.**

hi. Meddai Beca: “Ers dod i fyw i Lanrug ugain mlynedd yn ôl ac yn sicr ers dod yn gynghorydd ychydig dros ddwy flynedd yn ôl rydw i'n ymwybodol iawn bod problemau traffig a pharcio'r pentref wedi bod yn destun llosg. Rydan ni'n byw mewn pentref poblogaidd ac yn ffodus i fod â dwy ysgol a nifer o fusnesau llwyddiannus sydd yn denu - ond mae hyn, wrth gwrs, yn creu prysurdeb. Rydw i mewn trafodaethau cyson efo'r Cyngor ac yn pwyso arnynt i wneud y Sgwâr yn fwy diogel ac i ddatblygu llwybrau teithio llesol a llwybrau diogel i'r ysgol er mwyn cefnogi pobol i ddefnyddio llai ar eu ceir. Byddai'r gallu i gerdded i'r ysgol yn ddiogel yn hybu iechyd a llesiant plant yn ogystal â gwneud cyfraniad pwysig dros yr amgylchedd, yn lleol a thu hwnt. Rydw i wrth fy modd bod yr ysgol gynradd yn cael darn o dir ychwanegol rwan er mwyn datblygu gofod dysgu tu allan, ond yn cydymdeimlo'n fawr gyda'u rhwystredigaeth nad ydi Tŷ'r Ysgol bellach wedi ei glustnodi i ddibenion addysg. Byddaf yn gweithio gyda'r ysgol a'r gymuned i greu cynllun ar gyfer y tŷ er mwyn ei gyflwyno i'r Cyngor.”

Mae sawl ffactor arall sy'n hollbwysig yn y drafodaeth hon i gymhlethu'r ddadl ymhellach – sef draeniad, capasiti'r Ysgol a thraffig.

**Dŵr**

Os cerddwch chi heibio i safle Tŷ'r Ysgol, mi welwch bod y tir ar y pigyn ble mae'r tai i fod i gael eu codi yn dipyn o gors ar hyn o bryd.

Mae problemau draeniad difrifol yn y rhan yma o'r pentref ers blynyddoedd; mae'r Ysgol yn cael trafferthion gyda llifogydd, a gwaeth na hynny broblemau carthffosiaeth. Mae problemau llawer gwaeth yng ngwaelod Stad Glanffynnon, gyda dŵr yn dod i mewn i rai o'r tai pan mae hi'n bwrw'n ddrwg. Mae'r bobl sy'n byw yn y tai yma'n poeni trwy'r flwyddyn am law trwm.

Dyma ddywedodd Kayleigh Jones o Stad Glanffynnon: “Rydw i wedi byw yn Stad Glanffynnon ar hyd fy oes; mi brynodd fy ngŵr a minnau ein cartref gan fy rhieni. Yn ystod y naw mlynedd rydan ni wedi bod berchen ein cartref, rydan ni wedi rhyfeddu gan faint y llifogydd ar y stryd. Mae'r llifogydd yn digwydd yn ystod yr haf a'r gaeaf, rydan ni ar bigau'r drain o hyd gan y gallai ddigwydd unrhyw amser. Mae mater llifogydd wedi gwaethygu yn ofnadwy ar ôl i'r tai newydd ar safle Modurdy'r Hafod gael eu hadeiladu. Rydan ni'n hynod o bryderus y bydd adeiladu ar safle Tŷ'r Ysgol ond yn gwaethygu'r broblem.

“Mae'r tir yn hynod o gorslyd, a gyda'r holl drafferth mae Glanffynnon yn ei gael gyda llifogydd rydan ni'n poeni'n arw am yr effaith y bydd gwaith adeiladu pellach yn ei gael.”

**Parcio**

Mae'r Ysgol ar restr problemau parcio difrifol Cyngor Gwynedd. Chwe gofod parcio sydd i rieni gyda dros 250 o blant yn yr Ysgol. Mae ceir yn cael eu gadael ar hyd y lonydd a'r stadau tai gerllaw yn y bore, ac yn aml mae rhieni'n parcio ar draws pafin hyd yn oed.

Er bod Ysgol Llanrug yn ysgol bentref, gan nad oes ysgolion yng Nghwm-y-glo, Brynrefail a Ceunant mae hi hefyd yn ysgol ardal i raddau.

Mae'r Ysgol yn ceisio annog teuluoedd y pentref i gerdded i'r ysgol, ond gan nad oes pafin mewn rhai rhannau canolog o'r pentref a gyda cheir wedi eu parcio ym mhobman, mae rhieni'n poeni am ddiogelwch, a mwy a mwy yn gyrru gan waethygu'r sefyllfa ymhellach.

**Deiseb**

Mae'r ddeiseb sydd wedi ei chyhoeddi ganol fis Hydref yn dangos rhwystredigaeth rhieni a thrigolion Llanrug wrth weld yr unig lwybr i wneud safle ysgol gynradd y pentref yn addas i'w ddiben yn 2023 yn cael ei rwystro gan fwy o dai.

Meddai Gemma Jones, trefnydd y ddeiseb: “Os caiff y cynllun adeiladu yma ei gymeradwyo, ni fydd cyfle BYTH eto i ehangu ar dir yr Ysgol a chynnig cyfleoedd i blant y pentref i gael budd o ardal y tu allan i waliau'r dosbarth i fwynhau a dysgu yn yr awyr agored. Rydym felly yn galw ar rieni a thrigolion pentref Llanrug i gefnogi ein deiseb i rwystro'r cynllun adeiladu tai rhag mynd yn ei flaen.”

Mae awdurdodau lleol yn wynebu gwasgfa ariannol ddifrifol a thrist wrth gwrs, ac mae'n bosib nad yw swyddogion yn gweld sut mae modd cyflawni eu holl flaenoriaethau ac ateb pryderon Ysgol Gynradd a phentref Llanrug.

Wedi dweud hynny, os yw Llywodraeth Cymru wir am gefnogi cymunedau Cymraeg a gwireddu eu targedau o filiwn o siaradwyr, mae'n rhaid buddsoddi yn y cymunedau hynny i'w gwneud yn llefydd ymarferol i fyw ynddyn nhw ac yn bentrefi y bydd pobol yn dymuno byw ynddyn nhw.

*Mared Roberts*
*Rwy'n un o lywodraethwyr Ysgol Llanrug ond yn mynegi fy marn fy hun yn yr erthygl hon.*

**YSGOL GYNRADD LLANRUG**

Mae Ysgol Gynradd Llanrug wedi bod ar y safle presennol yng nghanol y pentref ers 1921. Mae hi'n ysgol hapus a llwyddiannus iawn sydd wedi ymestyn ac addasu sawl gwaith dros y blynyddoedd i gwrdd ag anghenion newydd ond mae hyn wedi crebachu'r gofod tu allan yn sylweddol.

Hi yw chweched ysgol gynradd fwyaf Gwynedd ers pum mlynedd a mwy. Yn gyffredinol, mae'r niferoedd yn dal i godi, a hynny wrth gwrs yn groes i batrwm llawer o ysgolion eraill dros y degawdau diwethaf.

Mae Ysgol Gynradd Llanrug yn awyddus iawn i Gyngor Gwynedd adolygu a mynd i'r afael â sawl mater a allai effeithio ar addysg, diogelwch a llesiant y disgyblion cyn penderfynu'n derfynol ar beth sy'n digwydd i dir Tŷ'r Ysgol.

Gofynnwyd i Gyngor Gwynedd fesur capasiti Ysgol Llanrug nifer fawr o weithiau yn ôl y canllawiau diweddaraf ac yn dilyn gwaith diweddar yn yr Ysgol sydd wedi lleihau maint sawl dosbarth, ond mae'r Cyngor yn dweud dro ar ôl tro nad oes modd gwneud hynny ...

Er bod yr Ysgol yn amau'n gryf nad yw'r gofod dysgu'n ddigon mawr ar gyfer nifer y disgyblion, heb wybod yn sicr, mae'n anodd iawn gwneud achos, yn anffodus.

Mae mwyafrif ysgolion mawr eraill Gwynedd wedi derbyn buddsoddiad o filiynau o bunnoedd i'w stadau yn y blynyddoedd diwethaf. Llwyddodd tair ysgol gynradd sydd mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol – ble mae dros 70% yn siarad Cymraeg – i ddenu buddsoddiad mawr i gyfarch cynnydd mewn capasiti ar sail yr iaith Gymraeg.

Os nad yw Cyngor Gwynedd yn fodlon mesur capasiti Ysgol Llanrug, sydd mewn pentref o arwyddocâd ieithyddol unigryw, sut mae'r Ysgol yn gallu gwneud cais am fuddsoddiad tebyg i ddatblygu'r safle 100 oed er lles ei disgyblion a'r dyfodol?






# Crwydro gerddi


1



2


3



4


5


6


7


8


9


10


11


12


13


14

**Yr Eidal - Rhan 1**
Doedden ni heb fentro yn bell ers y clo mawr ond fe wnaethom fentro crwydro cyn belled â'r Eidal yn ystod mis Mai eleni, gan hedfan allan a theithio ar drên wedyn o ddinas i ddinas. Chawson ni ddim tywydd arbennig o braf (yn wahanol iawn i Ewrop a thu hwnt weddill yr haf). Roedd hi'n gynnes, cynhesach na Chymru, ond awyr lwyd ac ambell gawod welsom ni wrth grwydro *Firenze* (*Florence*), Genoa ac yn olaf, Milano. Ar y diwrnod olaf cododd y tymheredd i 31 gradd - roedd hi'n llawer rhy boeth i gerdded ymhell, felly diolch am dywydd heb fod yn rhy braf. Fodd bynnag, tra buom ni yn Firenze llwyddais i grwydro trwy ddwy ardd hyfryd ac yna un arbennig ym Milano.

Mae hi wedi tresio bwrw drwy'r dydd heddiw, wrth i mi ysgrifennu hwn, a gan ein bod wedi bod yn brysur yn gwneud gwaith ar y tŷ drwy'r haf, chefais i ddim llawer o gyfle i grwydro gerddi yng Nghymru fach. Felly dyma rannu'r ardd gyntaf fuon ni'n crwydro o'i chwmpas yn yr Eidal.

Cychwyn ben bore o'r gwesty, gan anelu am *Ponte Vecchio* (yr Hen Bont) a adeiladwyd yn 1345. Croesi dros Afon Arno a cherdded at bont bellach draw er mwyn cychwyn cerdded am y *Piazzale Michelangelo*, er mwyn cael golygfa hardd o *Firenze* a thynnu lluniau. Dyma le enfawr, sy'n ardderchog i arsylwi, yn uchel uwchben yr Arno yn ne dinas *Firenze*, digon o lefydd parcio i'r rhai mewn car a thai bwyta a stondinau'n gwerthu pob math o geriach ar gyfer y twristiaid.

Cyn cyrraedd y top fodd bynnag mi welais lecyn hynod ddifyr yr olwg efo arwydd oedd yn awgrymu bod gardd o ryw fath i ymweld â hi. **1**

Wrth gerdded yn nes roedd arwydd wrth y giât - '*Giardino dell'Iris*. **2** Dydy fy Eidaleg i ddim yn wych ond roeddwn i hyd yn oed yn gallu dyfalu mai gardd oedd '*giardino*'! Hollol gywir - a dyma'r gellesg (*irises*) cyntaf i ni eu gweld. **3**

Wrth droedio llwybrau'r ardd sylweddolais pa mor lwcus oeddan ni o gael gweld yr ardd hon, gan mai dim ond rhwng y 25ain o Ebrill hyd at 20fed Mai oedd modd cael mynediad i'r ardd, roedd rhaid mynd am dro o'i chwmpas. **4**

Rhaid deud mi ydw i wrth fy modd efo'r ellesgen (*iris*) piws tywyll sy'n tyfu yn yr ardd acw a chawson ni ddim ein siomi o grwydro'r ardd hon chwaith. Wyddwn i ddim bod gymaint o wahanol fathau o ellesg i'w cael. Dyma rywfaint felly o'r amrywiol rai welsom ni, dim syniad beth oedd enwau'r rhain - dim ots jest mwynhewch y gwahanol liwiau a ffurfiau. **5 - 14**

Yr unig beth wrth gwrs ar ôl crwydro a dotio, oedd na fedrwn i fynd â'r un planhigyn na thoriad o blanhigyn adra efo fi, a finnau'n meddwl siŵr y bydden nhw wedi mwynhau byw ar lethrau Moel Rhiwen. Ta waeth, mi gawson ni grwydro gardd hyfryd a mwynhau'r amrywiol liwiau a ffurfiau o'r gellesg a phob math o blanhigion eraill.

# CHWILAIR MIS TACHWEDD - MAMALIAID CYMRU

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| M | O | Ch | Y | N | D | A | E | A | R | Ŷ | B | E | N | S |
| O | D | O | L | I | R | P | O | W | Ll | I | R | Dd | U | T |
| R | E | G | H | T | A | Dd | E | Th | F | N | E | Ll | B | W |
| L | Ff | R | A | Th | E | D | Ch | U | B | E | Y | Y | E | R |
| O | D | E | E | S | N | W | A | N | R | G | S | G | C | Ch |
| C | S | W | Rh | B | O | L | I | S | O | N | G | O | Ph | D |
| Y | B | I | D | N | G | R | A | D | N | I | Y | D | O | A |
| Ff | C | W | P | Y | G | Ng | E | C | W | N | F | E | Y | E |
| R | F | A | D | Ŷ | I | N | Ch | P | E | W | A | N | S | A |
| E | Y | Ph | Ll | W | Y | N | O | G | N | C | R | F | T | R |
| D | D | Y | F | R | G | I | Dd | S | H | I | N | A | L | E |
| I | R | B | Ŷ | D | C | A | R | L | W | M | O | W | U | T |
| N | F | D | E | O | C | R | E | L | E | B | G | R | M | S |
| N | O | R | G | N | E | B | N | E | D | O | G | Y | Ll | C |
| Ng | B | Ff | O | N | Ll | U | P | T | E | L | M | H | Ch | W |

- BELE'R COED
- BRONWEN
- CARLWM
- CWNINGEN
- DRAENOG
- DYFRGI
- LLŶG
- LLYGODEN BENGRON
- LLYGODEN FAWR
- LLYGODEN YR ŶD
- LLWYNOG
- MOCHYN DAEAR
- MORLO CYFFREDIN
- PATHEW
- TWRCH DAEAR
- YSGYFARNOG
- WIWER GOCH
- YSTLUM

Mae sawl enw i rai o'r creaduriaid yma mewn gwahanol rannau o Gymru. e.e. llwynog neu cadno, mochyn daear neu pry, gwahadden neu twrch daear ayyb.

Cewch yr atebion i'r chwilair hwn yn rhifyn nesaf yr Eco. Cofiwch bod rhai llythrennau dwbl yn Gymraeg, sydd yn llenwi un sgwâr yn y chwilair.




| Geirfa mamaliaid Cymru - Mammals of Wales Vocabulary | | |
|---|---|---|
| bele'r coed - pine marten | llŷg - shrew | morlo cyffredin - common seal |
| bronwen - weasel | llygoden bengron - vole | pathew - common doormouse |
| carlwm - stoat | llygoden fawr - rat | twrch daear - mole |
| cwningen - rabbit | llygoden yr ŷd - harvest mouse | ysgyfarnog - brown hare |
| draenog - hedgehog | llwynog - fox | wiwer goch - red squirrel |
| dyfrgi - otter | mochyn daear - badger | ystlum - bat |

# Chwilair Mis Hydref – Cymoedd a Dyffrynnoedd

- CWM AFAN
- DYFFRYN AMAN
- DYFFRYN ARDUDWY
- CWM BOCHLWYD
- DYFRYN CLWYD
- DYFFRYN CONWY
- CWM COWLYD
- CWM-Y-GLO
- CWM CYNON
- CWM GWENDRAETH
- CWM IDWAL
- DYFFRYN MAENTWROG
- CWM MARCHLYN
- CWM MELYNLLYN
- DYFFRYN MYMBYR
- DYFFRYN NANTLLE
- CWM PENNANT
- DYFFRYN RHEIDOL
- CWM SILYN
- DYFFRYN TANAT
- DYFFRYN TEIFI

| | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| D | Y | Ff | R | Y | N | Rh | E | I | D | O | L | B | C | T | I | N | C |
| Y | Y | O | D | T | R | D | D | E | N | A | R | C | W | D | Ch | Y | Ll |
| Ff | A | Ff | H | O | E | Y | Y | U | W | C | C | W | M | Y | G | L | O |
| R | E | W | R | D | I | Ff | Ff | S | A | W | L | M | G | W | Y | I | D |
| Y | G | A | N | Y | C | R | R | T | U | M | B | C | W | L | E | S | T |
| N | D | T | I | Ff | N | Y | Y | R | N | M | Ff | Y | E | Ch | C | M | E |
| A | Y | M | U | R | A | N | N | Y | Dd | E | W | N | N | O | Y | W | I |
| R | W | T | H | Y | F | M | A | D | Y | L | Y | O | D | B | S | C | T |
| D | L | A | W | N | A | A | M | N | F | Y | T | N | R | M | T | W | R |
| U | C | N | Y | C | M | E | A | S | T | N | R | D | A | W | A | M | C |
| D | N | A | R | O | W | N | N | B | A | Ll | M | B | E | C | C | P | A |
| W | Y | T | S | N | C | T | A | R | W | Y | E | Ng | Th | S | W | E | Y |
| Y | R | N | A | W | S | W | A | I | T | N | F | T | R | E | M | N | O |
| N | Ff | Y | D | Y | Ff | R | Y | N | M | Y | M | B | Y | R | I | N | S |
| C | Y | R | B | S | E | O | C | W | M | C | O | W | L | Y | D | A | U |
| G | D | Ff | H | I | T | G | B | D | U | S | T | O | Dd | S | W | N | C |
| W | I | Y | N | C | W | M | M | A | R | Ch | L | Y | N | T | A | T | Y |
| T | R | D | O | D | Y | Ff | R | Y | N | T | E | I | F | I | L | D | B |

**ATEBION**

1) Y cwm nad yw'n gwm yw - Cwm-y-Glo.
2) 3 cwm yn y chwilair sydd yn Ne Cymru?
3) Enwau'r cymoedd yn Ne Cymru oedd - Cwm Afan, Cwm Cynon a Chwm Gwendraeth
4) Y cwm tecaf, yn ôl y bardd Eifion Wyn, oedd Cwm Pennant:

*'Yng nghesail y moelydd unig,*
*Cwm tecaf y cymoedd yw, -*
*Cynefin y carlwm a'r cadno,*
*A hendref yr hebog a'r ryw:*
*Ni feddaf led troed ohono,*
*Na chymaint a dafad na chi;*
*Ond byddaf yn teimlo fin nos wrth fy nhân*
*Mai arglwydd y cwm ydwyf fi.'*

*Eifion Wyn*

5) Yn olaf y cwm sydd ym mro'r Eco yw - Cwm Marchlyn)

# Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

## 5ED FEDI 2023

**Cadarnhau cofnodion**
Cafwyd Cofnodion Cyfarfod 4ydd Gorffennaf yn gywir

**Materion o'r Cofnodion**
**Neuadd Rhiwlas** - Yn dilyn cysylltu â'r cyfreithwyr penodol, maent bellach wedi cymryd y gwaith yma ymlaen ar ein rhan, ac yn amlwg yn gweithredu hefyd, gan fy mod wedi derbyn llythyr gan Gofrestra Tir yn datgan eu bod wedi bod yn cyfathrebu gyda'r cyfreithiwr.

**Ymddygiad Gwrthgymdeithasol** - Nododd Elfed Williams fod y sefyllfa yma wedi distewi unwaith eto.

**Eisteddfod Genedlaethol**
Bu i gyfraniad y plwyf ymestyn dros £8000 erbyn y diwedd. A diolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd. Llongyfarchiadau hefyd i'r cynifer a fu yn llwyddiannus o'r ardal ac y gwelsom ar lwyfan y brifwyl. Mae hi wastad mor braf gweld plant, ieuenctid ac oedolion yr ardal yn cael llwyddiant aruthrol, da iawn wir.

**Arwydd Dim Loriau Trwm**
Mae'r arwydd yma wedi ei osod ar waelod y lôn yn Neiniolen ger Garej Arfon.

**Lôn Bethel i'r Gelligyffwrdd**
Arwyddion 30 m.y.a. wedi eu gosod ac yn ymestyn nawr cyn belled â Gwynfa.

**Biniau Marchlyn**
Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno o'r diwedd i osod bin yn y man yma.

**Gohebiaeth a Materion Eraill**

**Mainc**

**Bro Rhos, Bethel, Cae Chwarae Clwt y Bont a Bro Rhiwen**
Cafwyd wybod bod y fainc ym Mro Rhos angen ei atgyweirio ynghyd a Bro Rhiwen, ac mae mainc Clwt y Bont wedi cael graffiti hyll wedi ei ysgrifennu arni. Byddwn o hyn ymlaen yn recordio pob graffiti fel hyn i'r heddlu.

**Rhodd** Derbyniwyd rhodd gan Mrs Mary W Jones er cof am John B Jones, a fu yn was ffyddlon drwy ei waith fel clerc i'r Cyngor am sawl blwyddyn cyn ei ymddeoliad.

**Ymgynghoriad Y Gwasanaeth Tân**
Mae sawl un yn bryderus am beth fydd canlyniad yr ymgynghoriad yma. Bu I'r mater ddod allan yr wythnos pan oedd y senedd yn cau am yr haf. Mae 4 safle dan fygythiad yn y gogledd: Llanberis, Cerrigydrudion, Abersoch a Biwmares. Yn amlwg, mae patrwm i hyn, sef mae eu lleoliad i gyd yng nghefn gwlad. Mae'r frigad dân yn cael eu galw i gymaint fwy o achosion brys na thân. Maent hefyd yn cael eu galw i lenwi bylchau, pan mae'r prif safleoedd yn brysur a gwasanaeth yno i gyd allan. Bydd gweld colli'r safleoedd yna yn ergyd drom i'r ardal.

**Cynllunio**
Derbyniwyd y ceisiadau canlynol:
**C23/0657/18/LL Tir Gyferbyn â Stad Cremlyn, Bethel**
**Cais Cynllunio llawn i godi 30 o dai fforddiadwy gyda mynedfa newydd, ffordd fynediad mewnol a gwaith cysylltiedig.**
Er bod y Cygnor yn cytuno fod angen am dai i bobl leol, bydd y cyngor yn codi'r pwyntiau canlynol, sydd heb gadarnhad am ymateb penodol hyd yn hyn, a bod angen sicrwydd cefnogaeth i'r pryderon hyn:

**Ysgolio**n - Nid oes manylion parthed amgylchiadau Ysgol Bethel yn y cais cynllunio. Mae'r ysgol eisoes yn derbyn disgyblion o'r Felinheli yn dilyn adeiladu yno, a'r ysgol yn llawn. Nid yn unig llefydd gweigion sydd angen ei ystyried, ond mae angen hefyd ystyriaeth i ble mae'r bylchau ar draws ddosbarthiadau'r ysgol. Ee - gall gorlifiad o un oedran, a'r dosbarth yn llawn yn barod chwalu trafnidiaeth yr ysgol am sawl blwyddyn.

**Gwarchod Y Gymraeg** yn yr ysgol a'r pentref.

**Carffosiaeth** - Mae rhannau o Fethel yn gorlifo, ac mae'r sefyllfa yn gwaethygu. Ydi hyn yn mynd i fod yn ofid arall yn yr ardal?

**Lleiniau Hamdden** - Nid yw'r cais yn esbonio ynglŷn â'r ddarpariaeth i ofalu wedi cwblhau. Oes potensial i'r ardal yma ar y cynllun droi yn ganolbwynt ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**Parc Chwarae** - Gan nad oes parc chwarae ar y safle, mae plant o'r stad yn mynd i orfod croesi ffordd beryglus, brysur i fynd i'r parc. Tybed a oes ystyriaeth wedi ei roi i fan croesi penodol yn yr ardal yma?


## HYWEL WILLIAMS

AELOD SENEDDOL ARFON



01286 672076
8 Stryd y Castell Caernarfon
hywel.williams.mp@parliament.uk

Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Senedd San Steffan, o gronfeydd cyhoeddus

## SIÂN GWENLLIAN

AELOD O SENEDD CYMRU DROS ARFON



01286 672076
8 Stryd y Castell Caernarfon
sian.gwenllian@senedd.cymru

Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd, o gronfeydd cyhoeddus


## Cyngor Cymuned Llanrug yn cefnogi'r alwad am Ddeddf Eiddo




Mae Cymdeithas yr Iaith wedi croesawu cefnogaeth Cyngor Cymuned Llanrug ar gyfer ei chynigion Deddf Eiddo, ac yn erfyn ar gynghorau eraill i ddilyn ei hesiampl.

Cynigiodd y cynghorydd Hefin Jones mewn cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanrug ar 15fed Awst, "fod y cyngor yn cefnogi ymgyrch Cymdeithas yr Iaith am Ddeddf Eiddo gynhwysfawr deg." O ganlyniad, penderfynwyd "fod y cyngor yn cefnogi amcanion Cymdeithas yr Iaith a bod y Cynghorydd Hefin Jones yn cynrychioli'r cyngor mewn unrhyw gyfarfodydd."

Yn dilyn llwyddiant ei gynnig, dywedodd y cynghorydd Hefin Jones:

*"Mae'r galwad ar Lywodraeth Cymru gan Gyngor Cymuned Llanrug yn glir: mae angen Deddf Eiddo ar frys. Rydym wedi gweld ein hunain y niwed i'n cymunedau sy'n dod yn sgil y farchnad dai agored, a does dim modd cyfiawnhau mwy o oedi cyn cyflwyno deddfwriaeth fyddai'n dechrau mynd i'r afael a'r broblem"*

Dywedodd Jeff, Cadeirydd Grŵp Cymunedau Cynaliadwy Cymdeithas yr Iaith:

*"Rydym yn falch o dderbyn cefnogaeth Cyngor Cymuned Llanrug ar gyfer ein cynigion Deddf Eiddo. Mae mwy a mwy o bobl ledled Cymru'n gweld bod angen i'r Llywodraeth weithredu ar frys ac o ddifri er mwyn sicrhau parhad ein cymunedau, ac yn deall bod angen trin tai fel asedau cymunedol er budd pobl leol, ac nid yn unig fel asedau ariannol ar gyfer buddsoddwyr.*

*"Galwn yn awr ar gynghorau cymunedol eraill i ddatgan eu cefnogaeth i Ddeddf Eiddo cynhwysfawr o fewn y tymor seneddol hwn."*



# Cyngor Cymuned Llanrug

## 15ED AWST, 2023

**I. Derbyn Croeso gan y Cadeirydd**
Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a diolchodd am bresenoldeb yr aelodau.

**2. Cadarnhau cofnodion Cyfarfod 18fed Gorffennaf 2023**
Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i harwyddwyd gan y Cadeirydd.

**3. Derbyn Adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor y Fynwent**
Adroddwyd am Gais Mynwent y Flwyddyn a ddyfarnwyd yn un o'r tri cyntaf yn y gystadleuaeth. Bydd y canlyniad yn cael ei gyhoeddi mewn seremoni ar 19.9.23.

Ar 24ain o Orffennaf 2023 bu'r pwyllgor yn cyfarfod a chynrychiolydd Elusen Dyffryn Peris yn y fynwent i ddiolch yn ffurfiol am y grant i bwrcasu hysbysfwrdd. Bydd adroddiad yn ymddangos yn y wasg ac ar lein. Arwyddion parcio wedi eu harchebu, a hefyd polisi drafft cofebion wedi ei ysgrifennu ac yn cael ei gyfieithu. Asesiad risg. Dyddiad gwaith yn y fynwent wedi ei newid.

**Penderfynwyd**: Derbyn a diolch am yr adroddiad a llongyfarchwyd y pwyllgor ar ei gwaith yn y fynwent i sicrhau fod mynwent Llanrug ar y brig ar draws y Deyrnas Unedig. Cadeirydd y pwyllgor a'r Clerc i fynychu'r seremoni wobrwyo.

**4. Derbyn diweddariad am ddifrod i Gae Chwarae Dolafon**
Adroddwyd fod difrod wedi cael ei achosi i gae chwarae Dolafon. Nodwyd fod ein contractwr wedi bod yn clirio'r gwaith.
**Penderfynwyd**: Derbyn y wybodaeth a nodwyd fod y math yma o ymddygiad yn siomedig ond fod y mater bellach wedi cael sylw a phenderfynwyd peidio cymryd camau pellach ond cadw golwg ar y sefyllfa.

**5. Derbyn adroddiad ar y cyd oddi wrth y cynghorwyr Beca Brown a Berwyn Parry Jones, sef aelodau dros Gwm y Glo a Llanrug ar Gyngor Gwynedd**

**6. Trefnu dyddiadau archwilio meysydd chwarae**
Adroddwyd yn dilyn derbyn yr asesiad risg am y meysydd chwarae fod angen i aelodau o'r Pwyllgor Hamdden gyfarfod ar y meysydd chwarae ac adnabod beth sydd angen sylw. Byddai yn ddelfrydol cael ein contractwr yn bresennol yn ogystal.
**Penderfynwyd**: Awgrymu'r dyddiadau canlynol - 29, 30 a 31 o Awst.

**7. CEISIADAU CYNLLUNIO**
a) Rhif y Cais: C23/0460/23/DT.
Estyniad unllawr at gefn a blaen yr eiddo. Pen Draw Ffordd Clegir, Llanberis.
**Penderfynwyd**: Dim gwrthwynebiad.
b) Rhif y Cais: C23/0523/23/LL.
Cais Cynllunio Newid Defnydd ar gyfer Cabanau Moethus a Podiau gyda thymor 12 mis yn Seiont Riverside Camping. Yn Cynnwys: 14 Cabanau Gwyliau Moethus, 5 Pod Moethus, Creu llyn bywyd gwyllt, tirlunio a phlannu coed a llwyni brodorol, llwybr mynediad ar hyd pont newydd dros Afon Seiont (croesffordd rheilffordd hanesyddol) a llwybr mynediad argyfwng a thymor 12 mis. Riverside Campsite, Riverside, Ffordd Llanberis, Rhosbodrual, Caernarfon.
**Penderfynwyd**: Cymeradwyo'r cais ar yr amod fod yr hyn a adnabyddir gan yr Asiantaethau yn cael eu cymeradwyo.
c) Rhif y Cais: C23/0514/23/DT
Estyniad i fodurdy. Tir ynTy Isaf, Ceunant.
**Penderfynwyd**: Dim gwrthwynebiad.
d) Rhif y Cais: C23/0552/23/DA.
Diwygiad ansylweddol i ganiatâd rhif C23/0239/23/DT er cynyddu maint drysau patio, ail leoli ffenestri to a chadw drws ffrynt yn lleoliad gwreiddiol. Bwlch Cottage, Lon Bwlch, Cwm y Glo.
**Penderfynwyd**: Dim gwrthwynebiad.

**8. Fod y Cyngor yn cefnogi ymgyrch Cymdeithas yr Iaith am Ddeddf Eiddo cynhwysfawr deg**
(Cyng. Hefin Jones)
**Penderfynwyd**: Fod y Cyngor yn cefnogi amcanion Cymdeithas yr Iaith a bod y Cynghorydd Hefin Jones yn cynrychioli'r Cyngor mewn unrhyw gyfarfodydd.

# Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Waunfawr

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 19eg Gorffennaf, 2023 gan y Cyng MT ac eilwyd gan y Cyng LD.
**Materion yn codi o'r Cofnodion**
**Materion Caeathro – Troedffordd o Gaeathro i Gaernarfon** - Cais PAC wedi ei dderbyn cafwyd cyflwyniad ar lafar gan y Cyng SB o'r ymchwiliad mae hi wedi ei wneud i'r cais i osod generator nwy sy'n cynhyrchu trydan. Mae'n sôn mai am tua awr a hanner y dydd y bydd yn troi, a bydd angen mesur y pellter o'r eiddo cyfagos o ran sŵn. Nodwyd nad oedd y linc i'r Gymraeg yn gweithio. Cynigwyd gan y Cyng SB fod y Cyngor yn gwrthod y cais oherwydd ddim yn cyd-fynd a phrosiect y Cyngor Cymuned - Gwyrfai Gwyrdd. Eiliwyd gan aelodau eraill y Cyngor oedd yn bresennol.

Aros gohebiaeth bellach gan Gyngor Gwynedd yn dilyn archwiliad gyda'r Heddlu yn dilyn y ddamwain yn ddiweddar.
**Llinellau Melyn ger Stad Erw Wen** - ar raglen waith Cyngor Gwynedd.
**Monitro cyflymder traffic Hen Lon Caeathro** - Aros canlyniad yr arolwg traffic.

Cylchfan Caeathro - Cyngor Gwynedd yn asesu bob mis, ar y rhaglen waith i gael ei ail-wynebu
Materion Waunfawr –
**Cae Aml-dywydd** - Wedi arwyddo telerau'r Les, aros y Les gan Gyngor Gwynedd.
**Golau fflachio bob ochr i'r pentref** – Aros diweddariad ynglŷn â'r Ganolfan Iechyd newydd, a hefyd y rheol newydd 20m.y.a.
**Drych** - Aros i Gyngor Gwynedd osod y Drych gyferbyn â'r Hen Bost
**Baw Ci** - Mae cwynion ynglŷn â baw ci ar y droed ffordd yn y pentref, mae Swyddog Cyngor Gwynedd yn ymweld â'r pentref yn rheolaidd i fonitro a bydd dirwy yn cael ei roi os bydd rhywun yn cael eu dal. Os oes angen bagiau baw ci ar unrhyw un yn y pentref yna plis cysylltwch â'r Clerc neu'r Cynghorydd Edgar Owen.
**Gor yrru tu allan i'r ysgol** - Wedi cadarnhau hefo'r Cyngor i osod y monitr traffic yn rhywle addas rhwng lle mae'r ffordd yn agor allan ger Bryn Golau a giât fawr i'r Ysgol. Mae twmpathau arafu traffic ar y ffordd, ond dydi ceir ddim i weld yn cymryd sylw ohonynt er bod cyflymder y ffordd yn 20 m.y.a. ers peth amser.
**Seddi Gwag** - un sedd wag dal ar ôl ar y Cyngor Cymuned, cysylltwch â'r Clerc os oes ganddoch ddiddordeb.
**Gerddi Bach** - Tenantiaid wedi symud mewn i'r 4 ty ar y safle, ac wedi setlo. Aros adroddiad gan McVenture ar offer y Cae Chwarae.
**Llochesi Bws** - Llochesi bws newydd wedi eu gosod yn y pentref. Cyngor Cymuned yn aros pris i ail osod un o'r llochesi bws blaenorol ar hyd ffordd ger yr ysgol ar gyfer defnydd plant sy'n mynd i Ysgol Brynrefail.
**Llwybrau** - gwaith Parc Dudley yn mynd ymlaen. Agoriad swyddogol wythnos hanner tymor mis Hydref. Dyddiad i'w gael gan y Cyng Edgar Owen.
**Cynllun Gwyrfai Gwyrdd** - Aelodau Cyngor Cymuned Waunfawr a Betws Garmon ynghyd ac aelodau eraill o'r ardal yn edrych ar brosiect Gwyrfai Gwyrdd.
**Problemau Parcio** - mae nifer o lefydd yn y pentref yn creu pryder oherwydd wrth barcio, a all greu damweiniau e.e. wrth ymyl cyffordd. Plîs ystyriwch eraill wrth barcio'n y pentref.
**Dyddiad cyfarfod nesaf:** - 18.10.2023 yn y Ganolfan Waunfawr.


Dewch am dro i'r siop am wledd o lyfrau i'ch ysbrydoli



Ar y Stryd Fawr ac Ar Lein

Palas Print

10 Stryd y Plas
Caernarfon
01286 674631
siop@palasprint.com
palasprint.com

# Garddio

## TACHWEDD

Daeth yr hydref ac mae'r gaeaf ar ei warthaf. Mae'r dyddiau'n byrhau a'r nosweithiau'n dywyllach a hirach, esgus dda i gynnau ambell i gannwyll. Mae'r tymheredd yn gostwng a bydd angen siaced neu siwmper dew i fynd allan i arddio. Er bod yr ardd yn barod i aeaf gysgu mae dal amser i blannu ambell i beth.

**Plannu bylbiau**

Os nad yw'n rhy wlyb gallwch dal fentro plannu bylbiau cennin Pedr ac wrth gwrs dydy hi ddim yn rhy hwyr i blannu bylbiau mewn potiau. Cewch sioe hardd ac mae modd i'w trawsblannu i'r ardd, ar ôl iddynt flodeuo. Mis Tachwedd ydy'r amser gorau i blannu bylbiau tiwlip, boed hynny ar ddechrau neu ddiwedd y mis, neu os yw'n fwyn hyd at ddechrau mis Rhagfyr. Gallwch greu '*lasagne*' o fylbiau mewn pot. Dyma awgrym ar gyfer creu cyfuniad hyfryd - bylbiau tiwlip pinc '*Synaeda Amor'* ar y gwaelod, yna haen o *narcissuss* gwyn '*Thalia*' gan orffen efo haen o fylbiau *Chinodoxa forbesii* '*Pink Giant'*. Cofiwch roi haen hael o gompost i bob lefel a cewch sioe hyfryd yn y gwanwyn. Gosodwch rwyd neu *mesh* o ryw fath i warchod eich creadigaeth rhag wiwerod llwyd, os ydyn nhw'n bla neu os oes ganddoch gath fawr sunsur.

Gallwch blannu hy*acinth* mewn potyn yn y tŷ yn awr ar gyfer y gwanwyn. Mae hi hefyd yn adeg da i blannu'r *hippeastrum* neu'r *amaryllis* ar gyfer sioe o flodau hardd yn y tŷ. Dylien nhw flodeuo o fewn 6 - 8 wythnos o'u plannu, cofiwch efallai byddan nhw angen cansen i'w cefnogi a sicrhau nad yw'r pot yn disgyn drosodd!

**Plannu hadau**

Mae'r gwybodusion yn dweud nad ydy hi'n rhy hwyr i hau hadau ffa (*broad beans*) ac fel arfer argymhellir plannu *Aquadulce*. Mi ydw i wedi trio sawl tro ond wedi dod i benderfyniad na fyddaf yn gwastraffu fy amser acw eto. Mae'n rhy oer, gwlyb a gwyntog i unrhyw fath o ffa oroesi, heb son am gnydio. A deud y gwir gan fod gwyntoedd cryf Agnes wedi chwalu'r ffa dringo Ffrengig a Borlotti a'r ffa byr eleni (eto) jest fel roedd hi'n edrach y baswn i'n cael cnwd, efallai na fyddaf yn plannu unrhyw fath yn 2024, sy'n bechod, gan eu bod nhw'n un o fy hoff fath o lysiau.

**Plannu a rhannu**

Dwi eisoes wedi plannu garlleg (o'r rhai dyfais i fy hun) ond gallwch eu plannu nhw ym mis Tachwedd, gan fod angen cyfnod o leiaf 4 - 6 wythnos o oerni er mwyn i'r bylbiau ffurfio'n iawn. Os ydach chi'n eu plannu o'ch garlleg eich hun sicrhewch mai'r rhai mwyaf ac iachaf rydach chi'n eu plannu gan fod gwell siawns i'r rhain greu clwstwr o fylbiau mawr blasus, bydd y rhai bach yn flasus i'w bwyta rŵan, jest y peth mewn stiw neu gyri yn y tywydd oer.

Mae plannu coed neu lwyni troednoeth yn ffordd rad o ychwanegu at blanhigion eich gardd. Rwan ydy'r adeg i'w plannu, gan na fyddant ar gael ond o ddiwedd yr hydref hyd ddechrau'r gwanwyn. Gan nad oes pridd ar y planhigyn maent yn hawdd i'w harchebu drwy'r post/ar y we. Oherwydd bod eu gwreiddiau'n ymestyn yn eangach na phlanhigion mewn potiau, maent yn dueddol o sefydlu eu hunain yn gyflymach. Ceisiwch eu plannu'n syth i'r ddaear, ond os yw'r ddaear yn rhy wlyb neu wedi rhewi gallwch eu gosod mewn compost heb fod yn rhy wlyb mewn potyn tan fydd yr amodau plannu'n well. Pan fyddwch yn barod i'w plannu trochwch nhw mewn dŵr cyn eu gosod mewn twll sydd yr un dyfnder ond ddwywaith yr arwynebedd a'r gwreiddiau. Tociwch blaenau'r gwreiddiau a thaenwch *fungi mycorrhizal* drostynt, cyn llenwi'r twll a'i ddyfrio.

**Clirio a thwtio**

Dyma'r mis i glirio'r planhigion fel y dahlia, gladioli a begonia er mwyn eu sychu a'u cadw ar gyfer y flwyddyn nesaf. Gair i gall, cofiwch roi label ar bob un, neu bydd ganddoch chi ddim syniad beth yw bob un yn 2024! Cadwch nhw'n ddiogel mewn sied neu garej sych na fydd yn rhewi. Cofiwch tsiecio o bryd i'w gilydd gan gael gwared ag unrhyw un sy'n pydru. Byddan nhw'n barod i'w hail blannu ddechrau'r gwanwyn.

Cyn iddi rewi gwarchodwch eich offer garddio, ceisiwch insiwleiddio unrhyw dapiau dŵr tu allan. Gallwch brynu gorchudd



pwrpasol, neu eu lapio mewn '*bubble wrap*' a'i glymu'n ddiogel gyda band elastic. Gall tywydd oer niweidio offer plastic felly rhowch beipiau a chwistrellwyr dŵr mewn sied neu garej i'w cadw'n ddiogel dros fisoedd oer y gaeaf.

Cyn mynd ati i glirio'r holl blanhigion lluosflwydd (*perennial*) o'r borderi , meddyliwch! Gallwch adael rhai planhigion yn eu cyfanrwydd er mwyn i chi gael mwynhau eu strwythur gaeafol neu bennau hadau hardd. Os yw dail y planhigion yn fawr neu'n feddal e.e. hosta, maent yn dueddol o droi'n slwts, tra bo coesau liliau undydd (*day lilies*), ffenigl (*fennel*), mintys y gath a ffarwel haf (*asters*) yn troi'n ddu ar ôl barrug caled, felly mae'n syniad tocio'r rhain rhag i'ch borderi edrach yn rhy flêr. Torrwch nhw i lawr i'r llawr, gan adael jest tamaid bach o'r goes yn dangos uwchben y pridd, fydd yn eich helpu i gofio lle maen nhw, wrth i chi fynd ati i blannu bylbiau neu flodau i'w plannu allan (*bedding plants)* ar gyfer y gaeaf.

Gadewch gelyn y môr (*eryngium*), *echinacea*, blodau pigwn(*rudbeckia*), cribau'r pannwr (*teasel)* a'r briweg (*sedum*) i fwynhau eu pennau hadau ynghyd â'r dianthus, sy'n aros yn wyrdd bron iawn drwy gydol y gaeaf. Gallwch eu tocio yn y gwanwyn fel bo'r tyfiant newydd yn barod i ymddangos. Trwy adael tyfiant uchaf







y *fuchsia* a'r gwerddonell (*salvia*) a *penstemon* sy'n gallu bod yn dendar byddant yn gwarchod ychydig ar goron a gwreiddiau'r rhain. Bydd y pennau hadau hefyd yn fwyd a lloches i adar a phryfetach.

Gadewch wreiddiau'r planhigion blwyddol yn y ddaear, ond torrwch eu dail a'u coesau. Mi fwydith microbau'r pridd ar y gwreiddiau dros y gaeaf.

Cliriwch unrhyw chwyn sydd o gwmpas, neu mi fyddant yn gwasgaru eu hadau i bob man yn y gwanwyn. Cofiwch hefyd bod modd creu compost a/neu ddeilbridd o ddail planhigion rydach chi'n eu clirio yn ogystal â'r dail sy'n disgyn o'r coed a'r llwyni yn yr hydref.

**Lawnt**

Twtiwch ymylon eich lawnt os cewch gyfle rwan, ond peidiwch â thorri'r lawnt ar ôl mis Tachwedd. Peidiwch â'i dorri'n rhy fyr a gyda lwc bydd yn edrych yn daclus tan ddaw'r gwanwyn. Mae'n gwneud byd o les i roi bwyd hydrefol pwrpasol i'r lawnt, sy'n uchel mewn ffosffatasau (*phosphates*) a photash i hyrwyddo gwreiddiau cryf.

***Rhosyn Mynydd***

# Ar ben arall i'r lein

Wel dyma ni, mis arall wedi fflio heibio a heb gael cyfle i fynd allan gyda'r enwair. Bu'r tywydd yn anffafriol ar adegau, ond mewn difri mae'n anodd trio cadw pen rheswm a chael rhywfaint o synnwyr gan y cyrff yma sy'n gweithio ar draws gogledd Cymru a'r fro hon. Gyn belled ag y mae pysgota yn y cwestiwn, mae clwb yr SGLl wedi bod yn sicrhau 'sgota yn lleol er lles trigolion y fro ers 1908 a hyn i gyd gyda llafur ac ymdrechion gwirfoddolwyr. Sut mae'r cyrf eraill yma yn rhedeg tybed? Yn sicr maen nhw i gyd yn derbyn llif arian o rhywle i'w cynnal. Buaswn i gyd yn y byd 'sgota yn hoff o gael gwybod sut i gael rhoi ein trwynau yn y ffynhonnau ariannol sy'n dod i ffordd y sefydliadau yma.

Un corff sy'n fy synnu yn arw yw Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru. Pan sefydlwyd y corff yma rhyw dair blynedd 'ballu yn ôl mawr oedd ein disgwyliadau y buasai cydweithio gyda'n gilydd yn dod â budd mawr i'n dyfroedd, yn anffodus nid yw hyn wedi dod i'w lawn rym hyd yn hyn. Gwreiddyn hyn yw fod yr ymddiriedolaeth wedi rhoi cais i mewn i'r Loteri Treftadaeth i wneud gwaith ac astudiaethau yn ymwneud a'r torgoch. Bu'r cais yn llwyddiannus, a dyma sydd ar safle'r loteri am lwyddiant y cais i gael arian grant o £249,000 a gafodd ei gymeradwyo yn ystod Awst eleni – 'Prosiect Torgoch – ymgeisydd Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru Cyf. I achub y Torgoch rhag difodiant, y pysgodyn prin yma sydd ar gael ond mewn tri llyn yn Eryri.'



A dyma fo yr hen 'sgodyn prin yna – Torgoch i ni wrth gwrs

Rydym fel cymdeithas wedi trio cael gwybodaeth am gynnwys y cais, gan efallai fod rhai elfenau yn groes i ymdrechion y gymdeithas ar hyd y blynyddoedd i warchod y torgoch. Yn y dechrau nid oedd gwybodaeth ar gael, ond yn dilyn cyfres o ymholiadau a chysidro gofyn i'r loteri be oedd yn mynd ymlaen, fe gafwyd crynondeb o'r cais, a gyda syndod gwelwyd fod manylion wedi ei gyflwyno gyda llythyrau o gefnogaeth.

Mi fydd yr ymddiriedolaeth yn cynnal cyfres o gyfarfodydd yn Llanberis a'r cylch cyn diwedd y flwyddyn i drafod y cynllun. Ni fydd y clwb 'sgota lleol yn cael gwahoddiad, a hynny am ein dod wedi bod yn holi yn ormodol am be' goblyn sy'n mynd ymlaen. Mae tipyn o waith o'n blaenau, cewch wybod sut aiff pethau.



Y Faenol Medi 2023

Ynghanol hyn i gyd cefais gyngor i edrych ar safle we – www.top-of-the-poops.org/waterways/river seiont.

Ar faterion mwy positif o'r siambr newyddion 'sgota. 9ed a 10ed Medi cynhaliwyd 'Game Fair Cymru' yn y Faenol. Un dda oedd hi hefyd gyda'r tywydd yn ffafriol a'r gymdeithas wedi cael stondin ddim ymhell o'r fynedfa, ac fel y disgwylir roedd cryn ddiddordeb yn ein arddangosfa o weithgareddau'r clwb. Roedd gennym gyfrifoldeb hefyd o redeg yr atyniad 'gwersi castio pluen' a phoblogaidd dros ben oedd hyn hefyd, ac roedd yn dda gweld y diddordeb a oedd yn cael ei ddangos gan ferched. A wyddoch chi be, mi oeddynt yn fistar corn ar y bechgyn! Gydag ychydig o hyfforddiant mi oeddynt yn taflu'r bluen fel eu bod wedi bod wrthi ar hyd eu hoes, a hen hogiau yn bachu clustiau ei hunain! Da de, gobeithio gweld nifer ar y glannau yn ystod 2024.

Does dim dwywaith fod pysgota yn rhoi hwb fawr i'r ysbryd, a mwy o hwb pan mae rhyw bymtheg pwys o 'sgodyn gloyw yn tynnu ar ben arall i'r lein. Does ond rhyw dair blynedd 'ballu ers pan oedd bosib mynd a fo gartref ac i'r popdy, ond heddiw mae hyn yn groes i'r gyfraith yma yng Nghymru, yn ôl i'r afon fydd rhaid iddo fynd. Mae'r cysylltiad â lles wedi ei dderbyn dros glawdd offa, gan fod awdurdodau iechyd yn Lloegr wedi darganfod fod pysgota yn well na llawer i feddiginiaeth draddodiadol i nifer o ddioddefwyr. Rwy'n gallu cadarnhau fod hyn yn gweithio. Mae pwyslais ar hyn wedi bod yn ddiweddar drwy'r cyfryngau gan Hywel Morgan y pencampwr castio pluen, felly be am dynnu sylw Betsi a'r criw, ffordd iawn i arbed tocyn o arian yn 'de. Ond fel popeth i ymwneud â physgota 'does neb yn cymryd sylw.

Mae mwy o newyddion da yn dod o Fae Caernarfon, yn ddiweddar mae heidiau o'r Tuna Esgyll Glas wedi eu gweld o gwmpas y lle. Pysgodyn mawr hyfryd a galw mawr am ei gig fel prydyn blasus ar draws y byd. Mae ychydig iawn o gychod wedi cael eu trwyddedu i'w bysgota gyda genwair amdanynt, ond rhaid rhoi tag, cofnodi a'i rhyddhau. Cernyw a Phenfro yw'r ddwy ardal drwyddiedig ac o eleni mae un cwch o Bwllheli am roi *'go'* arni. Mae rheolau gwahanol i bysgotwyr masnachol.



Tuna asgell las



Dyma fo fel prydyn, os mor lwcus! Padelli Llanrug efallai!

Fel mae rhywun yn ddisgwyl, mae llefain fod y pysgod yma o gwmpas y lle yn arwydd pendant fod yr hinsawdd yn newid a'r moroedd yn cynhesu. Fy nghyngor i rhain yw edrych ar hanes a thrwy hyn weld y pysgota llewyrchus oedd am y pysgodyn yma ganol y ganrif ddiwethaf. Tydw i ddim am bregethu mwy am hyn, ond rhoi rhyw awgrym i chwi gael golwg ar lyfr ardderchog 'The Dazzle' gan Robert Hudson, mae copi ar gael drwy Lyfyrgell Caernarfon.
Hwyl am tro
**Huw Price Hughes**

# Ar hynt Henry Rees Davies

Roedd Henry Rees Davies (1861–1940) yn un o deulu dylanwadol Treborth, Bangor. Yn hael iawn ei gefnogaeth i nifer o fentrau lleol, cefnogodd waith y peiriannydd William Ellis Williams (Bethesda) a'r mathemategydd George Hartley Bryan, y ddau yn y Coleg ar y Bryn ganrif a mwy yn ôl. Eu nod oedd gosod sylfaen gadarn ar gyfer hedfan yn ddiogel. Awyren bambŵ oedd labordy Williams a Bryan a noddwyd gan Henry Rees Davies, yr awyren honno yn hedfan yn llwyddiannus ac yn ddiogel ar draeth Llanddona yn 1911.

Rydym yn chwilio am lun o Henry Rees Davies er mwyn tynnu sylw at ei gyfraniad. Os ydych yn gwybod am lun ohono, anfonwch nodyn ataf os gwelwch yn dda, trwy neges ebost at garethffowcroberts@gmail.com.

**Gareth Ffowc Roberts**



Yr awyren bambŵ ar draeth Llanddona
Llun trwy ganiatâd Archifau a Chasgliadau Arbennig Prifysgol Bangor




Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau ● Achlysuron Arbennig ● Cynadleddau
Pwyllgorau ● Bwydlen Bar
● PRIODASAU ●

Ffôn - 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

ESTD 1973
WAVELLS
AWARD WINNING BUTCHERS AND DELI
DELI A CHIGYDD O FRI

Bryn ac Angela Williams
LONDON HOUSE LLANRUG
yr ŵyn lleol mwyaf blasus
selsig cartre
cigoedd parod i'w bwyta
archebion ar gyfer y rhewgist
(01286) 673574

Tafarn Y Glyntwrog Llanrug

Bwyd ardderchog am brisiau rhesymol

Bydd croeso cynnes yma bob amser



671191


# Ewrop 2 UDA 0

Roedd llygaid y Byd Chwaraeon a Golff ar Dde Ewrop am ddau benwythnos ddiwedd Medi wrth i Ewrop ac America herio ei gilydd am Gwpan Ryder a Chwpan Solheim ar y cyrsiau golff.

Fel arfer, bydd y merched a'r dynion yn cystadlu am yn ail â'i gilydd bob dwy flynedd, ond oherwydd Covid mae'r calendar golff wedi gorfod dal i fyny. Felly eleni, roedd rhywbeth unigryw gyda'r Cwpan Solheim a'r Cwpan Ryder yn cael eu cynnal yr un flwyddyn, ac o fewn pythefnos i'w gilydd.

Tro'r merched oedd hi'r penwythnos cyntaf: y Cwpan Solheim, draw yn Finca Cortsein yn Andalwcia, Sbaen. America enillodd sesiwn y bore cyntaf, o 4 i 0. Doedd neb yn disgwyl hynny! Ond erbyn diwedd sesiwn y prynhawn daeth Ewrop yn ôl, ac Emily Kristine Pedersen o Ddenmarc yn cael twll mewn un yn ei gêm hi. Dim ond yr ail dro i hynny ddigwydd yn y Cwpan Solheim. Erbyn diwedd y diwrnod cyntaf roedd yr UDA ar y blaen o 5 i 3. Cyfartal oedd sesiwn bore'r ail ddiwrnod, gydag Ewrop yn ennill sesiwn y prynhawn o 3 i 1. Felly, ar ôl dau ddiwrnod o chwarae roedd popeth yn gyfartal: 8-8, cyn y diwrnod olaf.

Ar y diwrnod olaf roedd sesiwn y senglau: 12 chwaraewraig Ewrop yn erbyn 12 America. Roedd y gemau'n agos; a'r sgôr yn newid dro ar ôl tro. Gyda 10 gêm wedi gorffen, roedd hi'n gyfartal – 13 yr un; gyda dwy gêm yn weddill ar y cwrs. Dwi ddim yn meddwl y byddai neb wedi medru sgriptio'r diwedd. Am fod tîm Ewrop wedi ennill y Cwpan y tro blaenorol, dim ond 14 pwynt oedd arno ei angen i ennill eto; ond roedd ar America angen 14½ i ennill. Ar y 17eg twll, enillodd Carlotta Ciganda ei gêm hi yn erbyn Nelly Korda a sicrhau'r pwynt buddugol i Ewrop. Y ferch o Sbaen felly'n hawlio'r pwynt allweddol i ennill y Cwpan i dîm Ewrop yn Sbaen trwy gyrraedd y 14 Pwynt. Ewrop yn ennill y Cwpan Solheim am y trydydd tro yn olynol yn Andalwcia gyda'r sgor yn gorffen yn 14 pwynt yr un. Yr UDA mor agos, ond wedi cymryd rhan yn y Cwpan Solheim mwyaf cofiadwy sydd wedi bod.

Ddyddiau wedyn, roedd y sylw'n troi at Yr Eidal a Chlwb Marco Simone yn Rhufain wrth i'r dynion gystadlu am y Cwpan Ryder. Yn wahanol i'r Cwpan Solheim, tîm yr UDA oedd y deiliaid yn Rhufain, wedi iddo ennill y tro blaenorol. Fel y penwythnos cynt, un ochrog oedd y sesiwn cyntaf, ond Ewrop yn ennill o 4 i o y tro hwn. Daeth America yn ôl rywfaint yn y prynhawn trwy sicrhau tair gêm gyfartal. Ond roedd Ewrop ar y blaen o 6½ i 1 ½ wedi'r diwrnod cyntaf.



Yr ail ddiwrnod, dechreuodd Ewrop yn dda, fel y diwrnod cyntaf, ac ennill sesiwn y bore o 3 i 1. Roedd pwysau ar yr UDA yn sesiwn y prynhawn, ond cawsant y gorau ar Ewrop, ac ennill o 3 i 1. Wedi dau ddiwrnod, roedd mantais gref gan Ewrop: 10½ i 5½ cyn sesiwn y senglau ar y dydd Sul.

Gan Ewrop oedd y fantais wrth ddechrau dydd Sul felly. Gyda'r tim cartref yn gwneud y mwyaf ohoni, aeth 3 o'r 4 pwynt cyntaf i Ewrop a phwynt yn unig oedd angen i gyrraedd 14½.

Ond roedd y pwysau'n dechrau dweud ar Ewrop, gyda Matt Fitzpatrick o Loegr yn methu cyfle am gêm gyfartal ar y twll olaf yn ei gêm yn erbyn Max Homa, ac America felly'n cael pwynt arall. Enillodd America dair gêm arall wedyn. Ond wedi'r hir aros, daeth y foment wrth i Tommy Fleetwood guro Rickie Fowler, ac Ewrop yn ennill y Cwpan Ryder. Gorffennodd y sesiwn senglau yn gyfartal, 6 yr un, ac Ewrop felly'n ennill y Cwpan Ryder, 16 ½ i 11 ½ .

Dau benwythnos gwych o golff. Syniad da oedd cael y ddwy gystadleuaeth o fewn wythnos i'w gilydd. Ond yn anffodus, eleni oedd yr unig dro y bydd hyn yn digwydd gyda'r ddwy gystadleuaeth yn mynd yn ôl i flynyddoedd ar wahân o'r flwyddyn nesaf ymlaen. Ond bydd y Cwpan Ryder a'r Cwpan Solheim yn aros yn Ewrop am dipyn bach eto.

**Elgan Rhys Jones**

# Drws Ewro 2024 dal yn agored i Gymru

Yn dilyn canlyniadau siomedig yn ystod gemau mis Mehefin adref yn erbyn Armenia ac oddi cartref yn Nhwrci, roedd gobeithion Cymru i gyrraedd Ewro 2024 wedi cael tipyn o ergyd. Roedd gemau mis Medi a mis Hydref yn hollbwysig felly i gadw gobeithion Cymru'n fyw i gyrraedd Yr Almaen.

Mis Medi, roedd Cymru yn wynebu Latfia yn Riga. Dinas hyfryd a llawer iawn o gefnogwyr Cymru wedi gwneud y daith drosodd. Roedd cefnogwyr Cymru i'w gweld ym mhob cornel o'r cae gyda nifer fawr iawn wedi cael tocynnau yng nghanol y cefnogwyr cartref. Cychwynodd Cymru ar y droed flaen ond cafodd sawl cyfle eu methu. Cymru yn methu sgorio. Yn dilyn tacl ar Harry Wilson, fe roddodd y capten Aaron Ramsey Cymru ar y blaen gyda chic o'r smotyn ar ôl hanner awr o chwarae. Roedd yr ail hanner yn ddigon tebyg i'r cyntaf, gyda Chymru yn cael sawl cyfle ond methu rhwydo'r bêl i mewn i'r gôl. Fe gafodd Latfia ambell gyfle, gyda Danny Ward yn cael ei alw i wneud arbediadau. O'r diwedd, fe ddaeth ail gôl i Gymru i sicrhau y fuddugoliaeth yn ystod amser ychwanegol. Y sgoriwr? David Brooks, oedd wedi ei eilyddio ymlaen yn lle Aaron Ramsey ar ddechrau'r ail hanner. Fe ddaeth y chwiban olaf ac roedd Cymru wedi



ennill o ddwy gôl i ddim. Canlyniad angenrheidiol.

Ymlaen felly i Croatia adref yng Nghaerdydd fis Hydref. Llwyddodd Cymru i ennill pwynt yn erbyn Croatia yn Split mis Mawrth, ond roedd angen mynd un cam ymhellach y tro hwn os am barhau i gael cyfle i ennill lle yn Ewro 2024. Gan fod Twrci wedi curo Croatia ychydig ddyddiau yn gynharach roedd disgwyl i Croatia fod yn benderfynol i sicrhau buddugoliaeth yn erbyn Cymru. Roedd y canlyniad hwnnw hefyd yn golygu byddai'n rhaid i Gymru ennill pob un o'r tair gêm sydd yn weddill.

Roedd hi'n noson oer yn Stadiwm Dinas Caerdydd nos Sul 15ed Hydref ond roedd bechgyn Cymru ar dân o'r chwiban cyntaf. Gyda Chymru yn chwarae heb Aaron Ramsey a Brennan Johnson oherwydd anafiadau, roedd Croatia hefyd yn colli chwaraewyr allweddol yn Perišić a Krammarić. Cychwynodd Cymru yn ddisglair a'r bechgyn yn mynd amdani o'r cychwyn cyntaf. Er ein bod wedi cael sawl cyfle yn ystod yr hanner cyntaf, di-sgôr oedd hi hanner amser. Cymru efallai yn mynd i ddifaru methu dod o hyd i gefn y rhwyd yn yr hanner cyntaf?

Yn union fel yr hanner cyntaf, daeth Cymru allan yn yr ail hanner unwaith eto yn mynd amdani. Yr unig wahaniaeth y tro hwn fodd bynnag oedd fod Harry Wilson wedi llwyddo i daro'r bêl i mewn i'r rhwyd! Roedd Cymru ar y blaen dau funud i mewn i'r ail hanner. Roedd nifer o'r cefnogwyr heb ddychwelyd yn nôl i'w seddi ac wedi methu'r dathliadau. Ar achlysur ei hanner ganfed cap i Gymru, yn union deg mlynedd ar ôl derbyn ei gap cyntaf, roedd Harry Wilson wedi rhoi Cymru ar y blaen.

Er fod Croatia yn meddu tipyn go lew o'r bêl roedd Cymru yn ei gwneud hi'n anodd iawn iddynt unioni'r sgôr. Aeth pethau hyd yn oed yn anoddach i Croatia wrth i Harry Wilson sgorio gôl rhif dau ar farc yr awr. Aeth y gôl i mewn i'r rhwyd mewn *slow motion* dwi'n siwr i chi! Harry Wilson Brenin Corwen wedi taro Croatia fel corwynt. Roedd y dorf i gyd (wel, ac eithrio cornel ble roedd cefnogwyr Croatia yn sefyll) yn bloeddio canu enw Harry Wilson. Oedden ni am ei gwneud hi a chadw ein gobeithion o gyrraedd Ewro 2024 yn fyw?

Roedd Modric a Kovacic yn brwydro canol cae yn erbyn Ethan Ampadu a Jordan James. Bechgyn ifanc Cymru yn rhoi sialens i hen bennau Croatia. Fe lwyddodd Croatia i sgorio gyda phymtheg munud i fynd gyda Pasalic yn rhwydo'r bêl heibio Danny Ward. Pymtheg munud nerfus iawn i Gymru felly i drio dal gafael ar y fuddugoliaeth. Roedd yn rhaid i Danny Ward wneud sawl arbediad yn y munudau clo ond fe ddaeth y chwiban. Daeth rhyddhad i Gymru. Roedd y fuddugoliaeth wedi ei sicrhau.

O bosib yr her anoddaf o'r dair gêm wedi ei gorchfygu. Gobeithio na fydd Cymru yn baglu unwaith eto yn erbyn Armenia a Twrci fis Tachwedd. Mi fydd yn rhaid ennill er mwyn mynd trwodd yn awtomatig trwy'r grŵp. Gyda Twrci wedi sicrhau eu lle eisoes drwy'r grŵp, mae bachu'r safle olaf yn frwydr rhwng Cymru, Croatia ag Armenia. Os na fydd Cymru yn ennill ei dwy gêm olaf, dyw hi ddim yn ddiwedd y daith gan y bydd cyfle i fynd drwodd yn y gemau ail-gyfle. Mae Ewro 2024 felly dal ar y gorwel ond mae dal gwaith i wneud gan Gymru.

**Mared Rhys Jones**



# Dau Bencampwriaeth Ewros yn dod i Gymru

Dechrau Hydref daeth y newyddion fod Ewro 2028 yn dod i Gymru gyda UEFA wedi derbyn cais ar y cyd gan Gymru, Lloegr, Yr Alban, Gogledd a Gweriniaeth Iwerddon. Yn bersonol doeddwn i ddim yn dathlu y penderfyniad.

Dim ond un stadiwm yng Nghymru fydd yn cynnal gemau. Stadiwm y Principality (neu Stadiwm Genedlaethol Cymru fel y bydd yn cael ei alw gan UEFA) yng Nghaerdydd. Gyda 51 gêm ar draws y twrnament dim ond 5 neu 6 gêm ar y mwyaf fydd yn cael ei chwarae yn y brifddinas. Bydd y gemau yn cael eu lleoli mewn 10 stadiwm i gyd. 6 stadiwm yn Lloegr ac un yr un yng Nghymru, Yr Alban, Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon. Gyda threfn y gemau i'w dewis bydd yn ddiddorol gweld ble fydd UEFA yn ddewis ar gyfer y gêm agoriadol gyda'r Rownd Derfynol heb os yn Wembley.

Ydi hi'n deg i ddweud a fyddai wedi bod yn well i Loegr gynnal y twrnament ar ben eu hunain? Mae ganddynt ddigon o stadiymau gwerth chweil a fyddai wedi gallu cynnal gemau, a hynny i gyd mewn un gwlad. Neu a fyddai'r Gwledydd Celtaidd wedi gallu gwneud cais ar y cyd heb Loegr? Dwi'n siwr fyddai Cymru, Yr Alban, Gogledd Iwerddon a'r Weriniaeth wedi gallu ychwanegu o leiaf un stadiwm yr un yn ychwanegol i'w cais. Byddai hynny wedi gweithio yn well i'r 4 Gymdeithas dwi'n tybio gyda'r sylw ar y gwledydd Celtaidd yn hytrach na Lloegr a "Phrydain".

Fel arfer mae timau sydd yn cynnal Pencampwriaethau'r Ewros yn cael lle awtomatig yn y rowndiau terfynol. Fodd bynnag, gan fod 5 yn cyd gynnal a hynny yn ormod o lefydd awtomatig gan UEFA, mi fydd rhaid i ni gymryd rhan yn y Rowndiau Rhagbrofol. Gobeithio wir y gallwn lwyddo i ennill ein lle. Neu am siom a diflas y byddai Ewro 2028 yng Nghaerdydd a Chymru ddim yno. Gobeithio na ddaw i hynny!

Ond cyn meddwl ymlaen tuag at Ewro 2028 yn dod i Gymru a Chaerdydd, bydd Cymru a'r Gymdeithas yn edrych ymlaen at 2026 ble fydd y Gymdeithas yn dathlu ei phenblwydd yn 150 mlwydd oed. Pa ffordd well i ddathlu'r achlysur na'r cyhoeddiad a ddaeth diwedd Medi yng nghyfarfod UEFA yn Limassol, Cyprus. Yno cyhoeddwyd bydd Pencampwriaeth Ewros Dan 19eg 2026 yn dod i Gymru.

Hon fydd yr ail dro y bydd Cymru yn cynnal un o rowndiau terfynol cystadlaethau UEFA wedi i Ewro Dan 19 y Merched gael ei chynnal yn 2013. Pryd hynny draw yn y De Orllewin yn Llanelli, Caerfyrddin a Hwlffordd y cynhaliwyd y gemau.

Rhaid dweud bu rhywfaint o genfigen dros y blynyddoedd wrth weld cystadlaethau Dan 17,19 a 21 UEFA yn mynd i'r holl wahanol wledydd ar draws Ewrop. Gwych fydd gweld un o gystadlaethau mawr UEFA yn dod yma.

Yn dilyn y cyhoeddiad daeth cadarnhad mai yma yn y gogledd fydd gemau Pencampwriaeth Ewro Dan 19eg 2026 gyda'r gemau i'w chware mewn 5 stadiwm i gyd. Y Cae Ras – Wrecsam, Nantporth – Bangor, Ffordd Llaneilian – Bae Colwyn, Stadiwm Glannau Dyfrdwy – Cei Connah a Pharc Canol – Dinbych. Gwych fydd hi i weld sêr y dyfodol yma yng Ngogledd Cymru. Bydd hwn yn gyfle gwych i ddangos Cymru a Gogledd Cymru ar ei orau ar, ac oddi ar, y cae.

**Elgan Rhys Jones**

# Chwifio baner Cymru ym Merlin

Aeth tri o fro'r 'Eco' i herio 45,000 o redwyr eraill ym Marathon Berlin ddiwedd Medi, a thra roeddem ni yn dioddef tywydd gwyntog a glawog, cawsant dywydd ffafriol i redeg y 26 o filltiroedd. Ond doedd yr un ohonynt yn agos i'r ferch gyntaf dros y llinell derfyn. Chwalwyd record y byd gan y ferch o Ethiopia, a oedd dros ddau funud yn gynt na'r hen record, a gorffen mewn amser anhygoel o 2 awr 11 munud a 53 eiliad, gan guro'r mwyafrif o'r dynion hefyd. Roedd dros chwe munud ar y blaen i'r ail ferch, sef mwy na milltir o bellter! Ond roedd yn gwisgo esgidiau rhedeg arbennig: y rhai ysgafnaf erioed i'w gwneud, a dim ond am un ras farathon yn unig y gellir eu gwisgo. Felly, os oes gennych obeithion am dorri eich record bersonol mewn unrhyw ras, maent i'w cael am £400.

Cafodd y tri lleol amseroedd boddhaol hefyd. Roedd Dyfed Thomas, Llanrug, yn cychwyn gyda'r ail don o redwyr, ac oherwydd y nifer, cymerodd dri munud cyn croesi'r llinell gychwyn. Ei amser oedd 2 awr a 51 munud.



Amser Hugh Morgan oedd 3 awr a 41 munud a Fiona mewn 3 awr 53 munud, ond yn hapus oherwydd iddi gyrraedd y nod oedran i gael hawl i gystadlu ym Marathon Boston. Roedd Fiona yn rhedeg i godi arian tuag at elusen Cancr Neuroendocrine.

Wythnos yn ddiweddarach roedd Hanner Marathon Caerdydd yn cael ei chynnal, gyda dros 27,000 o redwyr yn cymryd rhan. Roedd y saith rhedwr cyntaf o Kenya, ond braf yw cael llongyfarch Rhodri Owen o'r Waunfawr a orffennodd yn 23ain yn y ras mewn amser arbennig o 1 awr ac 8 munud. Ar yr un diwrnod roedd cwrs ras 10k Caernarfon yn cael ei ddefnyddio ar Y Foryd i gynnal un cymal o gyfres rasys ffordd y gaeaf yng nghyfres Cynghrair y Terfyn, sy'n agored i redwyr o glybiau rhedeg gogledd Cymru a thros y terfyn yng Nghilgwri a Swydd Caer. Roedd dros 300 yn cystadlu. Mae'r niferoedd uchod yn dangos pa mor boblogaidd yw rhedeg bellach.

Erbyn y daw rhifyn nesaf yr 'Eco' o'r wasg bydd ras fawr olaf eleni yn y fro wedi ei chynnal, sef Marathon Eryri, gyda grwpiau a chymdeithasau lleol yn elwa o'u gwaith gwirfoddol yn y gorsafoedd diod ac yn stiwardio ar y cwrs heriol o amgylch yr Wyddfa.

## Dal i redeg....



Daeth llwyddiannau lleol ar fynydd a ffordd – yng Nghymru a thramor dros y mis diwethaf – a nifer o'r rhedwyr yn cael eu coroni yn bencampwyr. Merched lleol aeth a hi ym Mhencampwriaeth Gogledd Cymru Cymdeithas Rhedwyr Mynydd Cymru. Mae'n blino rhywun i geisio ynganu teitl y gystadleuaeth, heb son am redeg sawl ras ar hyd a lled y gogledd er mwyn ennill y pwyntiau angenrheidiol ar ddiwedd y gyfres. Llongyfarchiadau i Efa Baines, Clwt y Bont am ennill y dosbarth i ferched dan 23ain oed, ac i Maggie Oliver, Dinorwig am ennill y dosbarth i ferched dros 75 oed. Dau begwn eithaf y gystadleuaeth, a llwyddiant i fro'r 'Eco'. Roedd Maggie hefyd yn fuddugol yn ei dosbarth oedran yn Ras Hanner Pedol Peris.

Cyfle i ieuenctid lleol oedd dangos eu dawn ym Mhencampwriaeth Rhedeg Mynydd Ieuenctid Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar Y Gogarth yn Llandudno yn ôl yr arfer. Roedd mwy nac erioed yn hanes y gystadleuaeth yn rhedeg, a bu'n rhaid rhannu'r rasys i'r plant ieuengaf am fod gormod yn cystadlu! Arwydd sicr fod dyfodol disglair i redeg mynydd yng ngogledd Cymru. Daeth Dewi Williams o Lanrug yn gyntaf dan 13eg oed, a'i frawd, Guto yn drydydd dan 11eg oed. Llongyfarchiadau.




## COLOFN CHWARAEON



**LLWYDDIANT BEICIO**

Ar ddiwrnod olaf mis Medi roedd Pencampwriaethau Treialon Amser Cymru yn cael eu cynnal yn Y Fenni. Roedd y ras i ferched eleni yn 50 milltir o hyd, a phawb yn cystadlu am yr amser byrraf i gwblhau'r cwrs. Llongyfarchiadau i Sarah Murray o Lanberis, ac aelod o Glwb Beicio Egni Eryri, ar ddod yn drydedd yn y Bencampwriaeth, mewn amser o 2 awr 7 munud a 48 eiliad. Roedd hi felly'n beicio dros bum milltir yr awr yn gyflymach na'r cyfyngiadau gyrru a ddaeth i rym yn gynharach y mis!



ISSN 2516-7235
9 772516 723001 >